

[page 1]

STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

2017 - 2021

Yn ymgorffori

RHAN A

- CYNNIG PRAESEPT 2017 -2018
- CYLLIDEB REFENIW 2017 -2018
- RHAGAMCANION REFENIW 2018 -2021
- STRATEGAETH GYFALAF 2017 – 2021
- CYNLLUN GWERTH AM ARIAN 2017 – 2021

RHAN B

- STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2017-2018

[page 2]

TABL CYNNWYS

Adran	Teitl	Tudalen
RHAN A		
CRYNODEB GWEITHREDOL		
1	Cyflwyniad	14
2	Trefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd	17
3	Cyd-destun Strategol - Ystyriaethau Cynllunio	19
4	Cyd-destun Strategol - Ystyriaethau Gweithredol	21
5	Cyd-destun Ariannol Strategol – Rhaglen Cyni Cyllidol Genedlaethol	31
6	Cyd-destun Ariannol Strategol – Y Sefyllfa Blismona Genedlaethol	34
7	Cyllid Allanol - Sefyllfa Grant Heddlu De Cymru	41
8	Anghydraddoldebau Cyllido Cyson sy'n Effeithio ar Heddlu De Cymru	42
9	Cyllideb Refeniw 2017/18 a Rhagamcan Refeniw 2018-2021	44
10	Cronfeydd Arlosedd a Thrawsnewid y Swyddfa Gartref	48
11	Cyllideb Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	49
12	Rhaglen Gyfalaf	52
13	Polisi Rheoli Trysorlys a Benthycia Darbodus	56
14	Sefyllfa Ariannol 2017– 2021	57
15	Gwerth am Arian	60

16	Praesept yr Heddlu a'r Gofyniad Cyllidebol ar gyfer 2017/18	63
17	Ystyriaeth Gapio	68
18	Sylfaen y Dreth Gyngor	69
19	Sylwadau'r Trysorydd (Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd)	70
20	Deddf Llywodraeth Leol 2003 – Datganiad “Adran 25”	71
21	Casgliad	71
22	Cynnig Praesept	72
	Rhestr o Atodiadau	74
RHAN B		
	Strategaeth Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2017-18	100

[page 3]

Crynodeb Gweithredol

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru baratoi'r canlynol, y mae'n ei wneud drwy ymgynghori'n llawn â'r Prif Gwnstabl:

- Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Comisiynydd ac sy'n cael ei ddatblygu ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ac ar ôl ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo yn ogystal â gofynion y Gofyniad Plismona Strategol a nodir gan y Swyddfa Gartref.
- Strategaeth Rheoli Risg
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (Strategaeth Ariannol)
- Strategaeth Rheoli Trysorlys Heddlu De Cymru
- Strategaeth Rheoli Asedau
- Rhaglen Gyfalaf
- Cyllideb Refeniw Flynyddol a Gwerth am Arian

Wrth baratoi'r Gyllideb Flynyddol rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan gynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tra'n ymdopi ag amrywiaeth eang o ofynion sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn “blismona” fel arfer.
- Cynnal y lefel bresennol o blismona cymdogaeth ac ymgysylltu â chymunedau De Cymru
- Diogelu pobl sy'n agored i niwed a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu mynych mewn perthynas â throseddau megis troseddau casineb, trais yn erbyn menywod a merched, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin domestig a throseddau ar-lein.

- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r System Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli troseddwyd a lleihau aildroseddu ymhlith pobl ifanc (o dan 18 oed) a'r rhai yn y grŵp 18 i 25 oed.

- Cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol a diogelu'r cyhoedd yn Ne Cymru, gan ymateb yn realistig i'r bygythiadau oddi wrth droseddau cyfunol a therfysgaeth a nodir a phlismona nifer gynyddol o ddigwyddiadau, gan gynnwys Rownd Derfynol Cwpan Cynghair Pencampwyr Undeb y Cymdeithasau Pêl-droed Ewropeaidd yn ystod 2017.

- Ymateb i her safonau sy'n newid ar gyfer hyfforddi swyddogion yr heddlu, a gynigiwyd gan y Coleg Plismona tra hefyd yn ceisio datblygu ein staff ar bob lefel i ymateb i'r heriau a wynebant a recriwtio pobl er mwyn sicrhau bod y gweithlu cyfan yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu plismona.

Mae'r Strategaeth Ariannol hon yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2021 ac mae'n amlinellu tybiaethau ac ystyriaethau'r Comisiynydd wrth lunio'r gyllideb a argymhellir ar gyfer 2017/18 a phraesept yr heddlu sydd ei angen i gyflawni'r gofyniad cyllidebol net.

[page 4]

Gweithio mewn Partneriaeth

Gweithio mewn partneriaeth yw conglaen y Cynllun Heddlu a Lleihau Throseddol – "Cydwethredu yw'r brif egwyddor sy'n ein hysbrydoli. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain." Adlewyrchwyd yr egwyddor hon yng nghyllideb y Comisiynydd. Mae cyllid ar gyfer partneriaethau diogelwch cymunedol a thimau troseddwyd ifanc wedi'i gynnal mewn termau arian parod. Partneriaeth rhwng y Comisiynydd a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (Cymru) yw'r gwasanaeth Ymyriadau Troseddwyd. Mae'r prosiect Ymyriadau Cynnar, a ariennir drwy Gronfa Arloesedd yr Heddlu yn bartneriaeth agos ag lechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae gweithio mewn partneriaeth yn her barhaus yn erbyn cefndir o doriadau drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Mae sicrhau bod pob partner yn talu cyfraniad teg er mwyn cynnal mentrau sy'n esgor ar fanteision amlwg yn waith caled ac mae'n rhaid i ni atgoffa partneriaid o hyd mai gwell fyddai crebachu gyda'n gilydd yn hytrach na chrebachu ar wahân. Mae'r Comisiynydd wedi codi'r anhawster hwn gyda Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gynnal mentrau sy'n torri ar draws nifer o gyrff yn y sector cyhoeddus.

Cyd-destun Gweithredol

Heddlu De Cymru yw'r seithfed heddlu prysuraf yng Nghymru a Lloegr ac mae'n cynnwys 64 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ac yn wir Ewrop) gyda'r pwysau ar adnoddau fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl - 42% o boblogaeth Cymru.
- Rheoli tua 49% o gyfanswm y troseddau yng Nghymru
- Yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2016 ymdriniodd yr Heddlu â'r canlynol:
 - 33,917 o Arestiadau,
 - 342,619 o Ddigwyddiadau,

- 181,278 o Alwadau Brys (999)
- 450,188 o Alwadau nad oeddent yn rhai brys (galwadau 101) i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 1,053,095 o Alwadau ar gyfer gwasanaeth yn ystod 2016/17.

• Gwell cywirdeb o ran cofnodi troseddau, lle mae'r bwlch yn y gwahaniaeth rhwng yr hyn y rhoddwyd gwybod amdano, yr hyn a gofnodwyd ac amcangyfrif o droseddau a brofwyd wedi mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn. Dengys y graff canlynol sut mae proffil troseddau wedi newid dros y 40 mlynedd diwethaf.

[page 5]

Mae maint a chymhlethdod y digwyddiadau y mae Heddlu De Cymru yn ymdrin â hwy'n rheolaidd yn ei wneud yn unigryw yng Nghymru. Mae'r ardal blismona yn amrywiol gyda heriau plismona trefol a gwledig, gan gynnwys dwy o ddinasoedd mwyaf Cymru, sef Caerdydd ac Abertawe. Mae Prifddinas Cymru yn achosi rhai heriau plismona ychwanegol nad ydynt yn cael unrhyw gydnabyddiaeth arbennig yn y fformiwla ariannu (ein hasesiad o hyn yw cost heb ei hariannu o £2.6M y flwyddyn o leiaf).

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cael ei gydnabod fel yr heddlu rhanbarthol arweiniol ar Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol ac mae'n cael cyllid penodol, wedi'i neilltuo ar gyfer Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth i Gymru Gyfan, Uned Gudd-wybodaeth Ranbarthol, Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol a, thrwy gyllid cydweithredol, mae wedi sefydlu Gweithlu Rhanbarthol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol â heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

Yng nghyd-destun gofynion plismona lleol a rhanbarthol o'r fath, mae effaith y gostyngiad mwyaf yng nghyllid yr heddlu ers cenhedlaeth yn cynnig her sylweddol a chynyddol i gynnal heddlu effeithiol a gwella perfformiad.

Diogelu'r Bobl sydd Fwyaf Agored i Niwed

Mae diogelu pobl sy'n agored i niwed, ymgysylltu â hwy a'u helpu ar frig agenda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel ei gilydd. Nododd asesiad strategol 2016 o'r heddlu mai diogelu pobl sy'n agored i niwed yn effeithiol yw'r risg fwyaf i'r heddlu o bell ffordd. Mae'r Heddlu yn perfformio'n dda ond y risgiau i'r heddlu sydd â'r sgoriau uchaf yw'r rhai sy'n ymwneud yn bennaf â diogelu'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed a mwyaf diamddiffyn o'n cymunedau, sef wyth o'r deg risg fwyaf a nodwyd o ganlyniad i broses yr Asesiad Thematig o Risgiau Rheoli Risg ym maes Gorfodi'r Gyfraith (MoRiLE).

Ym mis Ebrill 2016 datblygwyd cynnig manwl i gynyddu nifer swyddogion yr heddlu sy'n cefnogi gwaith ar Droseddau Arbenigol ar ôl adolygiad o'r strwythurau sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd. Roedd y cynnig yn cynnwys swyddogion ychwanegol i fynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Amddiffyn Plant/Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol, Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd, Troseddwyr Difrifol a Threisgar, Oedolion sy'n Agored i Niwed a Phobl Ar Goll.

Ategir y rhesymeg dros y buddsoddiad ychwanegol gan y canlynol:

- Cynnydd o 55% mewn achosion o drais gydag anaf o 7,728 o droseddau yn 2011/12 i ragamcan o 11,965 o droseddau yn 2016/17
- Cynnydd o 173% mewn achosion o drais a throseddau rhywiol difrifol o 727 o droseddau yn 2011/12 i ragamcan o 1,988 o droseddau yn 2016/17
- Mae atgyfeiriadau Cam-drin Plant yn Rhywiol at yr Ymchwiliad Annibynnol wedi cynyddu 71% ers y flwyddyn flaenorol, o 7 i 12
- Mae Ymgyrch Hydrant wedi gweld cynnydd o 56% ers y flwyddyn flaenorol, o 16 i 25
- Cynnydd o 40% yn nifer y cyflwyniadau cofnod cudd-wybodaeth o gymharu â'r cyfnodau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr yn 2015 a 2016 ac mae'n parhau i gynyddu.
- Cynnydd o 107% yn nifer yr adroddiadau Pobl Ar Goll o 4,079 yn 2012 i 8,435 yn 2016, felly'r gyfradd ddyddiol gyfartalog bresennol yw 23 o gymharu ag 11 bedair blynedd yn ôl
- O ran twyll, dengys y ffigurau mwyaf cyfredol, dros y cyfnod o 12 mis rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, i gyfanswm gwerth £18.7 miliwn o arian a gollwyd gael ei gofnodi a bod adroddiadau Twyll Gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn dangos cynnydd o 15% ers y flwyddyn flaenorol
- Mae Adroddiadau ar Weithgarwch Amheus yn dangos cynnydd o 14%

[page 6]

- Twf cyson y nifer yr achosion o Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig dros y pum mlynedd, sef 9% y flwyddyn. Mae hyn yn golygu 128 o achosion ychwanegol o Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig yn y 12 mis nesaf a 417 o achosion ychwanegol yn y tair blynedd nesaf, sy'n cyfateb i lwyth achosion wyth swyddog ychwanegol o staff Rheoli Troseddwy'r Rhyw a Throseddwy'r Treisgar (MOSOVO)

Nodwyd bod angen cyfanswm o 147 o rolau ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith hwn, gyda 23% o'r rhain yn staff yr heddlu fel y dangosir isod.

Ffocws Gweithredol	Swyddogion CALI	Y Staff CALI	Cyfanswm CALI	Cyfanswm £'000
Cam-drin Domestig	15		15	743
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	24	10	34	1,574
Troseddau Rhywiol Difrifol	44	9	53	2,486
Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd	14	6	20	932
Rheoli Troseddwy'r Rhyw a Throseddwy'r Treisgar	8		8	283
Oedolion sy'n Agored i Niwed	8	1	9	432

Pobl Ar Goll	8	8		396
Eiriolwyr Plant				500
Cyfanswm	113	34	147	7,346

Mae'r Strategaeth Ariannol yn ystyried yr asesiad o adnoddau ychwanegol gan ei bod yn hollbwysig cael yr adnoddau i ateb yr her tra bod angen arbedion sylweddol a thoriadau mewn mannau eraill hefyd i fantoli'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn. **Mae'n bwysig cydnabod bod 2017/18 ond yn cynnwys £2.5M o'r £7M o'r buddsoddiad sydd ei angen gan fod y rhaglen yn cael ei datblygu dros gyfnod o dair blynedd.**

Mae Heddlu De Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol a chyflym drwy fuddsoddi mewn technoleg i foderneiddio'r heddlu ac mae bellach yn uchel ei barch yn genedlaethol yn enwedig mewn perthynas â rhaglen Fusion a sicrhodd gyllid cychwynnol o'r ddwy ffrwd Arloesedd a Thrawsnewid. Mae'r gwelliannau i wasanaethau yn sylweddol, yn enwedig o ran gweladwyedd a hygyrchedd yr heddlu, ond wrth i'r dechnoleg gael ei hymgorffori o fewn plismona gweithredol, mae cynaliadwyedd ariannol hyn yn her arall gan fod gan y rhaglen adnewyddu asedau bresennol ddiffyg cyllid o £20M hyd at 2021.

Hefyd, ceir newidiadau o ran proffesiynoli'r agenda blismona. Mae fframwaith addysgol newydd yr heddlu yn cyflwyno nifer o gymwysterau wedi'u hachredu ar lefel lawer uwch na'r hyn a welwyd yn hanesyddol. Gan ddechrau gyda chymwysterau safon gradd i gwnstabiliaid newydd hyd at gymwysterau safon meistr i Uwch-arolygwyr. Mae hyn yn gofyn am fwy o fewnbwn gan y sefydliad yn nhermau addysg ac asesu ac, yn anochel, mae iddo oblygiadau ariannol gwerth £27,000 fesul swyddog newydd yn ôl yr amcangyfrif, gan esgor ar oblygiadau cost blynddol o £3.2M pan gaiff ei weithredu'n llawn. Nid oes unrhyw ffrwd ariannu i ddigolledu heddluoedd yng Nghymru am hyn. Yn Lloegr, mae'r cynllun yn gymwys ar gyfer cyllid y cynllun prentisiaeth drwy'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn yr Adran Addysg.

Y Cyd-destun Economaidd Cenedlaethol

Cafodd yr argyfwng economaidd byd-eang ei amlygu mewn diffyg cyllidebol blynyddol o £149B yn y DU ar ddechrau 2010 a ysgogodd Adolygiad 2010 o Wariant Cynhwysfawr i fantoli'r gyllideb erbyn 2015. Cafodd hyn effaith negyddol sylweddol ar y dyraniadau cyllid canolog i heddluoedd ac fel un o'r adrannau nas diogelwyd, arweiniodd at y gostyngiad unigol mwyaf yn y cyllid i heddluoedd gan lywodraeth ganolog ers cenedlaeth.

[page 7]

Y sefyllfa ddiweddaraf, fel y'i cyhoeddwyd gan y Canghellor ar 23 Tachwedd 2016 oedd y bydd y diffyg cyllidebol blynyddol cenedlaethol o fwy na £68 biliwn o hyd ar ôl saith blwyddyn yn olynol o gyni cyllidebol. Yn ôl amcanion presennol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol mae'r diffyg cyllidebol strwythurol cenedlaethol yn annhebygol o gael ei unioni ystod y tymor seneddol hwn.

Gan edrych ymlaen, erys natur fregus y gyllideb genedlaethol yn risg allweddol o hyd. Mae'r posibilrwydd o grebachu o hyd mewn gwariant cyhoeddus hyd at y tymor seneddol nesaf yn un realistig iawn. **Mae'n rhaid rhagweld toriadau mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn o hyd.** At hynny, mae effaith y toriadau cyllidebol uchod a'r gostyngiadau yng nghyllid partneriaid yn y sector cyhoeddus yn y Gwasanaeth Iechyd

Gwladol a Llywodraeth Leol yn ogystal â'r teulu Cyfiawnder Troseddol ehangach yn dwysáu'r pwysau ar adnoddau plismona.

O ystyried record amcanestyniadau economaidd hyd yma mae'n debygol iawn y bydd mesurau cyni cyllidol yn parhau y tu hwnt i 2021. Er bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y Strategaeth Ariannol hon, bydd angen i'r tybiaethau cynllunio adlewyrchu'r crebachu mewn cyllid i'r heddlu gan lywodraeth ganolog a ragwelir yn y tymor hwy.

Y Cyd-destun Economaidd Lleol

Ariennir Heddlu De Cymru drwy gyfuniad o grantiau canolog a phraesept lleol yr heddlu. Mae cyfran y cyllid o braesept yr heddlu yn amrywio ledled Cymru a Lloegr o lai na 14% i fwy na 54% o gyfanswm cyllid yr heddlu. Mae gan Heddlu De Cymru un o'r praeseptau heddlu isaf yng Nghymru ac mae'r cyllid lleol fel cyfran o gyfanswm ei gyllid yn cyfrif am 38%.

Nid yw Heddlu De Cymru yn cael y lefel o gyllid y byddai'n ei chael pe bai'r fformiwla ariannu yn cael ei chymhwyso yn ôl y bwriad. Mae'r cyllid y mae Heddlu De Cymru wedi'i golli drwy'r penderfyniad i beidio â chymhwyso'r fformiwla bellach tua £74M (£8.8M y flwyddyn sy'n cyfateb i 176 o Swyddogion yr Heddlu neu fwy na 300 o swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu).

Mae'r cyhoeddiadau diweddaraf ar gyllid yr heddlu yn nodi toriadau ariannol mewn termau real hyd at y tymor seneddol nesaf, h.y. y tu hwnt i 2021. Mae setliad 2017/18 yn lleihau gallu gwario heddluoedd ymhellach oherwydd realiti cyfuniad o doriadau mewn grantiau, brigdorri, costau Yswiriant Gwladol, y Lefi Prentisiaeth a chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau a chwyddiant prisiau gan arwain at doriad o bron 15% dros gyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant hyd at 2021 heb ystyried goblygiadau methodoleg ddyrannu fformiwla newydd arfaethedig ar gyfer 2018/19.

Gan ddefnyddio asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio bod gostyngiad arall o fwy na 2% y flwyddyn yn y grant yn debygol iawn yn 2018 hyd at 2021, **gan arwain at gyfanswm gostyngiad arian parod mewn cyllid o £55M dros 10 mlynedd.**

[page 8]

Blwyddyn Ariannol	Gostyngiad Gwirioneddol fel Canran	Gostyngiad a Ragwelir fel Canran	Toriadau Arian Parod Gwirioneddol £M	Toriadau Arian Parod a Ragwelir £M
2011/12	-3.8%		-9.4	
2012/13	-5.5%		-12.2	
2013/14	-1.9%		-2.8	
2014/15	-4.8%		-8.5	
2015/16	-5.1%		-8.6	
2016/17	-0.6%		-0.92	
2017/18	-1.4%		-2.2	
2018/19		-1.8%		-2.8
2019/20		-2.2%		-3.4

2020/21		-2.6%		-4.0
Cyfanswm	-23.1%	-6.6%	-44.62	-10.2
Prif Gyfanswm		-29.7%		-54.82

Mae'n dilyn ei bod yn hollbwysig bod penderfyniadau lleol ynglŷn â chyllid yn seiliedig ar yr arian sydd ei angen i sicrhau y gellir cynnal heddlu effeithiol a chynaliadwy dros y tymor canolig.

Yr unig ddull ariannu i bob diben yn lleol yw Praesept yr Heddlu. Mae'n bwysig nodi, wrth i'r cyllid ostwng (£2.2M arall yn 2017/18), bod chwyddiant wedi cynyddu, sy'n ychwanegu at y pwysau tuag i fyny ar ofynion gwariant y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

- Chwyddiant prisiau cyffredinol a dyfarniadau cyflog £2.2M
- Cynnydd yng nghyfraniad y cyflogwr at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £2M
- Lefi prentisiaeth newydd o £1M
- Cam 1 buddsoddiad Bwlch Agored i Niwed £2.5M

Mae'r cyfuniad o chwyddiant, pwysau costau ychwanegol na ellir eu hosgoi a buddsoddiad hanfodol yn y Bwlch Agored i Niwed yn cynyddu'r bwlch ariannu £10M i roi bwlch ariannu cronol o £78M hyd at 2017/18 cyn arbedion a'r praesept, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i £104M erbyn 2021 a dangosir hyn isod.

Gofyniad Sylfaenol
Arian Grant
Arian Grant a'r Praesept

Bwlch £78M
Gwerth am Arian £48M
PRAESEPT £30M

Bwlch £104M
Gwerth am Arian £57M
Praesept £47M

[page 9]

Gwerth am Arian ("toriadau") a Rheoli Ariannol

Mae Heddlu De Cymru eisoes wedi sicrhau arbedion arian parod gwerth £45M ac er y bydd arbedion eraill yn gynyddol anos mae Cynllun Gwerth am Arian 2017/18 wedi nodi £3.1M arall i'w sicrhau yn ystod y flwyddyn ariannol, gan wneud cyfanswm o £48M o arbedion arian parod a sicrhawyd ac sy'n angenrheidiol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno ar y Genhadaeth (Cadw De Cymru yn Ddiogel) a'r Weledigaeth (bod y gorau ar ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau) ac mae'r Comisiynydd wedi sefydlu proses lywodraethu effeithiol i sicrhau gwelliannau parhaus o ran darparu gwasanaethau a rheoli ariannol cadarn.

Caiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu hasesu'n annibynnol ar sicrhau gwerth am arian gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ddau gorff wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol ynglŷn â rheoli ariannol a gwerth am arian, gan gynnwys gwelliannau o ran cyflawni gweithredol.

Mae'r rhaglen newid a roddwyd ar waith gan y Prif Gwnstabl wedi bod yn hanfodol o ran rhyddhau arbedion arian parod gwerth £44M hyd at 2017 tra'n gwella perfformiad gweithredol ar yr un pryd, gyda chyflawniadau nodedig fel a ganlyn:

- Mae boddhad dioddefwyr wedi symud yn gyson o fod yn heddlu â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru a Lloegr yn 2007 i fod ymhlith y pump gorau o ran perfformiad yng Nghymru a Lloegr.
- Wedi buddsoddi mewn technoleg symudol, gan drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio **a'r heddlu gorau yn y wlad am weladwyedd plismona (adroddiad gan y Swyddfa Gartref)**
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Trais gydag Anaf.**
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Bwrglera Domestig.**
- **Y pedwerydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Troseddau Rhyw.**
- **Y trydydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Lladrata**
- **Y pedwerydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau a waethygir yn hiliol ac yn grefyddol**
- Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi lleihau dros 60,000 y flwyddyn
- Cyfraddau canfod ar eu lefel uchaf erioed, yn enwedig bwrgleriaeth a thrais corfforol
- Hyder y cyhoedd wedi gwella 50%
- Gwelliannau ardderchog i gau bwlch Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o ran boddhad dioddefwyr
- Fflyd fodern o gerbydau a gweithdy newydd sy'n addas at y diben
- Cyfleusterau dalfeydd sydd wedi'u moderneiddio ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth
- Model cyson, wedi'i ddiogelu o blismona cymdogaeth. (Mae ACEM yn pryderu bod llawer o heddluoedd wedi cwtogi ar blismona cymdogaeth.)
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ddisglair a rennir â dau awdurdod tân a Desg Gwasanaeth Ambiwlans Cymru Glinigol.

- Asedau wedi'u Cynnal i gefnogi'r Gofyniad Plismona Strategol Cenedlaethol i'r DU gyfan.

[page 10]

Rheoli Risg a Seilwaith

Y prif risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy ar unwaith yw cau'r "bwlch agored i niwed" ac adeiladu seilwaith cynaliadwy (technoleg ac ystad). Er bod y gofynion hyn wedi'u hadlewyrchu yn y strategaeth, byddai'r lefelau ariannu presennol yn atal y gofynion hyn rhag cael eu gwireddu gyda bwlch o £7M heb ei ariannu ar y cyfrif Refeniw a rhaglen a blwch o £20M ar y rhaglen gyfalaf. Mae strategaethau risg blaenorol wedi ceisio goddef y risgiau a dileu'r angen am eu hariannu ond, o ystyried y lefel a nodwyd, sef Bygythiad a Niwed, gofynnir am ganlyniad gwahanol.

Gofynion Statudol

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Deddf yr Heddlu 1996 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd bennu cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a hysbysu'r awdurdodau bilio am swm y praesept i'w gasglu erbyn 1 Mawrth fan bellaf.

Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y canlynol yn ddigonol:

1. Polisi'r llywodraeth ynglŷn â gwariant yr heddlu, a'i oblygiad i Heddlu De Cymru
2. Goblygiadau'r Gyllideb a'r Rhaglen Gyfalaf yn y tymor canolig
3. Cod Darbodus CIPFA
4. Maint a digonolrwydd balansau cyffredinol a balansau a glustnodwyd yn benodol a fu'n destun asesiad risg, yn erbyn cefndir o ostyngiadau parhaus yng nghyllid yr heddlu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.
5. A yw'r cynigion yn rhoi cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn
6. Yr effaith ar y Dreth Gyngor
7. Bygythiad neu risg capio
8. Y pwysau sylfaenol ar gyfer datblygiadau seilwaith a gwasanaethau a'r risg gysylltiedig i berfformiad.

Mae'n rhaid i'r Strategaeth Ariannol hon roi'r lefel angenrheidiol o wybodaeth ategol er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r cyfrifoldeb hwn gael ei gyflawni'n effeithiol.

Ystyriaethau'r Praesept

Mae'r cyd-destun economaidd a gweithredol a'r risgiau sy'n wynebu Heddlu De Cymru yn gofyn am ystyriaeth ofalus o lefel praesept yr heddlu er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal heddlu effeithiol yn y tymor canolog.

Nid yw'r Comisiynydd yn cael fawr ddim dylanwad ar lefel y grantiau canolog y mae'n eu derbyn ond mae'r penderfyniad ar lefel praesept yr heddlu yn cael ei wneud gan Banel yr Heddlu a Throseddau a'r Comisiynydd ar ôl ymgynghori â'r Prif Gwnstabl a phobl De Cymru mewn perthynas â'r blaenoriaethau plismona.

Mae'r Comisiynydd wedi ystyried Cynigion cynnydd o 4%, 5% a 6% ym Mhraesept yr Heddlu a'r goblygiadau canlyniadol, a grynhoir isod:

[page 11]

Cynnydd o 4% ym Mhraesept yr Heddlu

Mae'r un lefel o gynnydd yn y praesept â'r llynedd yn methu â dechrau hyd yn oed mynd i'r afael â'r bwlch agored i niwed. Yn ystod 2016/17 rydym wedi ceisio cyflymu'r broses o recriwtio adnoddau ychwanegol drwy gyllid anghylchol, yn enwedig 31 o swyddi staff yr heddlu ym maes Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Troseddau Rhywiol Difrifol, Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd, Rheoli Troseddwy'r Rhyw a Threisgar yn ogystal ag oedolion sy'n agored i niwed.

Byddai cynnydd o 4% yn y praesept yn golygu y byddai angen defnyddio adnoddau plismona lleol i lenwi'r bwlch agored i niwed a bod hynny'n rhywbeth yr hoffem ei osgoi. Heddlu De Cymru oedd â'r lefel uchaf o weladwyedd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr y llynedd a dyna beth mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Mae angen i ni ddiogelu'r adnoddau hynny.

Mae cynnydd o 4% ym mhraesept yr heddlu hefyd yn methu â chyflawni'r amcan hirdymor bod cyllid lleol Heddlu De Cymru yn cyrraedd lefel ganolrifol heddluoedd yng Nghymru. Mae De Cymru wedi bod islaw'r canolrif ers dros ddegawd gan golli £178M o gyllid (fel y dangosir isod). Bu hyn yn achos allweddol buddsoddi gwael a chyflwr ystad yr heddlu a'r seilwaith ar gyfer technoleg a chludiant.

Mae cynnydd o 4% ym mhraesept yr heddlu yn arwain at fwllch cyllidebol o £5M ar gyfer 2017/18 gyda bwlch ariannu ffactorau agored i niwed o £6M heb ei ariannu ac felly fe'i gwrthodir fel cynnig ariannu cadarn.

Cynnydd o 5% ym Mhraesept yr Heddlu

Mae'r lefel hon o ariannu yn unioni'r buddsoddiad anghylchol presennol yn y bwlch agored i niwed ond mae'n golygu o hyd y bydd yn rhaid gohirio buddsoddiad angenrheidiol sylweddol o £5M tan flynyddoedd canlynol. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o hyn a bydd angen i'r Panel ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar y praesept yn y dyfodol.

Dylai'r Panel nodi bod cynnydd o 5% ym mhraesept yr Heddlu yn arwain at dreth gyngor o £218.24 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £105,382,518 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 13. Ar y sail hon y Gofyniad Cyllideb Refeniw Net canlyniadol ar gyfer

2017/18 fyddai £262,789,079 ac mae'r swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

[page 12]

Mae'r dadansoddiad o Eiddo Treth Gyngor yn dangos bod 65% o'r trigolion yn Ardal Heddlu De Cymru islaw Band D ac y byddai'r rhan fwyaf yn talu rhwng 13c a 18c yr wythnos yn ychwanegol os nad ydynt yn cael unrhyw ddisgowntiau gan y Cyngor na budd-daliadau. Mae'r cynnydd hwn yn helpu i ddechrau mynd i'r afael â'r bwlch agored i niwed ac yn dechrau lliniaru'r cyhoeddiadau diweddaraf ynglŷn â thoriadau pellach a ragwelir yn y cyllid fel y'i nodir gan y Canghellor a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Cynnydd o 6% ym Mhraesept yr Heddlu

Fel arall, efallai y bydd y Panel yn dymuno ystyried cynyddu praesept yr Heddlu 1% arall (£2.08) er mwyn cyflymu'r buddsoddiad i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Byddai hyn yn arwain at dreth gyngor o £220.32 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £106,386,154 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 14. Y Gofyniad Cyllideb Refeniw Net fyddai £263,792,715 ac mae'r swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

Felly, yr opsiwn a argymhellir yw cynnydd o 5% ym Mhraesept yr Heddlu sy'n cadw'n ffyddlon at y strategaeth tymor canolig y cytunwyd arni ynglŷn â'r praesept ac sy'n sicrhau y gallwn fynd i'r afael â'r prif risgiau a wynebwr gan bobl sy'n agored i niwed a'r seilwaith hanfodol.

Mae'n bwysig nodi mai cost plismona Heddlu De Cymru i dalwyr y dreth gyngor fydd yr isaf o hyd yng Nghymru.

Mae penderfyniad y Panel a'r Comisiynydd yn destun dyfarniad capio canlyniadol os bydd Llywodraeth Cymru yn tybio ei fod yn ormodol.

[page 13]

CYFARFOD PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU 30 Ionawr 2017

PWNC	STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017 I 2021
ADRODDIAD GAN	GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU
SWYDDOGION CYSWLLT	GEOFF PETTY, TRYSORYDD FFÔN: (01656 869366) UMAR HUSSAIN , PRIF SWYDDOG ARIANNOL Y PRIF GWNSTABL FFÔN: (01656 869204) GWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CYLLID CYNORTHWYOL FFÔN: (01656 869204)
CRYNODEB A DIBEN YR ADRODDIAD Nodi goblygiadau Ariannol Tymor Canolig y Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu a setliad y llywodraeth ar gyfer cyllid yr heddlu mewn perthynas â'r Cyfrif Refeniw a'r Cyfrif	

Cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2017 i 2021. Er mwyn hwyluso'r broses o benderfynu ar gyllideb wedi'i mantoli a phraesept canlyniadol yr heddlu ar y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18

CYNNIG

Bod Panel yr Heddlu a Throseddu yn ystyried yr adroddiad hwn ac yn cefnogi cynnig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynglŷn â'r praesept mewn perthynas â 2017/18 sy'n unol â'r briffiadau blaenorol i Banel yr Heddlu a Throseddu ac sydd hefyd yn gyson â'r amcanestyniadau ariannol tymor canolig.

[page 14]

CYFLWYNIAD

1.1 O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ar 22 Tachwedd 2012 sefydlwyd dwy Gorfforaeth Undyn i Dde Cymru, sef Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl De Cymru sydd â chyfrifoldebau plismona cyflenwol a chyfrifoldeb a rennir am waith cynllunio ariannol a chyllidebol effeithiol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

1.2 Mae dyletswydd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i sicrhau Gwerth am Arian a archwilir yn annibynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM). Nodir canfyddiadau cadarnhaol y cyrff annibynnol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, baratoi'r canlynol:

- Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddatblygwyd ganddo ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ac ar ôl ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo a rhoi sylw i ofynion y Gofyniad Plismona Strategol.
- Strategaeth Rheoli Risg
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (Strategaeth Ariannol)
- Strategaeth Rheoli Trysorlys Heddlu De Cymru
- Strategaeth Rheoli Asedau
- Rhaglen Gyfalaf
- Cyllideb Refeniw Flynyddol a Gwerth am Arian

1.3 Mae'n rhaid i'r Comisiynydd hefyd gynnig lefel y praesept ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yna caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu gan Banel Heddlu a Throseddu De Cymru.

1.4 Felly mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion allweddol i'w hystyried wrth bennu cyllideb ar lefel briodol a'r praesept canlyniadol sydd ei angen i ddarparu heddlu effeithlon

ac effeithiol i'r cyhoedd ledled De Cymru. Dyma'r cyfrifoldeb allweddol ar osodir ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y ddeddfwriaeth.

Mae'r Comisiynydd yn bersonol gyfrifol am lefel arfaethedig y praesept, ond mae wedi cyflwyno ei gynigion mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, ei Brif Swyddog Ariannol a'r Trysorydd. Mae ei benderfyniad yn seiliedig ar ei asesiad o'r hyn sy'n ofynnol i blismona De Cymru yn effeithiol ac ystyriaeth ofalus o'r cyngor proffesiynol a roddwyd iddo ynglŷn â phlisma a rheoli ariannol.

1.5 Wrth ddatblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hon mae'r **Egwyddorion Craidd** canlynol wedi'u mabwysiadu

1. Bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gyson â Gweledigaeth Heddlu De Cymru, sef **Bod y gorau ar ddeall ac ymateb i'n cymunedau.** Bydd yn cefnogi Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu'r Comisiynydd yn ogystal â Chynllun Cyflawni Gweithredol y Prif Gwnstabl.

2. Byddwn yn lleihau amwysedd ac ansicrwydd ynglŷn â phenderfyniadau ariannu lleol dros y cylch cynllunio tymor canolig i'r eithaf drwy bennu meincnod ar gyfer praesept Heddlu De Cymru, sef ei fod yn **cyrraedd lefel ac yn parhau â lefel sy'n golygu nad y praesept uchaf na'r praesept isaf ydyw ond ei fod yn cyrraedd ffigur cyfartalog y tri heddlu arall yng Nghymru.** Yn amlwg, os bydd penderfyniadau ariannu llywodraeth ganolog ar gyfer Heddlu De Cymru yn newid yn sylweddol yna bydd angen adolygu hyn, ond yn seiliedig ar y lefelau ariannu presennol gan lywodraeth ganolog, mae hyn yn cynnig tybiaeth gynllunio resymol.

[page 15]

Gan ddefnyddio modelu praesept syml yn seiliedig ar dueddiadau praesept yr heddlu o tua 4% yn y tri heddlu arall yng Nghymru, byddai'n cymryd chwe blynedd ar lefel o 5% y flwyddyn i gyrraedd y pwynt canolrifol a byddai £33M o refeniw praesept yn cael ei golli dros y cyfnod hwnnw.

3. Mae Heddlu De Cymru wedi wynebu toriad o £45M yn ei gyllid ers lefel sylfaen 2010 o £202M ac wedi sicrhau £44M o arbedion arian parod dros yr un cyfnod. Mae'r cyhoeddiadau gan y Trysorlys a'r Swyddfa Gartref yn awgrymu setliad arian parod gwastad o gymharu â 2015/16 gan dybio cynnydd o 2% yn y praesept ac addasiadau ar gyfer newidiadau yn y sylfaen dreth. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfyngiadau'r dybiaeth honno ac yn dangos y gwir ofyniad ariannu i sicrhau heddlu cynaliadwy.

Mae'n amlwg, er mwyn aros o fewn y cyfyngiadau ariannu a osodwyd, y bydd yn rhaid i Heddlu De Cymru ymdopi â gostyngiadau parhaus mewn termau real yn ei gyllid gan y llywodraeth drwy gydol y cyfnod cynllunio tymor canolig. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu ymdrechion i sicrhau diwylliant o welliant parhaus gydag arweinyddiaeth sy'n cynnig y bobl gywir a'r sgiliau a'r adnoddau cywir yn y man cywir ac ar yr adeg gywir, erbyn 2021. Mae rhagolwg diweddaraf y Trysorlys yn awgrymu na fydd unrhyw dwf yng nghyllid gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor seneddol presennol na'r un ddilynol, sef 2025.

Er bod y lefelau cyffredinol ar gyfer plismona yn cael eu cynnal ar lefelau arian parod 2015/16 nid yw hynny'n wir am yr arian grant i heddluoedd, gan gynnwys Heddlu De

Cymru. Mae lefel y grant wedi'i gostwng drwy frigidorri ac mae'n ddigon posibl y bydd yn rhaid i ni ymdopi â heriau eraill o ganlyniad i newidiadau yn Fformiwla Grant yr Heddlu y disgwylir iddi gael ei phennu'n derfynol cyn hir.

4. O ystyried y cyflogir 2,800 o swyddogion yr heddlu ar hyn o bryd o gymharu â 3,400 ychydig flynyddoedd yn ôl, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn awyddus i symud yn agosach at 3,000 o swyddogion yr heddlu (er mwyn gwneud rhywfaint i ymateb i rai o'r bygythiadau gweithredol newydd a chynyddol) dros y tymor canolig, tra'n hyrwyddo enillion cynhyrchiant i gysoni adnoddau â'r Galw a Risg yn well er mwyn cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

5. Wrth baratoi'r gyllideb, rhoddwyd ystyriaeth benodol i gost cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan gynnwys

- Gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tra'n ymdopi ag amrywiaeth eang o ofynion sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn "blismona" fel arfer.

- Cynnal y lefel bresennol o blismona cymdogaeth ac ymgysylltu â chymunedau De Cymru

[page 16]

- Diogelu pobl sy'n agored i niwed a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu mynych mewn perthynas â throseddau megis troseddau casineb, trais yn erbyn menywod a merched, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin domestig a throseddau ar-lein

- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r System Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli troseddwy'r a lleihau aildroseddu ymhlith pobl ifanc a phobl yn y grŵp 18 i 25 oed.

- Cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol a diogelu'r cyhoedd yn Ne Cymru, gan ymateb yn realistig i'r bygythiadau oddi wrth droseddau cyfunol a therfysgaeth a nodir a phlismona nifer gynyddol o ddigwyddiadau, gan gynnwys Rownd Derfynol Cwpan Cynghrair Pencampwyr UEFA yn ystod 2017.

- Ymateb i her safonau sy'n newid ar gyfer hyfforddiant swyddogion yr heddlu, a gynigiwyd gan y Coleg Plismona tra hefyd yn ceisio datblygu ein staff ar bob lefel i ymateb i'r heriau a wynebant.

6. Bydd y Strategaeth yn ceisio cynnal momentwm cydweithredol er mwyn sicrhau arbedion eraill i Heddlu De Cymru a'i bartneriaid.

7. Bydd y Strategaeth yn ceisio sicrhau seilwaith cynaliadwy, yn enwedig ystadau, cludiant a llwyfan technoleg er mwyn sicrhau enillion cynhyrchiant hirdymor. Mae strategaethau manwl, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau, yn sicrhau y caiff adnoddau eu darparu a'u defnyddio'n effeithiol.

8. Bydd y Strategaeth Ariannol yn sicrhau (o leiaf) bod cyllid buddsoddi digonol i ddarparu sylfaen eiddo diogel sy'n cydymffurfio â gofynion lechyd a Diogelwch a gofynion deddfwriaethol eraill er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol.

9. Mae'r Strategaeth yn ceisio cynnal pŵer prynu cyllidebau sylfaenol, yn enwedig ar gostau sefydlog neu gostau na ellir eu hosgoi (e.e. goramser, lwfansau, cyfleustodau, trwyddedau, contractau) er mwyn sicrhau bod cynlluniau ariannol yn realistig ac yn gyflawnadwy.

10. Y nod yw sicrhau bod cywirdeb rhwng y gyllideb a'r alldro gwirioneddol dros 99.5%.

11. Bwriedir sicrhau bod lefelau benthyca yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy dros dymor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

[page 17]

2.0 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

2.1 O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ynghyd â Gorchymyn Protocol Plismona 2011 a'r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol (fel y'i diwygiwyd yn 2013) nodwyd y trefniant llywodraethu diwygiedig ar gyfer plismona a ddaeth i rym o 22 Tachwedd 2012. O dan y Ddeddf sefydlwyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn Gorfforaethau Undyn.

2.2 Sefydlwyd Panel yr Heddlu a Throseddu i graffu ar weithredoedd a phenderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros yr ardal. Mae **Atodiad 1** yn rhoi trosolwg o'r prif drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith yn Ne Cymru.

2.3 Gwnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM), Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol oll, yn y gorffennol, adolygu'n annibynnol agweddau ar Heddlu De Cymru a chyflwynwyd adroddiadau gwrthrychol ar eu canfyddiadau.

2.4 Crynhoir canfyddiadau allweddol yr asesiad o Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd Dilysrwydd yr Heddlu (PEEL) (**Atodiad 2**) isod:

daeth asesiad PEEL cyfredol Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi i'r casgliad canlynol:

Mae ACEM yn barnu bod Heddlu De Cymru yn 'dda'. Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth helaeth o'r galw presennol am ei wasanaethau a'r galw a ragwelir. Mae'r heddlu yn cydnabod bod cynnal y model gweithredol presennol gyda 2,800 o swyddogion yr heddlu yn achosi risgiau ariannol os na chaiff arbedion disgwylidig eu gwireddu, ond mae wedi ymgymryd â gwaith cynllunio senarios ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Mae trefniadau Heddlu De Cymru ar gyfer cyfateb adnoddau i'r galw yn drawiadol ac mae'r heddlu wedi gwneud cryn fuddsoddiad i asesu'r gofynion sydd arno. Mae hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau costau tra'n gwella'r gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd, fel y dengys ei ganlyniadau ardderchog o ran boddhad dioddefwyr.

Mae model gweithredol presennol yr heddlu, a roddwyd ar waith yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Mae buddsoddiadau mewn technoleg newydd wedi'i alluogi i leihau nifer yr unedau rheoli sylfaenol o chwech i bedair, a thimau cymdogaeth o 30 i 19. Mae'r arbedion

effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau nifer swyddogion yr heddlu o 3,100 i 2,800. Cyflawnwyd hyn yn erbyn arbedion o £33M, neu tua 11 y cant o gyllideb refeniw gros flynyddol 2010/11 yn y pedair blynedd hyd at 2014/15.

Mae gan yr heddlu record dda o ran rheoli ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r galw ariannol sydd arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r heddlu wedi pennu cyllidebau wedi'u mantoli ac wedi cyflawni ei darged ar gyfer arbedion ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2014/15. Mae wedi mantoli'r gyllideb ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar dybiaethau darbodus nad ydynt yn dibynnu ar leihau ei gronfeydd wrth gefn. Mae arbedion eisoes wedi'u gwireddu ac mae cynlluniau ar gyfer sicrhau gweddill yr arbedion hyn yn ddatblygedig iawn.

Mae Heddlu De Cymru yn mynd ati i fanteisio ar bob cyfle ar gyfer cyllid ariannol, ac wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran hynny. Er enghraifft, ar gyfer y blynyddoedd 2014/15 a 2015/16 mae'r heddlu wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus gwerth bron £5M i Gronfa Arloesedd yr Heddlu.

[page 18]

O ran ein gweledigaeth ar gyfer plismona, **'bod y gorau am ddeall ac ymateb i'n cymunedau'**, mae ATEM wedi rhoi gradd 'eithriadol' i Heddlu De Cymru am y ffordd rydym yn deall ein cymunedau.

Dengys ein cyfraddau canlyniadau troseddau cyffredinol fod Heddlu De Cymru yn perfformio'n well mewn llawer o gategorïau o gymharu â'r 'grŵp mwyaf tebyg' o heddluoedd.

Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y canfyddiadau ynglŷn â'r ddealltwriaeth o'r galw a dyrannu a defnyddio adnoddau.

2.5 Dangosir Llythyr Archwilio Blynyddol Cymru yn **Atodiad 3** a chrynhwir canfyddiadau allweddol y llythyr isod.

Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar:

- ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaethpwyd ar systemau rheoli mewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau'r gwaith a wnaethpwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM), ble roedd yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau i; ac

- unrhyw waith arall, yn cynnwys o Archwiliadau Mewnol, yr oeddwn yn credu oedd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau.

2.6 Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn wedi sefydlu Cyd-bwyllgor Archwilio i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a chyflwynodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ei ganfyddiadau ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn:

- Mae'r Pwyllgor wedi cael Adroddiadau, Argymhellion ac Arsylwadau gan TIAA, yr Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilwyr Allanol, Asesiadau ac Adolygiadau PEEL Arolygiaeth Cwnstablfaeth EM a chyflwyniadau gan swyddogion o'r ddwy gorfforaeth undyn er mwyn llunio barn annibynnol a rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl o ran y rheolaethau ariannol a llywodraethu o fewn y Corfforaethau Undyn.
- Ar ôl cael yr adroddiadau hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon nad oes unrhyw bryderon mawr sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y naill gorfforaeth undyn a'r llall, bod y dulliau rheolaeth yn ddigonol, bod y fframwaith llywodraethu yn gadarn a bod y fframwaith rheoli risg presennol yn adlewyrchu'r risgiau priodol, a bod rheolaethau rheoli a chatau lliniaru priodol ar waith.

2.7 Mae'r gwaith craffu allanol annibynnol uchod yn cadarnhau bod trefniadau llywodraethu datblygedig iawn ar waith i roi gwasanaeth plismona effeithiol i'r cyhoedd yn Ne Cymru yn ogystal â sicrhau Gwerth am Arian yn y defnydd o adnoddau cyhoeddus.

[page 19]

3.0 Y CYD-DESTUN STRATEGOL – YSTYRIAETHAU'R CYNLLUN PLISMONA

CYNLLUN HEDDLU A LLEIHOU TROSEDDAU 2017-2021

3.1 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gyfrifoldeb cyfreithiol i bennu'r blaenoriaethau plismona ar gyfer De Cymru drwy Gynllun yr Heddlu a Lleihau Troseddau. Yn Ne Cymru, gwneir hyn mewn partneriaeth â'r Prif Gwnstabl, yn seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion sefydliadol a rennir ac mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartneriaid. Mae Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddau 2017-2021 ar ei ffurf ddiwygiedig (a ystyriwyd gan Banel yr Heddlu a Throseddau yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2016) yn parhau i fod yn gyson â Gweledigaeth Heddlu De Cymru, sef: ***“Bod y gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau”***.

Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyfnod y Comisiynydd yn ei swydd gyda model cyffredinol o ymyriadau cynnar drwy gamau gweithredu prydlon a chadarnhaol. Mae'r chwe blaenoriaeth ganlynol yn cynnwys cymysgedd o fentrau uniongyrchol a phrosiectau ymchwil a fydd yn helpu i lywio mentrau yn y dyfodol. Byddwn yn:

1. Lleihau ac yn atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau;
2. Gwellu'r ffordd rydym yn cysylltu â'n cymunedau, yn eu cynnwys ac yn eu hysbysu;

3. Gweithio i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau;
4. Sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol leol yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddiwallu anghenion dioddefwyr a herio troseddwyr;
5. Cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol a phlismona digwyddiadau mawr yn llwyddiannus.
6. Gwario eich arian yn ddoeth er mwyn diogelu plismona yn eich cymuned

3.2 Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u hategu gan ethos y Comisiynydd, sef;
“cydweithredu yw'r brif egwyddor sy'n ein hysbrydoli. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain.”

Mae effeithiolrwydd ein hymdrech mewn cydweithio â'n partneriaid wedi'i adlewyrchu yn ein gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi adeiladu ar lwyddiant yr uwchgynhadledd ar Ymyriadau Cynnar a gynhaliwyd ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn Ystafell y Mileniwm yn Stadiwm y Principality ar 22 Ionawr 2016. Rydym wedi cyflwyno cais llwyddiannus i Gronfa Arloesedd yr Heddlu i gyflwyno dull gweithredu yn seiliedig ar Ymyriadau Cynnar mewn rhan o Dde Cymru. Bu ein partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn allweddol i lwyddiant ein cais. Ym mis Ebrill 2016, lansiwyd y gwasanaeth Ymyriadau Troseddwyr newydd. Mae hon yn bartneriaeth rhwng y Comisiynydd, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a'r Gwasanaeth Carchardai ac mae'n cynnig nifer o lwybrau dargyfeirio i droseddwyr. Rydym yn parhau â'n partneriaeth lwyddiannus ag Iechyd a Llywodraeth Leol. Rydym yn anelu at fabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gam cynnar gydag aelodaeth weithredol lawn o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.3 Mae'r Strategaeth Ariannol yn helpu i gyflawni'r Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu drwy nodi sut y caiff yr adnoddau angenrheidiol eu darparu a'u dyrannu. Yn hollbwysig, mae hefyd yn nodi sut y bydd y Comisiynydd yn pennu cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ynghyd â Chynllun Gwerth am Arian er mwyn parhau i bennu cyllidebau wedi'u mantoli yn ystod y tymor canolig. Mae'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2017/18, sef £262.7M, yn adlewyrchu penderfyniadau gwerth £4.9M gan y Comisiynydd gyda'r gweddill, £254.5M, i'w wario ar weithgareddau gan y Prif Gwnstabl.

[page 20]

3.4 Mae'r Strategaeth Ariannol yn cynnwys cynnig praesept y Comisiynydd ar gyfer 2017/18 ac yn amlinellu amcanestyniadau o'r praesept hyd at 2020/21. Mae'n rhaid i Banel yr Heddlu a Throseddu adolygu praesept arfaethedig y Comisiynydd a chyflwyno adroddiad arno. Mae gan y Panel y pŵer i wrthod y praesept. Os digwydd hynny, bydd angen i'r Comisiynydd gyflwyno cynnig amgen.

3.5 Mae'r gyllideb gyffredinol a'r cynlluniau ariannol wedi cael eu datblygu ar y cyd â'r Prif Gwnstabl a'i staff. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu proses lywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau y caiff y Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu ei gyflawni ac er mwyn datblygu proses rheoli risg effeithiol i fynd i'r afael â bygythiadau newydd i'w gyflawni.

4.0 Y CYD-DESTUN STRATEGOL – YSTYRIAETHAU CYFLAWNI GWEITHREDOL

4.1 Heddlu De Cymru yw'r seithfed heddlu prysuraf yng Nghymru a Lloegr ac mae'n cynnwys 64 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ac yn wir Ewrop) gyda'r pwysau ar adnoddau fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl – 42% o boblogaeth Cymru dros 803 milltir sgwâr.
- Rheoli tua 49% o gyfanswm y troseddau yng Nghymru
- Yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2016 ymdriniodd yr Heddlu â'r canlynol:
 - o 33,917 o Arestiadau,
 - o 342,619 o Ddigwyddiadau,
 - o 181,278 o Alwadau Brys (999) a
 - o 450,188 o Alwadau nad oeddent yn rhai brys (galwadau 101) i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.
 - o 1,053,095 o Alwadau ar gyfer gwasanaeth yn ystod 2016/17.
- Gwell cywirdeb o ran cofnodi troseddau, lle mae'r bwlch yn y gwahaniaeth rhwng yr hyn y rhoddwyd gwybod amdano, yr hyn a gofnodwyd ac amcangyfrif o droseddau a brofwyd wedi mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn.

Dengys y graff canlynol sut mae proffil troseddau wedi newid dros y 40 mlynedd ddiwethaf.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys **64 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru**. Mae'r ardal blismona yn amrywiol gyda heriau plismona trefol a gwledig, gan gynnwys dwy o ddinasoedd mwyaf Cymru, sef Caerdydd ac Abertawe. Mae Prifddinas Cymru yn achosi rhai heriau plismona ychwanegol nad ydynt yn cael unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl yn y fformiwla ariannu (ein hasesiad o hyn yw cost heb ei hariannu o £2.6M y flwyddyn o leiaf).

Mae maint a chymhlethdod y digwyddiadau y mae Heddlu De Cymru yn ymdrin â hwy'n rheolaidd a'r materion ychwanegol sy'n rhan o blismona Prifddinas yn ei wneud yn unigryw yng Nghymru ac yn fwy cyffredinol.

Heddlu De Cymru yw'r heddlu strategol yng Nghymru sy'n darparu nid yn unig gwasanaeth lleol ond sydd hefyd yn rhoi cymorth am ddigwyddiadau cenedlaethol mawr y tu allan i ardal yr Heddlu. Mae'r Heddlu yn plismona tua 600 o ddigwyddiadau bob blwyddyn sy'n gofyn am wahanol lefelau o ymyrraeth gan yr heddlu o ran cynllunio ac adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys plismona gemau pêl-droed Uwchgynghrair Lloegr a gemau pêl-droed Ewropeaidd a rhyngwladol, gemau criced a rygbi rhyngwladol a digwyddiadau chwaraeon eraill, cyngherddau, ymweliadau brenhinol, digwyddiadau

Milwrol Cyhoeddus, gwrthdystiadau a gorymdeithiau protest a phlismona dyddiadau allweddol ar gyfer yr economi liw nos yng Nghaerdydd ac Abertawe.

Yn ystod 2016 cefnogodd yr heddlu ddigwyddiadau chwaraeon mawr gan gynnwys pencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad, gemau criced undydd rhyngwladol, parthau'r Bencampwriaeth Ewropeaidd i gefnogwyr a'r digwyddiad croeso'n ôl i Dîm Cymru, Hanner Marathon y Byd, ymweliadau Brenhinol a Dathliadau Canmlwyddiant Roald Dahl. Ym mis Mai 2017 bydd Caerdydd yn cynnal wythnos o ddigwyddiadau cyn Rownd Derfynol Cyngrhair Pencampwyr UEFA.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cael ei gydnabod fel yr heddlu rhanbarthol arweiniol ar Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol ac mae'n cael cyllid penodol, wedi'i neilltuo ar gyfer Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth i Gymru Gyfan, Uned Gudd-wybodaeth Ranbarthol, Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol a, thrwy gyllid cydweithredol, mae wedi sefydlu Gweithlu Rhanbarthol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol â heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

4.2 Gwelliannau ansawdd yng ngwasanaeth plismona De Cymru

Drwy gydol y saith blwyddyn olynol ddiwethaf o doriadau, mae Heddlu De Cymru wedi diogelu cymdogaethau a chymunedau ac wedi cynnal presenoldeb ynddynt. Rydym wedi osgoi edrych ar yr ochr dywyll ac wedi canolbwyntio ar fod **y gorau am ddeall ac ymateb i'n cymunedau** mewn **modd proffesiynol, cadarnhaol a balch**.

Er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwyd gennym, rydym wedi cyflawni rhai gwelliannau sylweddol o ran perfformiad ac rydym bellach yn cael ein cydnabod yn un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhestr hir, ond mae rhai o'r gwelliannau a gyflawnwyd er gwaethaf yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'r heriau cyni cyllidol cysylltiedig yn cynnwys y canlynol:

- Mae boddhad dioddefwyr wedi symud yn gyson o fod yn heddlu â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru a Lloegr yn 2007 i fod ymhlith y pump gorau o ran perfformiad yng Nghymru a Lloegr.
- Wedi buddsoddi mewn technoleg symudol, gan drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio **a'r heddlu gorau yn y wlad am weladwyedd plismona (adroddiad gan y Swyddfa Gartref)**
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Trais gydag Anaf.**
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Bwrglera Domestig.**
- **Y pedwerydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Troseddau Rhyw.**
- **Y trydydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Lladrata**

- **Y pedwerydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol** ar gyfer troseddau a waethygir yn hiliol ac yn grefyddol
- Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi lleihau dros 60,000 y flwyddyn
- Cyfraddau canfod ar eu lefel uchaf erioed, yn enwedig bwrghleriaeth a thrais corfforol
- Hyder y cyhoedd wedi gwella 50%
- Gwelliannau ardderchog i gau bwlch Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o ran boddhad dioddefwyr
- Fflyd fodern o gerbydau a gweithdy newydd sy'n addas at y diben

[page 23]

- Cyfleusterau dalfeydd sydd wedi'u moderneiddio ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth
- Model cyson, wedi'i ddiogelu o blismona cymdogaeth. (Mae ACEM yn pryderu bod llawer o heddluoedd wedi cwtogi ar blismona cymdogaeth.)
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ddisglair a rennir â dau awdurdod tân a Desg Gwasanaeth Ambiwlans Cymru Glinigol.
- Asedau wedi'u Cynnal i gefnogi'r Gofyniad Plismona Strategol Cenedlaethol i'r DU gyfan.

Mae'r gwelliannau hyn o flwyddyn i flwyddyn wedi codi'r gwasanaeth i lefel y credwn fod De Cymru yn ei disgwyl ac sydd ei hangen yn Ne Cymru. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i barhau â'r lefel drawiadol hon o welliant.

4.3 Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol/Terfysgaeth

Mae Prif Gwnstabiliaid ledled Cymru yn parhau i wneud ymrwymiad sylweddol i ymladd yn erbyn troseddoldeb sy'n gweithredu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol sydd nid yn unig o fudd i gymunedau ardal Heddlu De Cymru ond hefyd y rhai yn yr heddluoedd cyfagos.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cael ei gydnabod fel yr heddlu rhanbarthol arweiniol ar Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol ac mae'n cael cyllid penodol, wedi'i neilltuo ar gyfer Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth i Gymru Gyfan, Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol sy'n cwmpasu Uned Gudd-wybodaeth Ranbarthol, Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol ac mae wedi sefydlu Tasglu Rhanbarthol ynghyd â nifer o fentrau eraill i fynd i'r afael â materion trawsffiniol â heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

Tarian yw ein huned gweithrediadau ar y cyd (â Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed Powys) ar gyfer troseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r uned yn cael cyfraniad gan Lywodraeth Cymru ac mae'r gefnogaeth ariannol a gwleidyddol barhaus sy'n cydnabod y bygythiad hwn i'r cymunedau yng Nghymru yn hanfodol. Mae cyfleoedd eraill i gydweithredu a gadarnhawyd ym maes Gwasanaethau Fforensig, Troseddau Arbenigol ac Arfau Tanio yn rhoi hwb i alluoedd gweithredol ac effeithiolrwydd adnoddau rhanbarthol.

Cydnabyddir yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol yn y de fel un o'r enghreifftiau cynharaf o unedau rhanbarthol effeithiol ac mae'n parhau i fod yn esiampl i unedau rhanbarthol eraill.

Wrth asesu gallu ac effeithiolrwydd yr Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol mae ACEM wedi canfod y gallent gael eu hintegreiddio'n llawnach â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r rhwydwaith plismona gwrthderfysgaeth cenedlaethol. Defnyddir rhai galluoedd – er enghraifft gwyliadwriaeth – gan Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r rhwydwaith gwrthderfysgaeth, sy'n creu cyfleoedd i rannu.

Mae cynnydd yn cael ei wneud, yn enwedig o ran yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a sicrhawyd rhywfaint o gysoni rhwng strwythurau a phrosesau. Cyflwynwyd trefniadau rheoli ar y cyd mewn tri rhanbarth sy'n dirprwyo cyfrifoldeb am droseddau difrifol a chymfundrefnol a gwrthderfysgaeth i un prif gwnstabl cynorthwyol. Drwy'r model arwain ar y cyd hwn bydd modd manteisio'n llawnach ar gyfleoedd i gydweithredu rhwng y rhai sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau difrifol a chymfundrefnol a'r rhai sy'n gyfrifol am atal terfysgaeth. Wrth i'r gweithgarwch cydgyfeirio hwn barau, bydd y ddadl ynglŷn â sut y dylid darparu galluoedd plismona – ac yn benodol eu dosbarthiad rhwng cyrff gwahanol – yn dod yn gynyddol bwysig.

[page 24]

4.4 Galluoedd Arfau Tanio Tactegol

Yn sgil yr ymosodiadau erchyll ym Mharis ac yn fwy diweddar yn yr Almaen, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y câi cyllid ychwanegol ar ddarparu i wella'r ymateb cenedlaethol i ymosodiad terfysgaidd ag arfau tanio. Mae'r cyllid ar gyfer hyn wedi cael ei frigdorri o ddyraniadau'r heddlu ac mae'r broses o ddyrannu'r cyllid hwn i heddluoedd bellach wedi'i phennu. Y dyraniad i Heddlu De Cymru yw 32 o swyddi y mae 16 ohonynt wedi'u hariannu drwy arian cyfatebol ac mae asesiad o adnoddau hyfforddiant, cyfarpar a dod o hyd i swyddogion priodol yn cael ei gynnal.

Cydnabyddir bod i lefel y bygythiad ôl-troed lleol ac o ganlyniad drwy gydol cyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae Heddlu De Cymru wedi diogelu plismona cymdogaeth ac adnoddau ymateb. Mae'r pwysau uchod yn gofyn am fuddsoddiad newydd os ydym am barhau i ddiogelu presenoldeb lleol.

Asesiad o Adnoddau Risg y Galw am Blismona Strategol

4.5 Ffactorau Agored i Niwed

Mae'r adroddiad PEEL presennol ar ffactorau agored i niwed a'n hasesiad ein hunain yn nodi i'r heddlu dderbyn 298 o alwadau am gymorth fesul 1,000 o'r boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Mae rhoi dioddefwyr wrth wraidd gweithgarwch yr heddlu yn ganolog i'r ffordd y mae Heddlu De Cymru yn gweithio. Mae cefnogi dioddefwyr yn brif ran o gynllun cyffredinol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n edefyn drwy holl feysydd gwaith yr heddlu sydd â blaenoriaeth. Mae Asesiad Strategol yr heddlu yn tynnu sylw at ffactorau agored i niwed fel mater o flaenoriaeth. O hyn mae nifer

o broffiliau o broblemau sylfaenol wedi'u pennu, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae nifer y digwyddiadau a nodwyd fel rhai sy'n cynnwys oedolyn sy'n agored i niwed yn cyfrif am tua 2% o'r holl ddigwyddiadau y mae'r heddlu wedi ymdrin â hwy dros y 12 mis diwethaf. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, y dioddefwr yw'r oedolyn sy'n agored i niwed ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Ym mron hanner y digwyddiadau lle y nodwyd ei fod yn cynnwys oedolyn sy'n agored i niwed, roedd y ffactorau a'i gwnaeth yn agored i niwed yn ymwneud ag iechyd meddwl gyda chyfran debyg wedi'i chategoreiddio'n achos pryder am resymau diogelwch.

Ymosod, bwrgleriaeth, difrod troseddol, twyll a lladrata yw'r mathau mwyaf cyffredin o droseddau sy'n gysylltiedig ag oedolion sy'n agored i niwed. Gweithredwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym mis Ebrill 2016. Mae adran 127 o'r Ddeddf yn cyflwyno Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion sydd â'r nod o alluogi swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall a nodir yn y gorchymyn i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod.

Mae'r heddlu wedi nodi bod 7,066 o adroddiadau o bersonau ar goll yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2016. Mae asesiad strategol yr heddlu o bobl sydd ar goll yn nodi bod y galw ar adnoddau o ganlyniad i Bobl Ar Goll yn sylweddol, gydag effaith ariannol sylweddol ar yr heddlu. Mae'r mwyafrif o Bobl sydd Ar Goll naill ai'n agored i niwed neu bobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' neu oedolion sy'n agored i niwed sydd wedi gadael cyfleuster iechyd meddwl. Mae gan bron bob un o'r bobl ifanc sydd ar goll yn rheolaidd gyswllt camfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ym mhob Uned Rheoli Sylfaenol lle mae'r timau pobl ar goll newydd eu creu yn gweithio'n agos gyda'r timau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Er bod y gallu a'r adnoddau ar gael yn yr heddlu i ymdrin â'r galw hwn, mae'n cael effaith niweidiol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu, wrth i adnoddau gael eu dargyfeirio oddi wrth bethau eraill er mwyn ymdrin â hyn.

Mae'r heddlu wedi llunio proffil problemau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl sydd ar goll sy'n amlinellu lefel, patrymau a phroffil pobl sydd ar gael a'r hyn sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Trafodir materion o'r fath yn rheolaidd yn y cyfarfodydd chwarterol a gynhelir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ag Arweinydd a Phrif Weithredwr pob un o'r saith Awdurdod Lleol yn Ne Cymru yn ogystal ag arweinwyr a rheolwyr ym maes iechyd ac asiantaethau eraill.

[page 25]

Nododd yr asesiad strategol fod prinder sgiliau arbenigol sydd eu hangen i ymdrin â chymhlethdodau a materion sensitif camfanteisio'n rhywiol ar blant ac fel y cyfryw mae Prif Swyddogion wedi cytuno i gynyddu'r adnoddau a neilltuir ar gyfer y maes hwn.

Cydnabu ACEM fod *rheoli pobl sydd ar goll yn flaenoriaeth uchel i'r heddlu ar lefel weithredol ac i'r staff ddangos dealltwriaeth dda o'r risgiau posibl i bobl sy'n mynd ar goll, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed*. **Fodd bynnag, erys bygythiad lle nad oes uned rheoli sylfaenol na strwythur llywodraethu ar lefel yr heddlu ar waith i ddeall achosion o bobl sy'n mynd ar goll yn rheolaidd a phobl sy'n agored i niwed er mwyn llywio camau diogelu.**

O ganlyniad i adolygiad o drais yn erbyn menywod a merched yn Ne Cymru a gomisiynwyd ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn 2013, gwnaed cryn dipyn o waith i ddatblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith i wella'r ymateb partneriaeth i gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched yn Ne Cymru.

Yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2016, cynyddodd achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd 11% o gymharu â'r 12 mis blaenorol ac roedd yn cyfrif am 11% o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu.

4.6 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

• Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Ar-lein

Yn ôl Asesiad Strategol 2016 yr heddlu, mae'r heddlu yn dechrau deall maint y broblem ac o ganlyniad i'r ffocws cynyddol, mae'r broblem a nodwyd yn debygol o fynd yn fwyfwy. Mae lefel yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ei hangen ar gyfer ymchwiliadau o'r fath yn cynyddu wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i achosion ddod yn fwy cymhleth. **Mae'n bwysig bod yr heddlu yn barod i ymateb i'r heriau hyn.**

Mae Asesiad Strategol Cenedlaethol 2015 o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu **y bernir bod ffrydio achosion o gam-drin yn fyw o'r byd datblygol i'r byd datblygedig yn fygythiad sy'n dod i'r golwg.**

Mae proffil camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yr heddlu wedi nodi bod oedran pobl ifanc sy'n ymgymryd ag ymddygiad ar-lein sy'n dwyn risg yn achos pryder gan fod rhai mor ifanc ag 8 oed yn cael eu rhoi mewn perygl. Ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn ardal yr heddlu yn cael eu blacmelio gan droseddwr sy'n ceisio cael delweddau anwedus. Mae dadl o hyd ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â throseddoli plant sy'n anfon delweddau anwedus ymhlith ei gilydd heb ddeall y risg.

Yn ôl arolwg diweddar, roedd bron ddwywaith gymaint o blant 5-15 oed ar-lein drwy ddyfais llechen yn 2014 nag yn 2013. Daw'r mwyafrif helaeth o'r adroddiadau sy'n cael eu dwyn i sylw'r heddlu drwy law riant yr oedd ganddo/ganddi reswm dros edrych ar ddyfais eu plentyn, yn hytrach na hunanadrodd. Mae hyn o bosibl yn tynnu sylw at yr anawsterau sy'n codi wrth ddiogelu dioddefwyr gan nad ydynt naill ai'n canfod eu hunain eu bod yn wynebu risg neu am fod gormod o ofn arnynt i fod mewn trwbl i ddweud wrth riant neu berson mewn awdurdod.

Mae'r heddlu yn parhau i weld lefelau adrodd uchel o achosion o anfon negeseuon o 'natur rhywiol'.

• Cyswllt Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

[page 26]

Mae Cyswllt Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi'i rannu ymhellach yn droseddau gan droseddwr unigol ac yn droseddau a gyflawnir gan grwpiau neu gangiau. Hyd yma, nid oes unrhyw grwpiau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad cenedlaethol o Grŵp Troseddu

Cyfundrefnol wedi cael ei nodi yn Ne Cymru, ond **mae sawl gweithrediad camfanteisio'n rhywiol ar blant yn mynd rhagddo yn y pedair uned rheoli sylfaenol.**

Mae ansawdd data sy'n ymwneud â thynnu sylw at gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn anghyson a fydd yn effeithio ar y gallu i asesu maint llawn y broblem yn ardal yr heddlu. Bydd gofyniad gorfodol i ddarparu data mewn perthynas â'r maes busnes hwn er mwyn cael darlun lleol a chenedlaethol cynhwysfawr o'r gudd-wybodaeth.

Mae'r broses o ddadansoddi ffactorau sy'n gwneud plant yn agored i gamfanteisio rhywiol wedi cael ei datblygu yn yr heddlu er mwyn nodi unigolion a allai wynebu risg, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n effeithiol. Mae'r system yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn helpu rheolwyr unedau rheoli sylfaenol i nodi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed gyda'r nod o'u hadnabod yn gynnar a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Penodwyd dadansoddwr rhanbarthol newydd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn helpu i sicrhau bod tueddiadau rhanbarthol yn y maes hwn yn cael eu nodi a bod unrhyw arfer da a/neu feysydd ar gyfer gwella yn cael eu rhannu.

4.7 Troseddau Rhywiol Difrifol

Mae troseddau rhywiol cofnodedig wedi cynyddu 20% yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2016. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 33% yn y nifer yr achosion o drais a gofnodwyd a chynnydd o 24% yn nifer y mathau eraill o droseddau rhywiol difrifol. Mae lefel uchel o graffu o hyd yn y maes busnes hwn, yn enwedig yn sgil achosion proffil uchel yn yr heddlu ac yn genedlaethol.

Cofnododd Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Leol 911 o achosion o atgyfeirio dioddefwyr yn ystod 2014/15 sy'n cyfateb i ostyngiad o 19% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn roedd 14% yn ddioddefwyr gwryw, gyda throseddau gan ddieithriaid yn cyfrif am 9%.

Mae'r 'economi liw nos' yn parhau i fod yn ffactor sy'n cyfrannu mewn nifer o droseddau rhywiol difrifol, gyda phresenoldeb alcohol neu gyffuriau yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau ac yn gwneud pobl yn fwy agored i niwed. At hynny, mae poblogaethau mawr a chynyddol o fyfyrwyr drwy ardal yr heddlu hefyd wedi cael eu cysylltu â nifer anghymesur o droseddau rhywiol difrifol sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â ffactorau tebyg sy'n gwneud pobl yn agored i niwed i'r economi liw nos.

Mae datblygiad y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd trefnu oed ar-lein ac apiau 'trefnu cyfarfod' megis Tinder a Grinder yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newid agweddau ac ymddygiadau o ran rhyw achlysurol. **Mae posibilrwydd cynyddol y bydd safleoedd o'r fath yn hwyluso amgylchedd y gall troseddwr ysglyfgar gamfanteisio arno.**

Mae nifer y Troseddwr Rhyw Cofrestradwy sy'n cael eu rheoli gan yr heddlu yn parhau i gynnyddu o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn diwedd mis Tachwedd 2016, roedd 1,425 o Droseddwr Rhyw Cofrestradwy yn cael eu rheoli yn y gymuned, yr aseswyd bod 14% ohonynt yn rhai Risg Uchel lawn, neu Risg Uchel.

4.8 Troseddau a Hwylusir gan y Rhyngrwyd (Seibr)

Ym mis Hydref 2014 diwygiwyd hen ddiffiniad ACPO o seibrdrosedd i gwmpasu tair agwedd:

- Troseddau sy'n Dibynnu ar Ddulliau Seibr, lle mai system ddigidol sy'n cael ei thargedu yn ogystal â bod yn ffordd o ymosod.

[page 27]

- Troseddau a Hwylusir gan Ddulliau Seibr. Troseddau 'sy'n bodoli eisoes' sydd wedi cael eu trawsnewid o ran graddfa neu ffurf drwy'r defnydd o'r Rhyngwrwyd.
- Y defnydd o'r Rhyngwrwyd i hwyluso gwerthu cyffuriau anghyfreithlon, smyglo pobl a llawer o fathau 'traddodiadol' eraill o droseddau.

Mae enghreifftiau o bob un o'r tri math o seibrdrosedd wedi'u cofnodi yn ardal yr heddlu.

Ond, oherwydd natur drawsbynciol y math hwn o droseddu ac amryfusedd ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â seibrdrosedd, mae'n anodd cadarnhau union lefelau o droseddu. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan rôl Gweithredu Twyll fel y dull cenedlaethol o gyflwyno adroddiadau ar bob achos o dwyll; y mae llawer ohonynt wedi'u hwyluso gan ddulliau seibr. Mae'r lefelau uchaf o droseddau a hwylusir gan ddulliau seibr yn ardal yr heddlu yn ymwneud ag aflonyddu.

Yn benodol, mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel llwyfan i unigolyn i aflonyddu ar unigolyn arall yn broblem gynyddol, ac mewn rhai achosion yn trosglwyddo o lwyfan 'rhithwir' i lwyfan gwirioneddol lle mae trais neu droseddau eraill yn dilyn.

Yn genedlaethol, er bod y rhan fwyaf o droseddau meddiangar eraill a gofnodwyd gan yr heddlu wedi parhau i leihau, bu cynnydd yn nifer y troseddau sy'n ymwneud â thwyll a gofnodir gan Gweithredu Twyll, gyda chyfran fawr o'r rhain yn ymwneud â thwyll nad yw'n ymwneud â buddsoddi (hyd at 15%) sy'n cynnwys achosion o dwyll sy'n gysylltiedig â siopa ar-lein a gwasanaethau meddalwedd gyfrifiadurol. Mae gweithgarwch twyllodrus 'ar-lein' a gofnodir yn dal i fod yn eithaf cyson o fewn ardal yr heddlu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf cynnydd a gofnodir yn genedlaethol.

Mae'r amrywiaeth gynyddol o ddyfeisiau a ffyrdd o gael mynediad i'r rhyngwrwyd, ynghyd â'r newid o systemau negeseua a chyfathrebu 'traddodiadol' yn golygu bod ymchwiliadau yn dod yn fwyfwy cymhleth ac yn gofyn am adnoddau mwy arbenigol i'w cynnal. Derbynnir bod i seibrdroseddu ar raddfa fawr ddimensiwn troseddu cyfundrefnol yn aml.

Mae natur fyd-eang seibrdroseddu yn golygu nad yw dioddefwyr na'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn preswyllo yn yr un wlad o reidrwydd, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn ei blismona. Y tebyg yw mai dim ond cynyddu a wna seibrdroseddu yn y dyfodol wrth i'r defnydd o'r rhyngwrwyd ddod yn fwyfwy cyffredin a chanolog i fywyd beunyddiol. Mae dulliau o droseddu hefyd yn debygol o ddatblygu a dod yn fwy cymhleth wrth i dechnegau ymchwilio wella, wrth i ddyfeisiau newydd gael eu datblygu ac wrth i dueddiadau ar-lein newydd ymddangos.

Nododd Asesiad Strategol yr heddlu fod defnydd cynyddol o'r rhyngwrwyd yn golygu bod mwy o bobl yn gwneud eu hunain yn 'hygyrch' ac felly'n agored i droseddwy'r ar-lein, sy'n parhau i ymaddasu'n gyflym i'r amgylchedd seibr dynamig. Nododd hefyd fod niferoedd cynyddol o bobl, yn enwedig oedolion, yn berchen ar ddyfeisiau symudol, gan gynnwys llechi, ac yn eu defnyddio. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ymhlith oedolion, hefyd wedi cynyddu ac mae'r defnydd o wasanaethau negeseua 'traddodiadol' megis SMS a MMS yn parhau i leihau.

Ar lefel genedlaethol, nodwyd bod seibrdroseddu yn un o'r pum blaenoriaeth uchaf i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae tueddiadau newydd cenedlaethol a nodwyd dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys cynnydd yn nifer yr achosion proffil uchel o ymyrryd â data yn erbyn dioddefwyr yn y DU, defnydd mwy ymosodol o ymosodiadau Gwrthod Gwasanaeth (DDOS) a meddalwedd wystlo at ddibenion cribddeilio a bodolaeth 'marchnad sy'n galluogi' lle y gall troseddwy'r brynu dulliau o gyflawni seibrdroseddau, yn gymharol rad a heb fod angen unrhyw arbenigedd technegol.

4.9 Adnoddau ychwanegol

[page 28]

Mae asesiad strategol 2016 o'r heddlu yn nodi mai diogelu pobl sy'n agored i niwed yn effeithiol yw'r risg fwyaf i'r heddlu o bell ffordd. Y risgiau i'r heddlu sydd â'r sgoriau uchaf yw'r rhai sy'n ymwneud yn bennaf â diogelu'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed a'r aelodau mwyaf diamddiffyn o'n cymunedau, sef wyth o'r deg risg fwyaf a nodwyd o ganlyniad i broses yr Asesiad Thematig o Risgiau Rheoli Risg ym maes Gorfodi'r Gyfraith (MoRiLE).

Ym mis Ebrill 2016 cyflwynwyd cynnig manwl i gynyddu nifer swyddogion yr heddlu ar gyfer y portffolio Troseddau Arbenigol, ar ôl adolygiad o'r strwythurau sy'n ymwneud â maes busnes diogelu'r cyhoedd. Roedd y cynigion yn cynnwys adnoddau ychwanegol ym maes Cam-drin Domestig, Amddiffyn Plant/Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol, Troseddau a Hwylusir gan y Rhyngwrwyd, Troseddwy'r Difrifol a Threisgar, Oedolion sy'n Agored i Niwed a Phobl Ar Goll. Ystyriwyd bod cyfanswm o 147 o rolau ychwanegol yn briodol yn weithredol a chytunwyd arnynt, gyda 23% o'r rhain yn staff yr heddlu.

Ategir y rhesymeg dros y buddsoddiad ychwanegol gan y canlynol:

- Cynnydd o 55% mewn achosion o drais gydag anaf o 7,728 o droseddau yn 2011/12 i ragamcan o 11,965 o droseddau yn 2016/17
- Cynnydd o 173% mewn achosion o drais a throseddau rhywiol difrifol o 727 o droseddau yn 2011/12 i ragamcan o 1,988 o droseddau yn 2016/17
- Mae atgyfeiriadau Cam-drin Plant yn Rhywiol at yr Ymchwiliad Annibynnol wedi cynyddu 71% ers y flwyddyn flaenorol, o 7 i 12
- Mae Ymgyrch Hydrant wedi gweld cynnydd o 56% ers y flwyddyn flaenorol, o 16 i 25

- Cynnydd o 40% yn nifer y cyflwyniadau cofnod cudd-wybodaeth o gymharu â'r cyfnodau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr yn 2015 a 2016 ac mae'n parhau i gynyddu.
- Cynnydd o 107% yn nifer yr adroddiadau Pobl Ar Goll o 4,079 yn 2012 i 8,435 yn 2016, felly'r gyfradd ddyddiol gyfartalog bresennol yw 23 o gymharu ag 11 bedair blynedd yn ôl
- O ran twyll, dengys y ffigurau mwyaf cyfredol, dros y cyfnod o 12 mis rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, i gyfanswm gwerth £18.7 miliwn o arian a gollwyd gael ei gofnodi a bod adroddiadau Twyll Gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn dangos cynnydd o 15% ers y flwyddyn flaenorol
- Mae Adroddiadau ar Weithgarwch Amheus yn dangos cynnydd o 14%
- Twf cyson y nifer yr achosion o Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig dros y pum mlynedd, sef 9% y flwyddyn. Mae hyn yn golygu 128 o achosion ychwanegol o Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig yn y 12 mis nesaf a 417 o achosion ychwanegol yn y tair blynedd nesaf, sy'n cyfateb i lwyth achosion wyth swyddog ychwanegol o staff Rheoli Troseddwy'r Rhyw a Throseddwy'r Treisgar (MOSOVO)

Nodwyd nifer o gerrig milltir allweddol ar gyfer recriwtio staff, yn unol â'r cynnydd arfaethedig, gyda'r bwriad o gwblhau'r broses hon erbyn mis Awst 2019. Roedd yr amserlen yn seiliedig ar gynllun gweithredu fesul cam ar gyfer yr adnoddau ychwanegol, yn gysylltiedig â chynllun recriwtio'r heddlu, gan ystyried yr angen i swyddogion yr heddlu 'newydd' gael eu halinio â'r Unedau Rheoli Sylfaenol ac ar batrôl annibynnol cyn y gall unrhyw brosesau recriwtio ddigwydd; ar gyfer naill ai'r adran ymchwiliadau troseddol (CID) neu'r unedau hyn.

[page 29]

Fodd bynnag, mae'r asesiad strategol diweddaraf yn nodi bod angen clir am flaenoriaethu ac alinio adnoddau er mwyn cynyddu'r gallu yn y maes hollbwysig hwn drwy gywasgu'r amserlen gynharach yn sylweddol. Ceir uchelgais bellach i gywasgu'r twf i gynifer â phosibl erbyn 31 Mawrth 2017 drwy ddull gweithredu pedwar cam, gan gydnabod yr angen i nodi'r costau a'r manteision posibl wrth weithredu o fewn y cerrig milltir newydd eu nodi.

At hynny, ym mis Medi 2016, crëwyd Tîm Ymchwilio Ar-lein i'r Heddlu, sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu a staff arbenigol yr heddlu. Er bod swyddogion yr heddlu wedi bod yn eu swyddi ers mis Medi, mae'r Heddlu wrthi'n recriwtio i swyddi staff arbenigol yr heddlu er mwyn cynorthwyo'r swyddogion hyn.

4.9 Roedd gofyn i asesiad o adnoddau fynd i'r afael â'r materion uchod drwy gyfuniad o ddysgu mewnol ac arfer da yn ogystal â chynnal ymarfer meincnodi a ddefnyddiodd ddadansoddiad ACEM o'r heddluoedd a raddiwyd yn 'dda' ar ôl eu Harolygiad diweddar o Ffactorau sy'n Gwneud Pobl yn Agored i Niwed. Deellir bod angen i'r adnoddau ychwanegol fod yn gymysgedd o staff a swyddogion arbenigol yr heddlu a fydd yn gofyn am ystyriaeth a chynlluniau gweithredu i fod yn effeithiol y tro cyntaf. O ganlyniad, mae'r strategaeth ganolog yn ceisio cynyddu adnoddau'n raddol wrth i'r cyllid ganiatáu o 2017/18 ymlaen. Gan ddefnyddio costau staffio cyfartalog bydd angen i ni fuddsoddi tua £7M y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau uchod.

Yr asesiad o adnoddau isod yw ein hamcangyfrif sydd wedi'i lywio'n rhannol gan rai profiadau diweddar mewn perthynas ag ymgyrch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a amlinellir fel a ganlyn:

Ymgyrch Red Eclipse

Roedd hwn yn gofyn am dîm penodol o 52 o staff a sefydlwyd ym mis Ionawr 2015 mewn ymateb i ymgyrch blacmelio dros y rhynggrwyd a oedd yn gysylltiedig â cham-drin plant ar-lein. Roedd y sawl a amheuwyd yn byw yn ardal yr Heddlu ar adeg ei arestio, ond roedd ei droseddau yn rhai byd-eang eu natur. Mae dros 4,600 o becynnau cudd-wybodaeth wedi cael eu dosbarthu'n fyd-eang, 1,150 ohonynt i heddluoedd yn y DU. Mae tri swyddog yn dal i weithio ar yr ymgyrch yn llawn amser, gan greu pecynnau o gudd-wybodaeth i unedau rheoli sylfaenol ymchwilio iddynt ymhellach.

Ffocws Gweithredol	Swyddogion CALI	Staff CALI	Cyfanswm CALI	Cyfanswm £'000
Cam-drin Domestig	15		15	743
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	24	10	34	1,574
Troseddau Rhywiol Difrifol	44	9	53	2,486
Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd	14	6	20	932
Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar		8	8	283
Oedolion sy'n Agored i Niwed	8	1	9	432
Pobl Ar Goll	8		8	396
Eiriolwyr Plant				500
Cyfanswm	113	34	147	7,346

4.10 Iechyd Meddwl

Cynyddodd nifer y digwyddiadau iechyd meddwl y mae'r Heddlu wedi ymateb iddynt o 15,495 yn 2013/2014 i 32,109 yn 2015/2016, sef cynnydd o 72.2%. Gwneir cryn ymdrech i wella'r ffordd yr ymdrinnir â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl pan ddônt i sylw Heddlu De Cymru a'i bartneriaid. Arweinir y gwaith hwn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Drake, sef y swyddog arweiniol gweithredol sydd hefyd yn chwarae rôl i Gymru gyfan yn hyn o beth. Maent yn gweithio gyda'r tri Bwrdd Iechyd Lleol yn Ne Cymru a chydag elusennau iechyd meddwl ac eraill er mwyn sicrhau bod opsiynau mwy priodol ar gael yn hytrach na defnyddio dalfa'r heddlu. Fodd bynnag, er mai'r "dangosydd" a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill fu'r defnydd o bwerau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (a elwir yn Bwerau Adran, sy'n gyfeiriad at adran 136 a hefyd adran 135) y gwir amdani hi yw bod y pwerau hynny yn cael eu defnyddio – a dalfa'r heddlu yn fwy cyffredinol – pan fo diffyg darpariaeth amgen ar gael yn gyflym ac yn hawdd, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. Weithiau mae'r unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa o dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol ac maent yn cael eu cadw i'w diogelu eu hunain yn ogystal â diogelu'r cyhoedd a cheir cytundeb cyffredinol mai diffyg dewisiadau amgen yn hytrach na phlismaon yw gwraidd y broblem. Mae'r Comisiynydd wedi comisiynu gwaith

manwl sydd newydd gael ei gwblhau ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu dewis amgen mewn partneriaeth â'r GIG ac eraill. Mae staff cymorth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Gweinidog ar y pryd, Mark Drakeford AC, i roi'r egwyddorion a nodir yn y Concordat diweddar ar waith.

[page 30]

Mae Heddlu De Cymru wedi cytuno y câi pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael ei gadw o dan adran 136 ei gludo i fan diogel ac mai 'rhywbeth na ddylai byth ddigwydd' fyddai'r defnydd o ddalfeydd yr heddlu. Mae hyn yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau diogel amgen i bobl ifanc.

O fis Tachwedd 2015, mae'n ofynnol i swyddogion yr heddlu gysylltu â'r timau argyfwng yn y tri BILL i gael cyngor cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gadw person o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Dylai'r defnydd o'r llinellau cyngor fod o fudd i'r heddlu nid yn unig o ran cynnig dewis arall yn lle defnyddio A136, ond bydd yn lleihau faint o amser a dreulir yn hebrwng y rhai sy'n cael eu cadw o dan A136 ac yn rhoi gwell gwasanaeth i'r rhai mewn argyfwng.

Ym mis Rhagfyr 2015, llofnododd yr heddlu addewid 'Amser i Newid Cymru' i ddechrau ar nifer o fesurau ar gyfer ei weithlu a phartneriaid allanol. Yn gynharach yn ystod y flwyddyn, lansiodd y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd gynllun Cerdyn Cadw'n Ddiogel i bobl sydd â salwch meddwl, anabledd dysgu a dementia. Cafodd y cynllun ei ddylunio gan aelodau o staff yn y Ganolfan Ymateb yn seiliedig ar brofiad o'i angen, ac ar hyn o bryd mae 617 o bobl wedi'u cofrestru.

Ym mis Tachwedd 2016, lansiodd y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd mewn partneriaeth â'r Lluoedd Arfog Gynllun Cadw'n Ddiogel Cymru i Gyn-filwyr. Ers ei lansio, mae 845 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y cynllun, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu a dementia, gyda 4% yn datgelu eu bod yn drawsryweddol.

4.13 Asesiad Gweithredol Cryno

Mae'r cyd-destun hwn o ofynion plismona lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ynghyd ag effaith y gostyngiad mwyaf yng nghyllid yr heddlu ers cenhedlaeth (gydag arwyddion pendant o ragor o gyni cyllidol hyd at 2025) yn her barhaus enfawr i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd o ran ceisio cynnal heddlu effeithiol tra'n parhau i wella perfformiad yn ddramatig, sef ein huchelgais.

Felly, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystyried yr asesiad o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i wella gallu ac anodau yn ogystal â'r angen am arbedion sylweddol a lleihad mewn gwariant mewn mannau eraill er mwyn mantoli'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn.

[page 31]

5.0 Y CYD-DESTUN ARIANNOL STRATEGOL – Y RHAGLEN CYNI CYLLIDEBOL

5.1 Cafodd yr argyfwng economaidd byd-eang ei amlygu mewn diffyg cyllidebol blynyddol o £149B yn y DU ar ddechrau 2010 a ysgogodd Adolygiad 2010 o Wariant Cynhwysfawr i

fantoli'r gyllideb erbyn 2015. Cafodd hyn effaith negyddol sylweddol ar y dyraniadau cyllid canolog i heddluoedd ac fel un o'r adrannau nas diogelwyd, arweiniodd at y gostyngiad unigol mwyaf yn y cyllid i heddluoedd gan lywodraeth ganolog ers cenhedlaeth.

5.2 Y sefyllfa ddiweddaraf fel y'i cyhoeddwyd gan y Canghellor yn ei ddatganiad olaf yn yr hydref ar 23 Tachwedd 2016 oedd y bydd y diffyg cyllidebol blynyddol cenedlaethol ar ôl saith blwyddyn yn olynol o gynydd cyllidol yn dal i fod dros £68 biliwn.

5.3 Dengys datganiad yr Hydref fod y diffyg cyllidebol cenedlaethol wedi cael ei gwtogi bron dwy ran o dair o'i lefel uchaf ers y rhyfel yn 2009-10, sef 10.1% o CDG i 4.0% erbyn 2016/17. Fodd bynnag, erys lefelau benthyca a dyled yn uchel, ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn barnu bod rhagolygon economaidd a cyllidol y DU wedi dirywio yn sgil refferendwm yr UE. O ganlyniad, dengys rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol na fydd cyllid cyhoeddus yn cyrraedd gwarged erbyn 2019-20.

5.3 Ar ôl colli'r targed cyntaf i ddileu'r diffyg erbyn 2015, a dyddiad yr ail darged o 2020, y cynnig diwygiedig yw y dylid parhau â'r rhaglen cyni cyllidol (am fwy na degawd i bob diben). Amcan diwygiedig y llywodraeth yw y dylid mantoli cyllid cyhoeddus ar y dyddiad cynharaf posibl yn ystod y tymor seneddol **nesaf**. Er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcan hwn, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi Siarter Cyfrifoldeb Cyllidebol newydd. O dan y siarter hon mae'n ymrwymo i leihau'r diffyg strwythurol i lefel islaw 2% o CDG a sicrhau bod y ddyled yn gostwng fel canran o CDG erbyn diwedd y tymor seneddol hwn. Mae'r fframwaith cyllidol newydd hwn yn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn parhau ar y llwybr tuag at gynaliadwyedd, tra'n rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i gefnogi'r economi yn y dyfodol agos. Daw'r Siart isod o'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n dangos diffyg cyllidebol parhaus o £21 biliwn erbyn 2021 yn lle'r gwarged blaenorol o £11 biliwn.

Benthyca net y sector cyhoeddus

£ biliwn
Mawrth
Tachwedd

5.4 Gyda thraean o'r diffyg strwythurol heb ei ddileu eto a'r ffaith y rhagwelir y bydd cyfanswm y ddyled genedlaethol erbyn 2021 yn £1,950 biliwn bellach (yn fwy na dwywaith y lefel yn 2010) sy'n cyfateb i £30k ar gyfer pob person yn y DU), **felly bydd cyllid gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol yn parhau i ostwng.**

[page 32]

5.5 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gwneud y pwyntiau allweddol canlynol ar Ddatganiad Hydref 2016

Rhagolwg gwannach i'r economi

- Ergyd yn y dyfodol agos oherwydd ansicrwydd Brexit a'r bunt is
- Mae llai o fuddsoddi yn golygu twf cynhyrchiant tuedd arafach
- Lefelau mewnfudo net is

Rhagolwg gwannach i gyllid cyhoeddus

- Mae benthyca eisoes yn uwch na'r lefel cyn y refferendwm

- **Bydd twf gwannach yn effeithio ar dderbyniadau, yn enwedig treth incwm**
- **Y cynigion cyllidol yn Natganiad yr Hydref**

Mae targedau'r Llywodraeth yn newid unwaith eto

- Methwyd â chyrraedd pob targed cyfredol a gosodwyd rhai newydd yn eu lle
- Mandad cyllidol newydd wedi'i gyflawni a mwy
- Ni fydd mantoli'r gyllideb yn y tymor seneddol nesaf yn hawdd

Mae gan asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd benthyca net y sector cyhoeddus yn troi'n warged erbyn 2019/20 debygolrwydd o 35% y bydd hynny'n digwydd. Dangosir yr amrediad o debygolrwyddau ar y siart isod:

Mandad cyllidol: cyfredol

Targed: Gwarged benthyca net y sector cyhoeddus yn 2019-20 a thu hwnt

Canran o CDG

Mae'r diffyg o £21.9 Biliwn a ragwelir yn awgrymu tebygolrwydd o 35 y cant y caiff ei gyflawni

5.8 Erys natur fregus y gyllideb genedlaethol yn risg allweddol o hyd. Mae'r posibilrwydd o grebachu o hyd mewn gwariant cyhoeddus hyd at y tymor seneddol nesaf yn un realistig iawn. Dylid rhagweld toriadau mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn o hyd. At hynny, mae effaith y toriadau cyllidebol uchod a'r gostyngiadau yng nghyllid partneriaid yn y sector cyhoeddus yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Leol yn ogystal â'r teulu Cyfiawnder Troseddol ehangach yn dwysáu'r pwysau ar adnoddau plismona.

[page 33]

O ystyried record amcanestyniadau economaidd hyd yma mae'n hynod debygol y bydd mesurau cyni cyllidol yn parhau hyd at 2020. Er bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hon, bydd angen i'r tybiaethau cynllunio adlewyrchu'r crebachu mewn cyllid i'r heddlu gan lywodraeth ganolog a ragwelir yn y tymor hwy.

Bydd pob corff cyhoeddus yn gwneud ei benderfyniadau ei hun ynglŷn â lleihau costau a blaenoriaethau gwasanaethau. Mae cynlluniau cyllidebol awdurdodau lleol yn ardal Heddlu De Cymru eisoes yn awgrymu gostyngiadau mewn mentrau diogelwch cymunedol anstatudol ac mae'r effaith ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i wasanaethau yn crebachu heb ei hasesu eto. Mae gostyngiadau mewn gwasanaethau ieuencid, ym maes chwaraeon a hamdden, a chymorth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol mewn rhai rhannau o ardal De Cymru yn rhwym o gael effaith ar ein cymunedau a'r galw am blismona lleol.

[page 34]

6.0 Y CYD-DESTUN ARIANNOL STRATEGOL – Y SEFYLLFA BLISMONA GENEDLAETHOL

6.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Gweinidog dros Blismona y setliad plismona dros dro ar gyfer 2017/18 a chadarnhaodd mai cyfanswm y ddarpariaeth refeniw ar gyfer plismona ledled Cymru a Lloegr drwy grant yn 2017/18 fydd £8.4B (gweler **Atodiad 4**). Mae hyn yn cwmpasu'r pedair blynedd nesaf gan dybio bod yr amcanestyniadau economaidd cenedlaethol yn unol â'r amcanestyniadau cyfredol. Byddai'r record flaenorol yn awgrymu bod toriadau dyfnach eto yn dal i fod yn debygol. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol y datganiadau canlynol o ran setliad cyffredinol yr heddlu:

1. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd y Llywodraeth yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar yr heddlu i wneud ei waith hollbwysig, ac yn blaenoriaethu gorffen y broses o ddiwygio'r heddlu drwy alluogi'r heddlu i drawsnewid fel y gall fynd i'r afael â throseddau sy'n newid, ymdrin â throseddau a fu'n gudd gynt a diogelu pobl sy'n agored i niwed.

2. Ers 2010 rydym wedi gweld rhai o'r newidiadau mwyaf i blismona ers cenhedlaeth. Mae troseddu wedi gostwng dros chwarter yn ôl Arolwg Annibynnol Troseddau Cymru a Lloegr. Mae llawer mwy o atebolrwydd a thryloywder lleol ac mae arweinwyr yr heddlu wedi achub ar y cyfle i gyflwyno diwygiadau radical i'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

3. Mae swyddogion yr heddlu wedi cael eu symud o rolau cefn swyddfa ac mae adnoddau wedi cael eu canolbwyntio ar ddarpariaeth rheng flaen. Mae heddluoedd yn gweithio'n agosach nag erioed o'r blaen i leihau costau a dyblygu, ac maent wedi dechrau gweithio'n agosach gyda gwasanaethau brys eraill drwy gyd-leoli a chydweithredu mewn meysydd megis tân ac iechyd meddwl.

4. Fel y nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, mae cryn le o hyd i heddluoedd barhau i wella effeithlonrwydd eu sefydliadau a thrawsnewid y ffordd y maent yn gweithredu, ac mae'n hollbwysig bod y newidiadau'n parhau ar fyrder os ydym am gael heddlu sy'n addas i ymateb i heriau'r 21ain ganrif.

5. Nododd ACEM: gwelsom dystiolaeth sy'n awgrymu bod rhai heddluoedd wedi arafu'r broses o gyflwyno eu cynlluniau ac wedi cwtogi ar eu huchelgais ers y llynedd. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid wneud popeth o fewn eu pŵer i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd ar fyrder, ac mae'r setliad hwn yn rhoi cyfle i wella ansawdd plismona a pharhau i leihau troseddu.

6. Yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd ar 4 Chwefror 2016 wrth gyhoeddi setliad ariannu terfynol yr heddlu ar gyfer 2016/17 [HCWS510], **caiff cyllid adnoddau uniongyrchol ar gyfer pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys y praesept, ei ddiogelu ar lefelau arian parod gwastad o gymharu â 2015/16, gan dybio y bydd incwm y praesept yn cynyddu i'r uchafswm sydd ar gael yn 2016/17 a 2017/18.**

7. Mae incwm y praesept wedi cynyddu'n gynt na'r disgwyl, sy'n golygu y gallwn fodloni ein tybiaeth gynllunio ynglŷn â chyllid adnoddau uniongyrchol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a hefyd gynyddu maint Cronfa Drawsnewid yr Heddlu yn sylweddol i £175m yn 2017/18.

8. Bydd hyn yn galluogi'r sector plismona i fuddsoddi cyllid ychwanegol yn y prosiectau a fydd yn gwella effeithlonrwydd, diogelu dioddefwyr troseddau sy'n agored i niwed, gwella

arweinyddiaeth a diwylliant plismona ymhellach a mynd i'r afael â mathau newydd o drosedd megis seibrdrosedd.

[page 35]

9. Mae setliad 2017/18 yn parhau â'r fethodoleg bresennol o gymhwyso newidiadau canrannol unffurf i arian grant craidd pob Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

6.3 Mae paragraffau 6 a 7 yn allweddol o ran cyllid. Mae arian parod gwastad yn doriad mewn termau real mewn gwirionedd gan fod dyfarniadau cyflog a chwyddiant yn gynydd mewn costau arian parod nad oes arian i dalu amdano. Ac mae mwy o frigdorri wedi lleihau'r cyllid uniongyrchol i heddluoedd.

6.4 Felly, er gwaethaf y rhethreg, mae'r setliad yn adlewyrchu toriadau pellach i gyllid yr heddlu gyda chyfanswm gostyngiad arian parod o 1.4% y flwyddyn.

6.5 Yr hyn a anghofir hefyd yw'r costau a orfodir ar gyflogwyr gan y llywodraeth megis Costau Yswiriant Gwladol ychwanegol a bennwyd gan gyllideb 2015 sy'n cyfateb i 2% o'n cyllideb (£4.5M y flwyddyn) i bob diben neu doriad cyfatebol o 3% mewn cyllid a'r lefi prentisiaeth o 0.5% (£1.0M y flwyddyn). Mae effeithiau chwyddiant prisiau dros gyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant blaenorol yn golygu toriad ariannol sy'n agosach i 10% hyd at 2021, y disgwylir talu am ran ohono drwy gynydd yn y dreth gyngor.

6.6 Yn achos cyllideb Heddlu De Cymru, mae Costau Yswiriant Gwladol ychwanegol a'r lefi prentisiaeth yn cyfateb i gynydd o 5.0% yn y Praesept mewn termau arian parod.

6.7 Rhoddwyd terfyn ar y broses o weithredu methodoleg dyrannu Fformiwla newydd yr Heddlu ar y funud olau oherwydd gwallau sylfaenol yn yr ystadegau a fu'n sail i'r fformiwla. Ar ôl ymddiheuriad swyddogol gan Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref disgwylir i fformiwla ddiwygiedig gael ei rhoi ar waith ar gyfer 2018/19. Mae'n bwysig iawn nodi bod yr ymarfer i enghreifftio'r fformiwla y rhoddwyd terfyn arni (gan Heddlu Dyfnaint a Chernyw) wedi awgrymu gostyngiad posibl o tua £45M y flwyddyn yng Nghyllid yr Heddlu i Gymru. Mae hyn yn amlwg yn achos pryder mawr a pharhawn i gyflwyno heriau a sylwadau cadarn i'r gweithgor newydd a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref.

6.8 Hyd nes y caiff fformiwla newydd ei chyflwyno, mae setliad 2017/18 yn parhau â'r fethodoleg bresennol o gymhwyso toriad canrannol unffurf i arian grant craidd pob Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Felly, mae pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn wynebu toriad o 1.4% mewn grantiau gan lywodraeth ganolog.

Mae brigdorri wedi **cynyddu** unwaith eto ac wedi cyrraedd £1,362M y flwyddyn yn 2017/18 yn ogystal â gostyngiad mawr mewn cyllid cyfalaf (toriad arian parod o 41% y flwyddyn yn dechrau o 2017/18). Caiff **mwy** o gyllid ei frigdorri yn 2017/18 i gynyddu'r gronfa drawsnewid i £175m yn ogystal â chynnydd yn y symiau a frigdorri ar hyn o bryd, gan gynnwys cynnydd o £133m yn y swm a frigdorri ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd. Mae'r symiau a frigdorri yn golygu bod dros £1 Biliwn wedi'i ddyrannu gan y Swyddfa Gartref y tu hwnt i fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar angen ac fe'i nodir isod ynghyd â chyfiawnhad y gweinidog:

[page 36]

Brigdorri gan y Swyddfa Gartref	2016/17 £M	2017/18 £M
Grant Gwrthderfysgaeth Penodol	640	670
Treth Gyngor Etifeddol	104	104
Rhwydwaith Gwasanaethau Brys	80	213
Mae'r Gronfa Drawsnewid yn cynnwys £32M CTSFO	76	175
Grant Menter Cyllid Preifat	73	73
Cyrff Hyd Braich – ACEM – IPCC – y Coleg Plismona	46	54
Grant Arbennig yr Heddlu	25	50
Rhaglenni Mawr	22	-
Cronfa Arloesedd yr Heddlu	55	-
Yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau a Mechnïaeth Cyn Cyhuddo		17
Swm ychwanegol i Gymru	10	6
Cyfanswm Grantiau Penodol y Swyddfa Gartref:	1,131	1,362

Cyllid plismona gwrthderfysgaeth

Mae cyllid ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth wedi'i ddiogelu gan fod cyllid penodol ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth yn parhau yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn gallu ymdrin â'r bygythiadau terfysgol a wynebwn. Proffil dangosol yr Adolygiad o Wariant ar gyfer cyllid plismona gwrthderfysgaeth yn 2017/18 yw £670m; caiff y ffigur hwn ei gadarnhau ar wahân. At hynny, caiff £32m arall ei ddarparu ar gyfer swyddogion arfog o Gronfa Drawsnewid yr Heddlu yn 2017/18.

Cronfa Drawsnewid yr Heddlu

Bydd cyfanswm y gronfa drawsnewid yn cynyddu i £175m, sef cynnydd o fwy na £40m. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda Bwrdd Diwygio a Thrawsnewid yr Heddlu i sicrhau dull gweithredu a arweinir gan y sector er mwyn defnyddio'r cynnydd hwn mewn cyllid i gymell a hwyluso'r broses o drawsnewid plismona. Bydd hyn yn gwella arweinyddiaeth a diwylliant plismona, amrywiaeth ei weithlu, diogelu pobl sy'n agored i niwed, galluedd arbenigol trawsheddlu, manteisio ar dechnoleg newydd a'r ffordd rydym yn ymateb i fygythiadau sy'n newid.

Byddwn yn parhau i ariannu cynnydd cenedlaethol yn nifer y swyddogion arfog a'r gallu i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i ymosodiad ar arfau tanio gyda £32m o gyllid penodol. Byddwn hefyd yn parhau i ariannu prosiectau presennol Cronfa Arloesedd yr Heddlu.

Cyrff Hyd Braich

Bydd setliad yr heddlu yn parhau i roi £54M i ariannu cyrff plismona cenedlaethol i ddarparu gwasanaethau a threfniadau llywodraethu sy'n hanfodol i weithrediad effeithlon a llwyddiannus yr heddlu. Byddwn yn parhau i ariannu rhaglen arolygu PEEL ACEM, a chynlluniau mynediad uniongyrchol y Coleg Plismona. Bydd mwy o gyllid i gefnogi Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu wrth iddo ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gyda rôl estynedig i ymchwilio i honiadau difrifol a sensitif sy'n

cynnwys yr heddlu, gan ei alluogi i roi'r diwygiadau deddfwriaethol yn y Bil Plismona a Throseddu ar waith a gwella ei allu i ymdrin ag ymchwiliadau mawr a chymhleth.

Cronfa Wrth Gefn Grantiau Arbennig yr Heddlu

Dyma'r drydedd flwyddyn rydym wedi penderfynu darparu cyllid o setliad yr heddlu ar gyfer cronfa wrth gefn Grantiau Arbennig yr Heddlu yn ôl disgresiwn, sy'n cefnogi ardaloedd heddluoedd sy'n wynebu digwyddiadau sylweddol ac eithriadol a allai fel arall beri iddynt wynebu risg ariannol sylweddol. Yn 2017/18 caiff £50m ei ddarparu o setliad yr heddlu ar gyfer Grantiau Arbennig yr Heddlu. Mae hyn yn gynnydd sy'n adlewyrchu asesiad o angen posibl ymhlith heddluoedd, a'r costau penodol sy'n debygol o godi wrth baratoi ar gyfer ymgyrch blismona yng Nghyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad yn 2018.

[page 37]

Yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafurwyr (GLAA)

Bydd ailddyrianiad newydd o tua £2m yn helpu'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-Drin Llafurwyr (GLAA) i ddefnyddio ei bwerau gorfodi newydd sy'n debyg i bwerau'r heddlu a amlinellir yn Neddf Mewnffurfio 2016 er mwyn mynd i'r afael â chamfanteisio ar lafurwyr, gan gynnwys caethwasiaeth fodern drwy'r economi gyfan. Drwy fwy o adnoddau i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn, bydd y GLAA yn gallu cynnal mwy o ymchwiliadau i droseddau caethwasiaeth fodern a allai fel arall fod yn rhan o waith yr heddlu, gan arbed amser i'r heddlu a gwella ymateb gorfodi'r gyfraith i gamfanteisio ar y gweithwyr sydd fwyaf agored i niwed.

Mechnïaeth cyn cyhuddo

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno diwygiadau sylweddol i fechnïaeth cyn cyhuddo, gan gynnwys terfynau amser a nodir yn y Bil Plismona a Throseddu. Byddwn yn rhoi terfyn ar y sefyllfa lle y gall rhai pobl dreulio misoedd neu hyd yn oed blyneddau ar fechnïaeth cyn cyhuddo heb fawr ddim mesurau diogelu, os o gwbl, drwy gyflwyno: tybiaeth y bydd y rhai a amheuir yn cael eu rhyddhau heb fechnïaeth, y bydd y llysoedd yn cynnal adolygiadau rheolaidd a bydd canllawiau ffurfiol sy'n llywodraethu'r ffordd y gosodir amodau. Efallai y bydd y newid hwn yn ymarfer yr heddlu yn golygu costau cynyddol i'r llysoedd ynadon ac mewn cymorth cyfreithiol, y bydd ailddyrianiad newydd o hyd at £15m ar gyfer 2017/18 yn talu amdanynt.

Rhaglenni technoleg yr heddlu

Bydd cyllid yn parhau i gael ei ailddyrranu ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd, y system Airwave bresennol, Biometreg y Swyddfa Gartref a Chronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol yr Heddlu. Yn unol â'r arfaeth ar adeg yr Adolygiad o Wariant, bydd cynnydd o tua £100m yn y cyllid i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn rhoi mynediad â blaenoriaeth i ddata band eang symudol 4G i swyddogion ar un rhwydwaith, gan gynnwys mewn rhai ardaloedd lle nad yw ar gael o gwbl ar hyn o bryd, gan eu galluogi i sicrhau hyd yn oed mwy o fanteision gweithio symudol nag y mae llawer o heddluoedd eisoes yn ei gyflawni. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynnig manteision o ran cynhyrchiant a manteision gweithredol yn ogystal ag arbedion

sylweddol i drethdalwyr. Caiff cyllid ar gyfer rhaglenni technoleg mawr ei reoli'n hyblyg rhwng prosiectau, er mwyn sicrhau y caiff cyllid sydd wedi'i ailddyrannu ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl. Caiff tua £1m ei wario i gynnal yr Archif Fforensig, sy'n cadw arddangosion fforensig sy'n ymwneud ag ymchwiliadau troseddol ar ran yr heddlu.

Addasiadau sylfaenol ac ailddyraniadau

Mae'r Llywodraeth wedi ailddyrannu cyllid i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol hollbwysig ar gyfer plismona. Bydd Grantiau Prifddinas Cenedlaethol a Rhyngwladol i'r Heddlu Metropolitaidd, drwy Awdurdod Llundain Fwyaf, yn parhau i gael arian grant Prifddinas Cenedlaethol a Rhyngwladol (NICC) gwerth £173.6m, a bydd Heddlu Dinas Llundain hefyd yn parhau i gael arian NICC gwerth £4.5m. **Mae hyn yn cydnabod gofynion plismona unigryw ac ychwanegol y brifddinas**, a hefyd yn sicrhau y caiff cyfanswm yr adnoddau ariannol uniongyrchol i'r ddau heddlu ei ddiogelu yn yr un modd.

Grant cyfalaf yr heddlu

Bydd pob Corff Plismona Lleol yn wynebu'r un **toriad canrannol** yn y Grant Cyfalaf a bydd cronfa gyfalaf wrth gefn yn parhau. Mae buddsoddiad cynyddol yn nhechnoleg yr heddlu yn adlewyrchu rhaglen waith i ddisodli caledwedd diwedd ei hoes, gwella galluedd a gweithrediad, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol i ddisodli'r galedwedd diwedd ei hoes sydd ei hangen ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Cafodd yr heddlu gyllid cyfalaf gwerth £120.9M yn 2015/16. Yn 2016/17 cafwyd £82M o gyllid ac yn 2017/18 ceir swm o £77M bellach, y mae £30M ohono wedi'i frigdorri a dangosir hyn isod:

[page 38]

Cyfalaf yr Heddlu	2016/17 £m	2017/18 £m
Grant Cyfalaf yr Heddlu	54.1	45.9
Cyfalaf Grant Arbennig	1.0	1.0
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu	16.5	12.2
Gwasanaethau Byw'r Heddlu	10.4	18.1
Cyfanswm	82.0	77.2

Yn 2017/18 dim ond £45.9M sy'n cael ei ddyrannu bellach i'r Comisiynwyr gyda phob un yn wynebu'r un toriad canrannol yn y grant cyfalaf. Mae hyn yn cyfateb o doriad o 15% i heddluoedd unigol. Rydym bellach mewn sefyllfa lle y gall heddluoedd ond parhau â buddsoddiad cyfalaf hanfodol drwy eu hadnoddau eu hunain gan mai dim ond ffraciwn o'r gofyniad gwirioneddol a gefnogir gan y grant canolog.

Grant Mentrau Cyllid Preifat

Caiff cyllid penodol ei roi i dalu am gostau prosiectau Menter Cyllid Preifat sy'n weithredol ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y cyllid hwn at setliad yr heddlu at y diben penodol hwn. Nid yw Heddlu De Cymru erioed wedi cael arian Menter Cyllid Preifat er bod heddluoedd eraill yng Nghymru wedi'i gael.

6.8 Y tu hwnt i 2017/18

Nododd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gwreiddiol 2010 (CSR2010) y lefelau ariannu arfaethedig i'r heddlu ar gyfer pedair blynedd rhwng 2011 a 2015 a chydabuwyd mai hwn i'r setliad ariannu mwyaf heriol yn ariannol i'r heddlu ers cenhedlaeth. (ACEM). Roedd y cyhoeddiad cyntaf hwn yn golygu gostyngiad o 20% mewn termau real (ar ôl ystyried chwyddiant). Fodd bynnag, ychwanegwyd at y gostyngiad hwn dros bob blwyddyn olynol gan arwain at ostyngiad o 25% mewn termau real (ddwywaith y lefel ddichonadwy yn ôl asesiad ACEM).

6.9 Yn ôl y cyhoeddiadau diweddaraf ynglŷn â chyllid dylid disgwyl toriadau mewn termau real hyd at y tymor seneddol nesaf, h.y. y tu hwnt i 2021. Mae setliad 2017/18 yn lleihau gallu gwario heddluoedd ymhellach oherwydd realiti cyfuniad o doriadau mewn grantiau, brigdorri, costau Yswiriant Gwladol, y Lefi Prentisiaeth ac mae dim cynnydd oherwydd chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau a chwyddiant prisiau yn arwain at doriad o bron 15% dros gyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant hyd at 2021 heb ystyried goblygiadau methodoleg ddyrannu fformiwla newydd arfaethedig ar gyfer 2018/19.

6.10 Gan ddefnyddio asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio bod gostyngiad arall o fwy na 2% y flwyddyn yn y grant yn debygol iawn rhwng 2018 a 2021.

[page 39]

Blwyddyn Ariannol	Gostyngiad Gwirioneddol fel Canran	Gostyngiad a Ragwelir fel Canran	Toriadau Arian Parod Gwirioneddol £M	Toriadau Arian Parod a Ragwelir £M
2011/12	-3.8%		-9.4	
2012/13	-5.5%		-12.2	
2013/14	-1.9%		-2.8	
2014/15	-4.8%		-8.5	
2015/16	-5.1%		-8.6	
2016/17	-0.6%		-0.92	
2017/18	-1.4%		-2.2	
2018/19		-1.8%		-2.8
2019/20		-2.2%		-3.4
2020/21		-2.6%		-4.0
Cyfanswm	-23.1%	-6.6%	-44.62	-10.2
Prif Gyfanswm			-29.7%-	54.82

Ers dechrau'r rhaglen cyni cyllidol genedlaethol, mae'r heddlu wedi colli 23.1% o arian parod a rhagwelir y bydd yn colli 6.6% arall. **Mae hyn yn cyfateb i 29.7% a thoriad arian parod o tua £55M, sy'n golygu, mewn termau real ar ôl chwyddiant o 2% y flwyddyn, doriad o fwy na 40% mewn gwariant.**

Yna, mae'n hollbwysig bod penderfyniadau lleol priodol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau heddlu cynaliadwy effeithiol dros y tymor canolig. Yr unig ddull ariannu i bob diben yn lleol yw Praesept yr Heddlu

6.11 Mae'n amhosibl asesu goblygiadau hirdymor y gostyngiad hwn ond cyfyd achos pryder ynglŷn â'r canlynol:

o Mae adnoddau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o fewn yr heddlu wedi cael eu colli.

o Mae troseddau sy'n ymwneud â'r rhyngwrwyd a throseddau twyll ar-lein gwerth bron 7.5 miliwn yn genedlaethol yn gosod galw cynyddol ar adnoddau plismona prin.

o Mae achosion o gam-drin hanesyddol a ffocws cynyddol ar bobl sy'n agored i niwed hefyd yn ychwanegu at y galw. Mae'r pwyslais ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn rhan allweddol o'n Cynllun Heddlu a Throseddu felly mae ar frig blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ond nid yw'n ddi-gost.

o Mae bygythiad cynyddol terfysgaeth ac eithafiaeth, ynghyd â'r goblygiadau i gymdeithas ryddfrydig wedi dangos bod angen gwella gallu ac adnoddau cenedlaethol ar fyrder. Bydd rhywfaint o hyn yn effeithio ar adnoddau a blaenoriaethau lleol.

6.12 Mae partneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn lleihau cyllid ym meysydd diogelwch cymunedol er mwyn diogelu cyllid ar gyfer swyddogaethau eraill. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl o'r farn na allwn ganiatáu i'r fath dueddiadau troseddu a thoriadau seiliedig ar seilos ddatblygu yn Ne Cymru. Bydd yn rhaid gwneud pob ymdrech ar y cyd â'n Partneriaid i wasgu pob diferyn ym maes lleihau troseddu er mwyn lleihau nifer y dioddefwyr a helpu dioddefwyr sy'n agored i niwed yn benodol tra'n creu ychydig o hyblygrwydd yn y dyfodol i'r heddlu a'n partneriaid.

[page 40]

6.13 Dangosir effaith gyffredinol y gostyngiadau yng nghyllid yr heddlu isod. Dengys y graff ddyraniadau arian parod yr heddlu gan y Swyddfa Gartref ers 1995/96 (bariau glas) a'r ffordd y mae'r setliadau diweddar ac arfaethedig wedi lleihau cyllid arian parod yn raddol i lefel islaw lefelau 2005/06 eisoes (saeth coch). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn termau real (ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) yn cyflwyno darlun gwahanol iawn ac mae'n dangos bod yr heddlu yn cael llai o gyllid nag a gafwyd yn 1995/96 i bob diben (saeth du). Ar yr un pryd, mae'r amgylchedd plismona presennol yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd ddau ddegawd yn ôl. Mae ein hasesiad risg lleol a'r Asesiad Cenedlaethol o Wrthderfysgaeth yn awgrymu y bydd angen twf yn adnoddau'r heddlu ar gyfer y maes gwaith hwn er mwyn ateb y galw newydd i ddiogelu pobl.

Cyllid Cenedlaethol ar gyfer Plismona

TORIADAU MEWN TERMAU REAL TORIADAU ARIAN PAROD

6.14 Mae dros ddau ddegawd o dwf yng nghyllid yr heddlu wedi cael ei ddileu heb unrhyw arwydd o welliant dros y cylch seneddol presennol na'r un nesaf.

[page 41]

7.0 CYLLID ALLANOL – SEFYLLFA GRANT HEDDLU DE CYMRU

7.1 Y flwyddyn ariannol 2017/18 yw'r **seithfed flwyddyn yn olynol** o doriadau cyllidol a chadarnhawyd bellach bod dyraniadau Heddlu De Cymru wedi lleihau £2.2M o gymharu â chyllid 2016/17.

Ers 2011/12 gwelwyd toriad o £44.7M i gyd (23.5%) yn y cyllid. O ran canran a lleihad mewn arian parod yng Nghymru dyma'r uchaf o gymharu â'r gwasanaethau cyhoeddus eraill a ariennir yn ganolog yng Nghymru.

7.2 Mae'n dod yn amlwg bellach y bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i leihau cyllid yr heddlu am weddill y tymor seneddol ar sail debyg i 2017/18. Ac mae hyn bellach yn cynnwys lleihad yn nhwf y sylfaen treth gyngor. Mae'r dyraniadau a ragwelir ar gyfer 2017 i 2021 yn gyson â'r dull gweithredu hwn ac mae'n adlewyrchu toriad arall o tua £10M yng ngrant Heddlu De Cymru hyd at 2021 (a fydd yn cael ei ddwysáu gan bwysau chwyddiant ar wariant).

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o sefyllfa ariannol y DU gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mae'n debygol bod gostyngiadau eraill mewn arian grant yn debygol iawn yn ystod y tymor seneddol dilynol, yn enwedig os bydd y Llywodraeth ar y pryd yn dymuno dileu'r diffyg cyllidebol strwythurol cenedlaethol. Felly, mae'r goblygiadau i blismona yn cynnwys gostyngiad poenus cyson mewn adnoddau a rhaglenni newid parhaus i gynnal lefelau plismona derbyniol.

7.3 Felly, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hon yn tybio'n ddarbodus y bydd gostyngiadau eraill o 0.4% y flwyddyn yn gynyddrannol yn y cyllid, o sylfaen o 1.4% yn 2017/18. Ystyrir mai'r lefelau canrannol hyn yw'r lefelau isaf i'w disgwyl a'r gwir yw, o ystyried y duedd hyd yma, y gall toriadau uwch na'r rhain, fwy na thebyg, gael eu gwireddu. Nodir y dadansoddiad canlyniadol dros y cyfnod hwn yn y tabl canlynol:

			Dangosol		
Ffynhonnell o Gyllid	2016/17 £M	2017/18 £M	2018/19 £M	2019/20 £M	2020/21 £M
Grant yr Heddlu	87.463	84.066	81.233	77.832	73.902
Grant Cynnal Refeniw/Ardreth Annomestig Genedlaethol	72.176	73.341	73.341	73.341	73.341
Cyfanswm y Grant yn Seiliedig ar Fformiwla	159.639	157.407	154.574	151.173	147.243
Cyllid Cymharol	159.639	157.407	154.574	151.173	147.243
Gostyngiad fel Canran	-0.6%	-1.4%	-1.8%	-2.2%	-2.6%
Addasiad Cyllid Gwaelodol Rheol 1	(10.129)	(12.163)	(12.163)	(12.163)	(12.163)

7.4 Mae'r ail ymgais i ddatblygu fformiwla dderbyniol ar gyfer dyraniadau cyllid yr heddlu yn mynd rhagddo a'r nod yw y caiff fformiwla newydd ei chyflwyno ar gyfer setliad 2018/19, yn amodol ar ymgynghori ystyrlon. Mae darpariaethau tampio'r fformiwla bresennol yn rhoi Heddlu De Cymru o dan anfantais sylweddol ond maent wedi parhau i fod ar waith ers degawdau er gwaethaf y gwrthwynebiadau a godwyd. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, gyda chymorth y Prif Gwnstabl, wedi rhoi tystiolaeth o'r

anghydraddoldeb a wynebwr gan Heddlu De Cymru i Weinidogion olynol. Mae Gweinidogion wedi cydnabod bod yna broblem ond nid ydynt wedi'i hunioni'n ariannol.

[page 42]

7.5 Mae'r Gweinidog dros Blismona wedi parhau i gymhwyso darpariaeth tampio (Addasiad Cyllid Gwaelodol Rheol 1) mewn perthynas â 2017/18 ac er bod hyn yn dangos cynnydd yn y cyfraniad tampio o £10M i £12.2M, mae £3.4M o'r swm hwn yn ymwneud ag addasiad technegol rhwng y Grant Cynnal Refeniw a Grant yr Heddlu. Mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i symud i ffwrdd oddi wrth ddyraniad uniongyrchol "Swm Ychwanegol Cymru" a delir i Heddlu Dyfed Powys a Heddlu Gogledd Cymru i'r Grant Cynnal Refeniw a delir gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Dyma ail flwyddyn y newid technegol hwn yn y llwybr talu. Mae swm craidd y cyfraniad tampio yn £8.8M o'r fformiwla dampio y flwyddyn o hyd, sef y swm y mae'r fformiwla yn pennu y dylem ei gael ond sy'n cael ei frigdorri oherwydd y broses o ddosbarthu toriadau'n gyfartal.

7.7 Mae'r swm hwn o £8.8M sy'n cael ei dynnu oddi wrth Heddlu De Cymru i'w ailddosbarthu ymhlith y tri heddlu arall yng Nghymru bellach wedi cael ei weithredu o un flwyddyn i'r llall ers dros ddegawd ac effaith gronnol hyn i Heddlu De Cymru yw ei fod wedi colli £74M o grant yr heddlu mewn arian fformiwla (£8.8M y flwyddyn sy'n cyfateb i 176 o Swyddogion yr Heddlu neu fwy na 300 o swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu).

8.0 ANGHYDRADDOLDEBAU CYLLIDO CYSON SY'N EFFEITHIO AR HEDDLU DE CYMRU

8.1 Mae Strategaethau Ariannol Tymor Canolig blaenorol wedi cyfeirio at nifer o feysydd lle mae Heddlu De Cymru o dan anfantais sylweddol o ran cyllido ac mae'r materion hyn yn parhau heb eu datrys yn bennaf oherwydd y methiant i ymdrin ag anghysondebau yn y fformiwla ariannu. Rydym yn ymrwymedig i geisio ateb i'r materion hyn a byddwn yn parhau i'w codi ar y lefelau uchaf er mwyn ceisio unioni'r cam.

8.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r anfantais ariannol flynyddol a wynebwr gan Heddlu De Cymru y ceir rhagor o fanylion amdani yn yr adroddiad hwn. Dengys yr asesiad bod tua £23M o anghydraddoldeb cyllido blynyddol o hyd, a fyddai'n trawsnewid plismona i'r cyhoedd yn ardal De Cymru ped ymdrinnid ag ef.

Anghydraddoldebau Cyllido sy'n Effeithio ar Heddlu De Cymru	£M	Cyfeiriad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Y Gwahaniaeth ym Mhraesept yr Heddlu yng Nghymru	6.0	Gweler adran 16 ar y praesept
Tampio'r Fformiwla Ariannu	8.8	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Addasiad Cost Ardal	4.0	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Gofynion Prifddinas	3.0	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Cyllid Seilwaith Cyfalaf	1.6	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Cyfanswm Effaith Anghydraddoldebau Cyllido	23.4	

8.3 Mae ACEM a Swyddfa Archwilio Cymru (fel adolygwyr annibynnol ein perfformiad gweithredol ac ariannol) wedi cadarnhau bod gennym drefniadau priodol ar gyfer defnyddio cyllid cyhoeddus a sicrhau Gwerth am Arian.

8.4 Rydym wedi gwella ein perfformiad yn gyson ac wedi darparu gwasanaeth heddlu effeithiol o fewn adnoddau sy'n mynd yn llai. Fodd bynnag, mae'r cyfuniad o ddegawd o doriadau i gyllid yr heddlu gyda gofynion plismona newydd a baich ychwanegol anghydraddoldebau cyllido yn her wirioneddol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen y mae'n rhaid i ni, yn anochel, eu blaenoriaethu a'u rhesymoli.

[page 43]

8.5 Awgrymodd yr ymgais gychwynnol i lunio fformiwla ariannu ddiwygiedig, y rhoddwyd y gorau iddi'n ddiweddar, y byddai toriad arall o £7M yn Nyraniad Heddlu De Cymru. Ni chydabuwyd Gofynion Prifddinas o gwbl ac yn y fersiwn derfynol o'r fformiwla arfaethedig ailgyflwynwyd yr Addasiad Cost Ardal a dynnwyd i ddechrau, a hynny'n anesboniadwy. Mae hwn yn achos pryder mawr oherwydd y disgwyliad oedd, ar ôl degawd o beidio â chymhwyso fformiwla ariannu, y byddem yn gweld y cam yn cael ei unioni i ryw raddau. Er y byddwn yn parhau i ddadlau ein hachos, y dybiaeth fwyaf darbodus ar hyn o bryd yw y dylid rhagweld y bydd newidiadau yn y fformiwla ariannu yn debygol o arwain at doriad arall mewn termau real yng nghyllid Heddlu De Cymru

[page 44]

9.0 CYLLID REFENIW 2017/18 A RHAGOLYGON REFENIW HYD AT 2020/21

9.1 Mae amcanestyniadau o'r Cyfrif Refeniw gan dîm cyllid Heddlu De Cymru drwy gydol cyfnod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 wedi bod yn hynod gywir a chyson. Yn yr un modd, mae arbedion y Cynllun Gwerth am Arian wedi cael eu hystyried yn ofalus a'u herio'n gadarn, sydd wedi sicrhau bod y Cynllun Gwerth am Arian wedi cael ei gyflawni o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Strategaeth Ariannol gyfredol i lenwi bylchau yn y gyllideb wedi bod yn gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd rhyddhau arian parod cylchol a chynnydd mesuredig ym mhraesept yr heddlu a phrofwyd bod y strategaeth hon yn effeithiol a bydd yn parhau i gael ei defnyddio. Cefnogir y dull gweithredu hwn gan sylwadau ACEM bod systemau rheoli ariannol yn gryfder yn Heddlu De Cymru.

9.2 Ariennir Heddlu De Cymru drwy gyfuniad o grantiau canolog a phraesept lleol yr heddlu. Mae cyfran y cyllid o braesept yr heddlu yn amrywio ledled Cymru a Lloegr o lai na 14% i fwy na 54% o gyfanswm cyllid yr heddlu. Mae gan Heddlu De Cymru un o'r praeseptau heddlu isaf yng Nghymru ac mae'r cyllid lleol fel cyfran o gyfanswm ei gyllid yn cyfrif am 38%.

9.3 Crynhoir yr amcanestyniadau ariannol tymor canolig wedi'u hadnewyddu rhwng 2017 a 2021 isod: Cyfanswm y bwlc cyllidebol hyd at 2017/18 cyn praesept yr heddlu yw £78M (yn seiliedig ar y gostyngiadau gwirioneddol yn nyraniadau grant canolog yr heddlu a gofynion gwario hysbys). Mae'r bwlc hwn o £78M yn cael ei lenwi drwy incwm ychwanegol o braesept yr heddlu, sef £30M a tharged Cynllun Gwerth am Arian hyd at fis Mawrth 2018 o £48M. Ar ôl sicrhau arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian parod

gwerth £45M erbyn mis Mawrth 2017 ceir targed pellach o hyd o sicrhau £3.1M o arbedion er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2017/18.

Yn y bôn, am bob cynnydd o £1 ym mhraesept yr heddlu gwneir gwelliannau cost ac arbedion gwerth £1.60 yn fras er mwyn lleihau'r effaith ar drethdalwyr lleol i'r eithaf.

CYFRIF REFENIW CRYNO	CSR 10					CSR 2016				
	2011/12 £M	2012/13 £M	2013/14 £M	2014/15 £M	2015/16 £M	2016/17 £M	2017/18 £M	2018/19 £M	2019/20 £M	2020/21 £M
Gwariant Refeniw Net (Cyn Gwerth am Arian)	272	274	285	290	294	304	311	318	324	327
Grantiau allanol	(183)	(170)	(174)	(169)	(161)	(160)	(157)	(155)	(151)	(147)
Sylfaen y praesept	(71)	(72)	(72)	(72)	(73)	(74)	(75)	(75)	(76)	(77)
Cyfanswm yr Adnoddau	(254)	(242)	(246)	(241)	(233)	(234)	(232)	(230)	(227)	(224)
Gwariant Heb ei Ariannu Cronnol	18	32	39	49	61	70	78	88	97	104
Cynnydd yn y praesept	(4)	(7)	(13)	(17)	(22)	(25)	(30)	(36)	(41)	(47)
Arbedion Cynllun Gwerth am Arian sydd eu hangen	15	24	27	32	39	45	48	53	55	56
Cynllun Gwerth am Arian Presennol	19	24	27	32	39	45	48	49	49	49
Cynllun Gwerth am Arian Net (Gwarged)/Diffyg	(4)	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)	0	4	6	7

Mae'n bwysig nodi, wrth i'r cyllid ostwng (£2.2M), bod chwyddiant wedi cynyddu, sy'n ychwanegu at y pwysau tuag i fyny ar ofynion gwariant ac mae'r prif godiadau mewn costau fel a ganlyn:

- Chwyddiant prisiau cyffredinol a dyfarniadau cyflog £2.2M,
- Cynnydd yng nghyfraniad y cyflogwr at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £2M,
- Lefi prentisiaeth newydd o £1M
- Cam 1 Buddsoddiad Bwlch Agored i Niwed £2.5M.

[page 45]

9.4 O ystyried yr arwyddion clir y bydd cyni cyllidol yn parhau, rhagwelir bwlch cyllidebol arall o £26M y tu hwnt i 2017/18 sy'n cwmpasu'r cyfnod o dair blynedd 2017-2021 (£104M llai £78M), y nodwyd arbedion ac incwm o £18M yn ei erbyn, sy'n gadael toriadau nas cynlluniwyd o bosibl gwerth £7M. Mae hyn yn arwain at fwch o fwy na £101M i gyd ers i'r mesurau cyni cyllidol presennol gael eu cyflwyno, sef gostyngiad o draean i bob diben mewn adnoddau dros y cyfnod a dangosir hyn isod.

Gofyniad Sylfaenol
Arian grant
Arian grant a'r Praesept

Bwlch £78M
Gwerth am Arian £48M
PRAESEPT £30M

Bwlch £104M
Gwerth am Arian £57M
Praesept £47M

9.5 Dangosir yr amcanestyniadau ariannol tymor canolig manwl ar gyfer 2017 i 2021 yn **Atodiad 6** ac fe'u crynhoir isod o dan ddosbarthiadau incwm a gwariant bras: Cyfanswm y bwlch cyllidebol yn 2017/18 cyn praesept yr heddlu yw £8.1M ac mae'n cael ei leihau i £3.1M gan gyfraniad arfaethedig (5%) praesept yr heddlu.

CYFRIF REFENIW CRYNO	2016/17 £M	2017/18 £M	2018/19 £M	2019/20 £M	2020/21 £M
Cyflogeion	235.1	239.7	244.4	247.5	250.0
Staff Anuniongyrchol	1.9	1.9	4.0	5.0	5.1
Safleoedd	9.7	10.4	10.6	10.9	11.1
Cludiant	4.9	5.2	5.4	5.5	5.6
Cyflenwadau a Gwasanaethau	18.9	19.9	20.4	21.0	21.5
Gwasanaethau Asiantaeth a Chytundebol	9.4	10.1	10.3	10.6	10.8
Costau Cyllido Cyfalaf	5.8	10.6	10.6	10.6	10.6
Gwariant Gros	285.7	297.9	305.7	311.0	314.8
Llai incwm a grantiau	(26.8)	(32.0)	(32.0)	(32.0)	(32.0)

penodol					
Gwariant Net	258.9	265.9	273.7	279.0	282.7
Grantiau allanol	(159.6)	(157.4)	(154.6)	(151.2)	(147.2)
Praesept yn seiliedig ar 5% y flwyddyn	(99.3)	(105.4)	(111.2)	(117.3)	(123.8)
Cyfanswm yr Adnoddau	(258.9)	(262.8)	(265.8)	(268.5)	(271.1)
Gwariant Heb ei Ariannu Cronnol 2016/17 ymlaen	0.0	3.1	7.9	10.5	11.7

[page 46]

9.6 Nodir cysoniad cynhwysfawr o'r gofynion rhwng y ddwy flwyddyn ariannol 2016/17 a 2017/18 yn **Atodiad 7** gyda dadansoddiad pellach o'r newidiadau yn y gyllideb refeniw yn **Atodiad 8**. Dengys hyn sut mae'r diffyg cyllido o £8.1M yn codi, yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol.

a) Dyfarniadau Cyflog a Chwyddiant

Mae dyfarniadau cyflog ar gyfer 2017/18 wedi cael eu cynyddu yn unol â Datganiad Hydref y Canghellor ym mis Tachwedd 2015 sy'n nodi y byddai cyllid dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn cynyddu 1% ar gyfartaledd drwy gydol cyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Bydd y setliad gwirioneddol yn amodol ar gynigion y cyrff adolygu. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio'r cynnydd cyflog canlynol ac mae'n dangos cyfraddau chwyddiant cyfatebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer MPM a MPD yn y drefn honno.

Dyfarniadau Cyflog a Chwyddiant					
		Swyddogion yr Heddlu %	Staff yr Heddlu %	Chwyddiant – MPM y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol %	Chwyddiant – MPD y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol %
Blwyddyn Ariannol	2010/11	2.6	2.6	4.8	3.7
	2011/12	1.1	1.1	4.8	4.2
	2012/13	-	-	3.1	2.7
	2013/14	0.6	0.6	2.7	2.0
	2014/15	1.0	1.0	1.6	0.5
	2015/16	1.0	1.0	3.2	2.0
	2016/17	1.0	1.0	2.0	1.0
	Cyfanswm	7.3	7.3	22.2	16.1
	2017/18	1.0	1.0	3.2	2.3
	2018/19	1.0	1.0	3.5	2.5
	2019/20	1.0	1.0	3.2	2.1
	2020/21	1.0	1.0	3.1	2.0

Mae'n amlwg o'r tabl uchod bod y cyfnod estynedig o gyfyngu ar gyflogau yn y sector cyhoeddus ac erydu cyflogau drwy chwyddiant wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar gyflog net staff sydd wedi'i dwysáu gan y cynnydd mewn cyfraniadau

Pensiwn ac Yswiriant Gwladol sy'n ychwanegu at y pwysau ac yn arwain at hawliadau cyflog uwch gan gyrrff cynrychioliadol staff.

Mae gofyniad cyllideb 2017/18 yn cydnabod y gofynion chwyddiannol penodol mewn perthynas â gwasanaethau cytundebol yn ogystal â chynnydd chwyddiannol cyffredinol o 2.% i dargedau gwariant ac incwm.

b) Pensiynau ac Yswiriant Gwladol

Mae Adolygiad Actiwari'r Llywodraeth wedi dod i ben mewn perthynas â chyfraddau cyfraniadau swyddogion yr heddlu ac er bod cyfradd sylfaenol y cyflogwr wedi gostwng o 24.2% i 21.3%, mae'r trefniadau cyfrifyddu diwygiedig cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol o hyd i ni gynnal cyllideb ar y lefel uwch, gan fod yr arbedion yn dal i gael eu cadw gan y llywodraeth.

Cynhaliwyd adolygiad actiwaraidd bob tair blynedd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2016 ac mae hyn yn nodi'r cyfraddau cyfraniadau angenrheidiol a'r taliadau cyfalaf hyd at a chan gynnwys 2019/20. Mae rhwymedigaethau cynyddol ac enillion is wedi cael effaith sylweddol. **Y cynnydd a nodwyd yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Heddlu De Cymru yw 3.2% ac mae hyn yn cyfateb i tua £2M o gostau ychwanegol.**

[page 47]

c) Swyddogion a Staff Cyflogedig yr Heddlu

Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu cyfrifiadau sylfaen sero ar gyfer yr holl staff a swyddogion sy'n cael cyflog. Mae'r sylfaen sero yn sicrhau darpariaeth gyllidebol briodol ar gyfer pob unigolyn yn seiliedig ar ei hawliadau penodol, gan gynnwys cynyddrannau ac arbedion cost drwy unigolion sy'n gadael y sefydliad. Gan ddefnyddio'r cyllidebau sylfaen sero diwygiedig, caiff yr holl gyfrifiadau o arbedion posibl o ganlyniad i ostyngiad mewn lefelau staffio eu cyfrifo ar sail costau real er mwyn sicrhau cywirdeb gyllidebol.

Mae cyllidebau a ragwelir ar gyfer 2017/18 ymlaen yn adlewyrchu'r uchelgais ddatganedig i symud tuag at y targed o ariannu 3,000 o swyddi swyddogion yr heddlu, gyda darpariaeth gyllido ar gyfer 50 o swyddogion heddlu ychwanegol a 33 o swyddi staff yr heddlu er mwyn helpu i ddechrau mynd i'r afael â'r risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed. Fel y nodwyd yn flaenorol, amcangyfrifir bod angen cyfanswm o 147 o swyddi swyddogion a staff yr heddlu fel y'i dangosir yn y tabl isod:

Ffocws Gweithredol	Swyddogi on CALI	Y Staff CALI	Cyfanswm CALI	Cyfanswm £'000
Cam-drin Domestig	15		15	743
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	24	10	34	1,574
Troseddau Rhywiol Difrifol	44	9	53	2,486

Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd	14	6	20	932
Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar		8	8	283
Oedolion sy'n Agored i Niwed	8	1	9	432
Pobl Ar Goll	8		8	396
Cyfanswm	113	34	147	6,846

Mae nifer staff yr heddlu hefyd yn adlewyrchu 67 o swyddi i sefydlu swyddogaeth Mynegeio Cenedlaethol a ariennir yn llawn gan y Swyddfa Gartref ac sy'n newyddion i'w groesawu i'r economi leol o ystyried y crebachu blaenorol yn nifer y staff. Mae Atodiad 12 yn nodi'r niferoedd yn fanwl.

9.7 Hefyd, ceir newidiadau o ran proffesiynoli'r agenda blismona. Mae fframwaith addysgol newydd yr heddlu yn cyflwyno nifer o gymwysterau wedi'u hachredu ar lefel lawer uwch na'r hyn a welwyd yn hanesyddol. Gan ddechrau gyda chymwysterau safon gradd i gwnstablaid newydd hyd at gymwysterau safon meistr i Uwch-arolygwyr. Mae hyn yn gofyn am fwy o fewnbwn gan y sefydliad yn nhermau addysg ac asesu ac, yn anochel, mae iddo oblygiadau ariannol gwerth £27,000 fesul swyddog newydd yn ôl yr amcangyfrif, gan esgor ar oblygiadau cost blynyddol o £3.2M pan gaiff ei weithredu'n llawn. Nid oes unrhyw ffrwd ariannu i ddigolledu heddluoedd yng Nghymru am hyn. Yn Lloegr, mae'r cynllun yn gymwys ar gyfer cyllid y cynllun prentisiaeth drwy'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn yr Adran Addysg.

[page 48]

10.0 Cronfeydd Arloesedd a Thrawsnewid y Swyddfa Gartref

10.1 Sefydlodd yr Ysgrifennydd Cartref Gronfa Arloesedd yr Heddlu yn ystod 2013/14 drwy ddarparu swm cychwynnol untro o £20M. Yna cafodd y swm hwn ei gynyddu i £50M yn 2014/15 ond cafodd ei frigdorri o gronfa graidd yr heddlu. Cafodd y gronfa ei chynyddu eto i £70M yn 2015/16 drwy frigdorri cronfa graidd yr heddlu unwaith eto, ond yn 2016/17 dychwelodd lefelau brigdorri'r gronfa i £55M.

10.2 O 2017/18, dim ond yr ymrwymadau gweddilliol a gaiff eu hariannu wrth i'r Gronfa Arloesedd gael ei disodli gan Gronfa Drawsnewid a fydd unwaith eto yn cynnwys cyllid wedi'i frigdorri o gronfa graidd yr heddlu, sef £175m ac sy'n gyfuniad o'r cyllid Arloesedd a Thrawsnewid blaenorol.

10.3 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cyflwyno ceisiadau sylweddol a llwyddiannus ar gyfer pob cylch ac wedi sicrhau cyllid mewn perthynas â 2016/17 fel a ganlyn:

- £210k ar gyfer lleihau troseddu ac aildroseddu ymhlith grwpiau 18-25 oed gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- £590k ar gyfer y Ganolfan Tri Gwasanaeth – er mwyn creu ystafell reoli gydweithredol i Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ogystal â desg glinigol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru gyda'r

posibilrwydd o fod yn gartref i wasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu a Galw Iechyd Cymru. Y prosiect hynod uchelgeisiol hwn sydd wedi cael y dyraniad unigol mwyaf o gyllid arloesedd, sef £3.5M gyda £1.6M gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i fynd yn fyw o ran elfen yr ystafell reoli ar y cyd erbyn mis Mawrth 2017.

- £211k i gyflogi eiriolwyr plant i helpu mewn achosion posibl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.
- £342k ar gyfer y prosiect Ymyriadau Cynnar mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i geisio nodi a lliniaru canlyniadau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- £230k ar gyfer cais gan Gwmni TGCh yr Heddlu am brosiect mewn perthynas â thrwyddedu troseddwy (IDIOM), gyda'r Comisiynydd fel y swyddog arweiniol a enwir. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol a fydd yn gwella cydweithio rhwng yr heddlu, y gwasanaeth prawf a rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol ac mae'n adlewyrchu cyfraniad De Cymru i flaenoriaethau cenedlaethol yn ogystal â blaenoriaethau lleol.
- £130k fel partner â Sussex ym mhrosiect DRIVE i weithio gyda'r rhai sy'n cyflawni trais domestig a dioddefwyr trais domestig.

Mae proses y Gronfa Arloesedd wedi bod yn anhyblyg ac mae'r broses gymeradwyo wedi bod yn annelwig.

10.4 2016/17 oedd y flwyddyn olaf ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Arloesedd, ond caiff ymrwymadau ar gyfer 2017/18 eu cyflawni. Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi bod yn llwyddiannus yng nghylch ymgeisio cyntaf Cronfa Drawsnewid yr Heddlu sydd wedi cymryd lle'r Gronfa Arloesedd gyda'r ceisiadau canlynol:

[page 49]

o **WISDOM** (Prosiect Rheoli Troseddwy'r Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru). Mae'r prosiect yn gydweithrediad rhwng pedwar heddlu Cymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gydweithredu i nodi'r rhai sy'n achosi'r risg, y bygythiad/y niwed mwyaf, eu hasesu a'u rheoli mewn 'amser real fel troseddwy'r, a thrwy hyn atal troseddau difrifol a diogelu dioddefwyr. Dyfarnwyd cyllid o £490k yn 2016/17 a £885k yn 2017/18

o **Adnabod Wynebau** – Mae'r rhaglen hon yn cydweddu'n naturiol â rhaglen FUSION ac yn rhoi adnoddau newydd er mwyn helpu i nodi unigolion o ddiddordeb yn y gwaith o atal a chanfod troseddau. Fel yr heddlu arweiniol cenedlaethol byddwn yn ceisio defnyddio technoleg Adnabod Wynebau yn ystod rownd derfynol Cynghair Pencampwyr UEFA er mwyn ychwanegu at y ffordd rydym yn plismona Digwyddiadau Mawr ar hyn o bryd. Ceir nifer o ddatblygiadau eraill ynglŷn â phobl sydd ar goll, cadarnhau pwy yw unigolion yn erbyn cofnodion dalfeydd, paru unigolion drwy deledu cylch cyfyng a chyfryngau digidol eraill o olygfeydd troseddau yn erbyn cofnodion dalfeydd. Dyfarnwyd £1.2M o gyllid yn 2016/17 a £0.8M ar gyfer 2017/18.

[page 49]

11.0 CYLLIDEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno ar broses lywodraethu sy'n sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl adnoddau digonol i fodloni ei ofynion gweithredol. Caiff y rhan fwyaf o'r gyllideb ei dirprwyo i'r Prif Gwnstabl. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cadw dyraniad uniongyrchol ac adnoddau rheoli yn y meysydd canlynol (a nodir yn fanwl yn **Atodiad 9**) er mwyn ymgymryd â'r agweddau hynny ar y Cynllun Heddlu a Lleihau Throseddau sydd y tu hwnt i gwmpas plismona gweithredol, ond, mewn gwirionedd, ceir cysylltiad agos yn aml ac mae'r Comisiynydd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl a'i dîm ar fentrau hirdymor cynaliadwy i leihau ac atal troseddau.

11.1 Parhad Prosiectau Arloesedd a Ariennir

Er bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi bod yn llwyddiannus gyda chyfres o geisiadau i Gronfa Arloesedd yr Heddlu (gweler isod), daw cyllid arloesedd ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn heblaw Ymyriadau Cynnar i ben ym mis Ebrill 2017 ac felly mae cyllideb ddigonol wedi'i neilltuo o fewn costau rheoli Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn galluogi'r canlynol i barhau:

- Trais yn erbyn Menywod a Merched
- Troseddau Treisgar
- Atal Troseddau ac Aildroseddau ymhlith pobl 18 - 25 oed - cyllid parhad £370K
- Ymyriadau Cynnar – Arian cyfatebol £220K.

11.2 Cronfa Diogelwch Cymunedol

Peidiodd cyllid ar gyfer Diogelwch Cymunedol â bod yn grant penodol o 2014/15, pan ddaeth yn rhan o brif Grant yr Heddlu. Felly, nid yw'r arian ar gyfer diogelwch cymunedol wedi cael ei ddiogelu o gwbl gan y Swyddfa Gartref ac roedd yn wynebu'r un toriad canrannol o bosibl â chyllideb gyffredinol yr Heddlu. Fodd bynnag, penderfynodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl y bydd y gyllideb Diogelwch Cymunedol yn parhau i gael blaenoriaeth. Go brin y gallwn ofyn i sefydliadau partner sy'n wynebu gostyngiadau mawr barhau i gyfrannu at ddiogelwch cymunedol a gweithio mewn partneriaeth oni ddangoswn ein hymrwymiad clir a pharhaus fel mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ei wneud.

[page 50]

Mae'r gronfa hon yn werth £3.3M i gyd, y mae'r elfen fwyaf ohoni yn werth £2.3M sydd wedi ariannu'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau flaenorol, a weithredwyd ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei aildendro mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Carchardai i greu gwasanaeth newydd sy'n cynnig amrywiaeth o ymyriadau i sylfaen cleientiaid lawer ehangach nag a fu'n rhan o'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau. Daeth y contract yn weithredol o 1 Ebrill 2016, gyda gwerth blynyddol cyfun o £3.5m. Mae'r llwyth achosion chwarterol yn fwy na 1,700 o droseddwyd a phob chwarter mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â thros 3,000 o bobl sy'n cael eu cadw yn ein dalfeydd.

Caiff gweddill yr arian ei ddosbarthu drwy Grantiau Heddlu a Lleihau Troseddu sy'n allweddol i hwyluso cydweithio â phartneriaid strategol, megis llywodraeth leol, ac sy'n galluogi'r Comisiynydd i sicrhau bod ei flaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu yn cael eu hadlewyrchu mewn amcanion partneriaeth ehangach. Fel arfer, mae Grantiau Heddlu a Lleihau Troseddu yn helpu i gefnogi Gwasanaethau Troseddwy'r Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

11.3 Gwasanaethau Dioddefwyr

Trosglwyddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o wasanaethau dioddefwyr i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyda'r gwasanaeth yn cael ei ariannu'n llawn am y tro cyntaf yn 2015/16. Y dyraniad grant ar gyfer 2016/17 oedd £1.5m ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi'r un dyraniad arian parod yn ddiweddar ar gyfer 2017/18. Defnyddir y grant i gomisiynu nifer o wasanaethau i ddioddefwyr, gan gynnwys atebion cyfiawnder adferol. Rhoddir y gyfran fwyaf o'r grant (£0.76m) i Cymorth i Ddioddefwyr sy'n ymgysylltu â phob dioddefwr trosedd yn Ne Cymru sy'n gofyn am gael cysylltiad. Mae'r gwasanaethau mwy arbenigol, e.e. i ddioddefwyr troseddau ifanc yn cael eu comisiynu i ategu'r gwasanaeth hwn a ddarperir ledled ardal yr heddlu.

11.4 Cyllideb Refeniw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cytunodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ffordd o ymdrin â'r trefniadau cyfansoddiadol anarferol a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2011. Nid yw Heddlu De Cymru yn endid cyfreithiol ar wahân mwyach ond mae'n cynnwys pawb – gyda dau unigolyn, y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, yn cael eu diffinio'n "gorfforaeth undyn" fel ei gilydd. Yn ein hachos ni, cytunodd y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd y byddai angen i bob cyflogai ddarparu gwasanaeth a chymorth i'r ddau, ni waeth pwy oedd y cyflogwr. Ar y sail honno cytunwyd y byddai'r mwyafrif helaeth o'r staff yn cael ei "gyflogi" yn ffurfiol gan y Prif Gwnstabl o dan gam 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Y Comisiynydd yw'r cyflogwr ar gyfer tîm cymorth, polisi a phrosiectau. Mae'r tîm hwn yn cynnwys Dirprwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Pennaeth y Staff, y Trysorydd a'u staff cymorth. Mae rolau craidd y tîm hwn yn cynnwys:

[page 51]

- Datblygu'r Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu a monitro cynnydd;
- Cydgysylltu â'r Prif Gwnstabl a'i dîm rheoli;
- Cydberthnasau partner, yn enwedig mentrau sy'n targedu canlyniadau y cytunwyd arnynt gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel y dangoswyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn;
- Gweinyddu'r materion hynny lle mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb cyfreithiol uniongyrchol e.e., y gyllideb gyffredinol, contractau ac ystadau;
- Goruchwyllo cwynion a cheisiadau priodol am wybodaeth
- Datblygu polisiâu
- Cyflawni prosiectau penodol

11.5 Adolygodd y Comisiynydd strwythur ei dîm ar ôl etholiad 2016 er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol i gyflawni rhai o'r prosiectau sy'n sail i'r Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu a'r amrywiaeth eang o ymrwymadau partneriaeth sy'n bodoli yn Ne Cymru. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yw £1.6M, sef cynnydd o £521k o gymharu â 2016/17 (gweler Atodiad 9 am fanylion). Mae'r gyllideb gynyddol yn cynnwys digon o adnoddau i sicrhau y gall mentrau a ariannwyd yn flaenorol gan Gronfa Arloesedd yr Heddlu, yn enwedig Trais yn erbyn Menywod a Merched a Throseddau Treisgar, barhau,

[page 52]

12.0 RHAGLEN GYFALAF

STRATEGAETH GYFALAF

12.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn seiliedig ar Systemau Ystadau, Cludiant a Gwybodaeth tymor canolig cynhwysfawr a Strategaethau Technoleg sy'n cael eu hadnewyddu'n rheolaidd ac sydd wedi cael eu blaenoriaethu i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gynnal y seilwaith cyfalaf y mae gwasanaethau plismona effeithiol yn hynod ddibynnol arnynt.

O ystyried y gyfundrefn ddarbodus, mae'n bwysig paratoi datganiad a chymeradwyo Strategaeth Gyfalaf. Bwriedir i'r datganiad ddisgrifio sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar y cyd yn pennu'r rhaglen o fuddsoddiadau cyfalaf, gan gynnwys sut y caiff blaenoriaethau allweddol eu nodi. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn bwysig oherwydd:-

- a) Mae'n hyrwyddo'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfalaf drwy sicrhau bod y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn gyson iawn â blaenoriaethau allweddol;
- b) Mae'r asesiad ohoni gan ACEM ac Archwilwyr Allanol yn cyfrannu at broses rheoli ariannol a gweithredol yr heddlu.

12.2 Amcan y Strategaeth Gyfalaf yw:

Sicrhau y darperir heddlu effeithiol drwy drefniadau rheoli seilwaith cynaliadwy sydd wedi'u cysoni â'r blaenoriaethau plismona.

Yr amcanion allweddol ar gyfer y tair prif elfen o'r seilwaith yw:

- Cludiant – Cerbydau sy'n addas at y diben ac sy'n bodloni gofynion gweithredol o ran argaeledd a gweithrediad.
- Ystad – Amgylchedd gweithredu diogel, cynnes a chlyd sy'n addas ar gyfer plismona effeithiol.
- Technoleg – Llwyfan technoleg sy'n hwyluso gweithio ystwyth/symudol gyda systemau gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn cael eu darparu lle mae eu hangen.

Caiff gofynion manwl Cludiant, Technegol ac Ystad eu llywio gan y canlynol:

- Cynllun Rheoli Asedau sy'n nodi'r gofynion i adnewyddu asedau yn y tymor canolig.
- Monitro'r Rhaglen Gyfalaf yng nghyd-destun y fframwaith ariannol y cytunwyd arno er mwyn sicrhau y caiff prosiectau cyfalaf eu cyflawni.
- Seminarau Cynllunio Priodol er mwyn sicrhau bod gofynion yn berthnasol
- Y gyfundrefn Rheoli Perfformiad;
- Y Strategaethau Rheoli Risg.

Yn y cyd-destun hwn mae gan yr heddlu raglen adnewyddu asedau deng mlynedd ac mae'n adolygu ei ofynion bob blwyddyn yn erbyn y sylfaen asedau a'r angen gweithredol sy'n newid. Mae'r strategaeth ystad deng mlynedd wrthi'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd yn sgil ymgynghoriad eang ar y model plismona ar gyfer y dyfodol. Mae'r llwyfan technoleg yn symud i alluogrwydd symudol integredig, ac mae'r rhaglen gludiant yn cael ei chysoni â gofynion safonol cydweithredol cenedlaethol ar gyfer cerbydau.

Rhaglen Tymor Canolig 2017 i 2021

[page 53]

12.3 Daw cyllid y rhaglen gyfalaf o dair prif ffynhonnell (Grant Cyfalaf, Benthycia â Chymorth a Chyfraniadau Refeniw i Gyfalaf) fel y dangosir isod. **Cafwyd gwybod am y grantiau cyfalaf ac maent yn adlewyrchu gostyngiad o 68% ers 2011 (o £3.1M i £1.0M). Mae hyn yn parhau â thuedd anfuddiol o symud cyllid ar gyfer seilwaith oddi wrth grant cyfalaf uniongyrchol i'r Cyfrif Refeniw.**

O ganlyniad, daw'r rhan fwyaf o'r gwariant cylchol o gyllid refeniw ac mewn perthynas â 2017/18, drwy swm ychwanegol o £4.8M i ddarparu cyfanswm o £10.5M ar gyfer adnoddau cyfalaf cylchol

12.4 Mae gwariant y Rhaglen Gyfalaf Tymor Canolig wedi'i ddatblygu yn unol â strategaethau cymeradwy ar gyfer Ystadau, TGCh a'r Fflyd. Mae rhaglen wedi'i chostio'n llawn yn seiliedig ar y cyllid cyhoeddedig ar hyn o bryd wedi'i chynnwys ar ffurf gryno yn **Atodiad 10** a cheir crynodeb arall isod:

Maes	ALLDRO 2016/17 A RAGWELIR	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	Cyfanswm 4 Blynedd
	£M	£M	£M	£M	£M	£M
Cynnal Seilwaith						
Gwaith Hanfodol a Deddfwriaethol Ystadau	2	3	2	3	2	10
Fflyd	2	2	2	2	2	8
Gwasanaethau	1	2	4	2	3	11

Gwybodaeth						
Arall	1	0	0	0	0	0
Prosiectau Untro i'w Hariannu'n Fewnol						
Ystadau	2	8	12	10	14	44
Gwasanaethau Gwybodaeth	1	3	5	3	0	11
Cyfanswm y Prosiectau Untro i'w Hariannu'n Fewnol	3	11	17	13	14	55
Prosiectau a Gefnogir gan Gyllid Allanol						
Ystadau - Prosiectau a Ariennir yn Allanol	9	0	0	0	0	0
Gwasanaethau Gwybodaeth - Prosiectau a Ariennir yn Allanol	3	5	2	2	2	11
Cyfanswm y Prosiectau a Gefnogir gan Gyllid Ariannol	12	5	2	2	2	11
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF	22	23	27	21	23	94
Cyfanswm y Cyllid sydd Ar Gael	27	27	18	19	10	74
Balans Cronfeydd yn ystod y flwyddyn	5	4	-9	-2	-13	
Diffyg Cyllid Cyfalaf Cronnol		4	(5)	(7)	(20)	(20)

Mae'n bwysig nodi nad yw gofynion 2018-2021 wedi'u hariannu'n llawn ar hyn o bryd.

[page 54]

12.5 Ystyrir bod yr elfennau sy'n ymwneud â chynnal seilwaith yn wariant cyfalaf hanfodol na ellir ei osgoi ac maent yn cynnwys:-

- Yr Arolygon o Gyflwr Eiddo (asesiad proffesiynol annibynnol) ar waith hanfodol i sicrhau bod eiddo'r heddlu yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch a gofynion gweithredol deddfwriaethol eraill. Mae'r hyn sy'n fforddiadwy ar hyn o bryd yn cyfyngu gwaith i safon 'diogel, cynnes a chlyd'. Mae gwaith gosod gwifrau/tynnu asbestos a gwaith peirianeg fecanyddol hefyd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Mae'r broses ohirio yn parhau i ychwanegu at yr ôl-groniad o waith angenrheidiol ac mae hyn yn cyfateb i £8M o wariant heb ei ariannu

sydd, yn ogystal â'r diffyg rhaglen gyfalaf gwerth £20M uchod, yn rhoi cyfanswm diffyg cyllid cyfalaf o £28M.

- Aethpwyd ati i leihau'r Rhaglen Adnewyddu Cerbydau drwy ddefnyddio IR3+ ac mae bellach dros 20% yn is. At hynny, rydym hefyd yn cymryd rhan mewn Safon Fflyd Genedlaethol sy'n arwain at gostau caffael is ar gerbydau patrol yn benodol. Mae'r fflyd graidd yn parhau i gyrraedd safon dderbyniol ac mae'r cylch adnewyddu yn parhau er mwyn sicrhau gallu ymateb gweithredol effeithiol gan wasanaeth cludiant effeithlon ac effeithiol.

- O ran Gwasanaethau Gwybodaeth, mae Heddlu De Cymru wedi symud yn gyflym i allu data symudol ychwanegol (ar ôl cais llwyddiannus i gael cyllid arloesed) ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni uchelgais y Person Cywir, y Lle Cywir, ar yr Adeg Gywir, gyda'r mynediad priodol i systemau cudd-wybodaeth yr heddlu sy'n ei gwneud yn bosibl i fwy o waith gael ei wneud o bell, a fydd hefyd yn gwella gweladwyedd. Mae bellach yn amlwg bod y model gweithredol newydd gwell yn ddibynnol iawn ar ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaeth plismona sy'n bodloni disgwyliadau cyhoeddus. Mae cylch oes byr technoleg yn golygu bod angen ei hadnewyddu'n rheolaidd ac mae'r rhaglen yn adlewyrchu'r gofynion hyn. Mae costau prosiectau untro a ariennir yn adlewyrchu cost cyflwyno Rhwydwaith Cyfathrebu Gwasanaethau Brys newydd yn lle Airwave.

- Mae'r rhaglen gyfalaf tymor canolig yn cydnabod y buddsoddiad sydd ei angen mewn perthynas â'r Strategaeth Ystadau a phroblemau hysbys i'w datrys, gan gynnwys y cyfleuster lles newydd cymeradwy yn y pencadlys a nifer o adeiladau gweithredol sy'n destun achosion busnes pellach (gan gynnwys cyllid) o ran maes saethu arfau tanio newydd, canolfan hyfforddiant a man storio yn ogystal â gorsaf â dalffa yn uned reoli sylfaenol y Gorllewin (er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd safonau presennol dalfeydd). Mae diffyg o £20M i ariannu'r rhaglen dros y tymor canolig (gan gynnwys tybiaethau ynglŷn ag incwm gwaredu adeiladau a chyfraniadau partneriaid gwerth £15M). Bydd y strategaeth yn ceisio tyfu'r gronfa buddsoddiad cyfalaf wrth gefn er mwyn cau'r bwlch hwn wrth i gyfleoedd anghylchol godi dros y tymor canolig.

12.6 Mae'n bwysig nodi hefyd bod lefel cyllid cynnal seilwaith 'craidd' yn hynod isel i sefydliad o faint Heddlu De Cymru a bydd angen parhau i'w reoli mewn ffordd ofalus wedi'i blaenoriaethu. Cydnabuwyd hefyd y bydd y system Airwave bresennol (system cyfathrebu radio'r heddlu) yn mynd yn ddarfodedig yn 2018/19 a chaiff ei disodli gan y Rhwydwaith Cyfathrebu Gwasanaethau Brys. Fe'n cynghorir y caiff costau darparu'r gwasanaeth eu talu drwy gyllid canolog ond y bydd angen i'r dyfeisiau eu hunain gael eu caffael a'u hariannu'n lleol. Yr amcangyfrifon presennol yw y bydd angen cyllid o £5.2M sy'n rhan o fwllch ariannu'r rhaglen gyfalaf, sef £20M.

[page 55]

12.7 Ar ôl cwblhau cyfleusterau'r ddalffa, y Cyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd a'r Storfa Eiddo yn hynod lwyddiannus, mae'r cyfleuster adfer ar ôl trychineb yn ogystal â'r ganolfan tri gwasanaeth a phrosiect ad-drefnu'r pencadlys (sy'n mynd rhagddo) bellach wedi mynd â'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn a gronnwyd yn flaenorol

at y diben hwn. Mae'r grant cyfalaf allanol bellach wedi gostwng i £1M yn erbyn gofyniad o £7M, felly mae adnoddau mewnol bellach wedi'u cyfyngu i'r rhaglen gylchol graidd yn unig.

12.8 Mae'r cyllid ar gyfer ceisiadau cyfalaf newydd yn rhoi mwy o bwysau ar Gyllid Refeniw ac o ganlyniad mae bwlch ariannu'r rhaglen gyfalaf yn cael ei ychwanegu at fwlch y Cynllun Gwerth am Arian (Atodiad 11)

[page 56]

13.0 POLISI RHEOLI TRYSORLYS A BENTHYCA DARBODUS

13.1 Pennir gofynion benthyca Heddlu De Cymru drwy gymhwyso'r Cod Darbodus sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

13.2 Crynhoir y dangosyddion darbodus isod a cheir y manylion yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys (a atodir yn Rhan B)

Rhif	DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER DARBODRWYD	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
		Amcangyfrifedig	Amcangyfrifedig	Amcangyfrifedig	Amcangyfrifedig	Amcangyfrifedig
		£M	£M	£M	£M	£M
1	Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf	22.386	23.299	26.554	21.178	22.570
2	Gofyniad Cyllid Cyfalaf (ar 31 Mawrth)-	19.574	20.161	20.766	21.389	22.031
3	Benthyca Allanol	18.745	18.401	17.953	17.468	17.041

13.3 Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn mesur yr angen sylfaenol dros fenthycia at ddibenion cyfalaf ac mae'n gysylltiedig â gwerthoedd asedau a gwariant cyfalaf arfaethedig. Yn unol ag arfer gorau, nid oes unrhyw gysylltiad rhwng benthyciadau unigol a mathau penodol o wariant. Mae benthyca allanol yn codi o ganlyniad i wariant a chyllid cyfalaf ac, yn anuniongyrchol, wariant a chyllid refeniw. Felly, gall y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a benthyca allanol gwirioneddol fod yn wahanol iawn. Mae'r gofyniad cyllideb refeniw a gynigir ar gyfer y tymor canolig yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer ad-dalu'r holl fenthyciadau sydd eisoes wedi'u trefnu.

[page 57]

14.0 SEFYLLFA ARIANNOL 2017 - 2021

ANSICRWYDD/RHEOLI RISG A GOBLYGIADAU ARIANNOL

14.1 Mae Heddlu De Cymru wedi adnewyddu ei fframwaith rheoli risg cadarn a'r broses ategol sy'n llywio penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau er mwyn lliniaru'r risg a nodwyd ac achub ar gyfleoedd. Mae'r broses hon wedi cael ei harchwilio'n annibynnol (gan y swyddogaethau archwilio annibynnol) ac wedi cael y sicrwydd llywodraethu mewnol uchaf.

14.2 Caiff y Gofrestr ar y Cyd ei hystyried yn rheolaidd gan y Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod prosesau rheoli risg yn gweithredu yn ôl y bwriad mewn gwirionedd, a'u bod yn effeithiol a'u bod wedi'u hymgorffori.

14.3 Mae'r Strategaeth Ariannol hon wedi ystyried y goblygiadau i adnoddau sy'n deillio o'r Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu sydd, yn ei dro, wedi ystyried y bygythiadau ehangach i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Ne Cymru. Mae'r gofrestr ansicrwydd/risg wedi nodi nifer o fygythiadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchiadau economaidd presennol yr ymhelaethir arnynt yn yr adroddiad hwn. Ceir hefyd oblygiadau i adnoddau sy'n deillio o'r risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd fel a ganlyn:

- Dros y tymor canolig, bydd angen system newydd yn lle'r rhwydwaith cyfathrebu Gwasanaethau Brys diogel presennol ac mae cynlluniau i sicrhau parhad cyfarpar a gwasanaeth yn cael eu datblygu'n genedlaethol. Ceir gofyniad i ariannu'r dyfeisiau a ddelir â llaw a'r dyfeisiau wedi'u gosod mewn cerbydau yn lleol ac adlewyrchir hyn yn y gofyniad cronfa gyfalaf wrth gefn fel £5.2M.

- Bydd cyflwr cyffredinol ystad yr heddlu yn gofyn am gryn fuddsoddiad nad yw'n cael ei ariannu o ddryaniad grant cyfalaf uniongyrchol na'i gefnogi gan arian menter cyllid preifat mwyach. Gallai'r gofyniad buddsoddi fod gyfuwch â £30M ac erys hon yn risg o hyd. Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu rheoli fel risgiau yn y dyfodol, yn enwedig am fod y mesurau cyni cyllidol estynedig yn cynyddu'r risg mewn meysydd seilwaith hanfodol eraill. Felly, bydd y risg i'r buddsoddiad yn yr ystad yn parhau ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Adlewyrchir y gofyniad heb ei ariannu hyd at 2021 yn y Targed Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn fel £20M.

- At hynny, mae'r gostyngiadau mewn staffio yn lleol ac yn genedlaethol yn achosi risg cydnerthedd ar y gwahanol lefelau. Aseswyd mai isafswm nifer swyddogion yr heddlu sydd ei angen yn Heddlu De Cymru yw 3,000 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n cydweddu'n dda â'r cyngor proffesiynol a roddwyd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Roedd hyn yn dilyn adolygiad manwl a ystyriodd y galw am wasanaethau plismona a'r adnoddau sydd ar gael, yn enwedig yn ystod digwyddiadau mawr a rhwymedigaethau cymorth cenedlaethol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r toriadau ariannol yn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, sy'n parhau, mae nifer swyddogion yr heddlu 156 yn brin o'r isafswm hwn. Ar sail cyngor gweithredol y Prif Gwnstablaid, nod datganedig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yw ceisio cynyddu niferoedd i 3,000 neu mor agos i'r nifer hwnnw â phosibl cyn gynted ag y bydd yr amgylchiadau yn caniatáu.

[page 58]

- Mae'r amgylchedd economaidd yn fygythiad i ymrwymiad y Comisiynydd i ddatblygu dull partneriaeth o ymdrin â throseddu ac achosion troseddu. Mae'r

Comisiynydd a phartneriaid mewn Llywodraeth Leol fel ei gilydd wedi dod i'r casgliad, ar adeg o doriadau mawr mewn gwasanaethau cyhoeddus, bod eu dyletswydd gyhoeddus yn golygu bod yn rhaid iddynt wneud mwy drwy bartneriaeth a chydweithredu yn hytrach na chilio i'w seilos eu hunain. Dull gweithredu datganedig y Comisiynydd, a gefnogir yn gryf gan y Prif Gwnstabl, yw, os oes rhaid i ni grebachu oherwydd toriadau ariannol yna fod yn rhaid i ni **“Grebachu Gyda'i Gilydd yn hytrach na Chrebachu Ar Wahân”**. Fodd bynnag, mae'r toriadau a wynebwr gan gyrff cyhoeddus yn fwy cyffredinol bellach ac mae risg y bydd sefydliadau yn ceisio tocio popeth heblaw eu swyddogaethau statudol craidd. Yn benodol, mae risg wirioneddol y gallai mesurau ataliol ddioddef mewn amgylchedd o'r fath. Bydd y Comisiynydd yn cynnal y Gronfa Lleihau Troseddu ac Anhrefn yn 2017/18 ar yr un lefel arian parod â'r flwyddyn flaenorol er mwyn dangos ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Mae'r rhain yn faterion y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'u trafod yn eu cyfarfod chwarterol rheolaidd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr pob un o'r saith awdurdod lleol yn ardal Ne Cymru.

14.4 Mae rhwymedigaeth ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ystyried y setliad yn ei gyfanrwydd wrth ystyried sut i bennu'r gyllideb ar gyfer 2017/18 ac mewn blynyddoedd dilynol, gan gynnwys asesiad o'r gronfa wrth gefn.

14.5 Mae'r tabl isod yn dangos y balans a ragwelir yn ein Cronfeydd Wrth Gefn ar ddiwedd Mawrth 2017 yn erbyn y lefel darged angenrheidiol ac mae'n dangos diffyg o £22M yn y cronfeydd wrth gefn.

Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau	Rhagolwg 2016/17 £M	Targed 2017/18 £M	Diffyg £M
Cronfeydd Wrth Gefn Heb eu Dyrannu			
Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn	9.2	9.2	0.0
Cronfa Datblygu/Trawsnewid Wrth Gefn	2.0	2.0	0.0
Rownd Derfynol Cynghrai Pencampwyr UEFA	1.2	3.6	2.4
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd			
Gofynion Penodol	4.2	4.5	0.0
Mentrau Partneriaeth	1.0	1.0	0.0
Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn	4.9	25.0	20.1
Darpariaethau			
Rhwymedigaethau Yswiriant	5.2	5.2	0.0
Cyfanswm	27.7	50.5	22.5

14.6 Ceir gofyniad i gynnal balansau ar lefel ddoeth yn unol ag egwyddorion a chanllawiau rheoli ariannol cadarn. Mae hyd yn oed yn fwy pwysig ar adeg o gyni cyllidol (pan gyfyngir ar hyblygrwydd cyllidebol yn fawr iawn) y cynhelir cronfeydd wrth gefn digonol er mwyn osgoi effaith andwyol ar gynlluniau'r heddlu os bydd digwyddiad neu ddigwyddiadau critigol.

14.7 Felly, byddai egwyddorion ariannol cadarn yn argymhell darpariaeth o 1% o leiaf ar gyfer digwyddiadau mawr, 1% ar gyfer risg arian parod weithredol o ddydd i ddydd ac 1% ar gyfer digwyddiadau anhysbys eraill. Byddai hyn yn awgrymu y dylid cynnal Cronfa Gyffrediol Wrth Gefn ar lefel o 3% o'r gwariant gweithredu gros. Byddai hyn yn arwain at gynnal Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn o tua £9M. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol dros flynyddoedd lawer ac mae'n adlewyrchiad cadarnhaol o sefyllfa ariannol yr heddlu. O ystyried yr amgylchedd o gyni a wynebwyd yn flaenorol ac a gaiff ei wynebu yn y dyfodol, mae cronfa wrth gefn yn seiliedig ar risgiau a aseswyd yn hollbwysig er mwyn cynnal heddlu effeithiol.

[page 59]

14.8 Defnyddir y Gronfa Drawsnewid Wrth Gefn ar gyfer y gofynion rheoli newid sy'n deillio o doriadau cyni cyllidol. Rhagwelir y bydd angen rhagor o gyllid er mwyn mynd i'r afael â chostau posibl iechyd a lles/datblygu sefydliadol ac ailstrwythuro staff.

14.9 Mae'r gofynion penodol a nodir uchod yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â rhwymedigaethau hysbys a bydd angen ailasesu'r lefel bresennol o ddarpariaethau a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

14.10 Yr achos pryder gwirioneddol o hyd yw'r diffyg yn y Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn gyda phryderon cynyddol ynghylch iechyd a diogelwch sy'n deillio o asesiad yr arolwg o gyflwr eiddo yn ogystal â'r angen i gynnal seilwaith hollbwysig ym maes cyfathrebu a thechnoleg symudol.

[page 60]

15.0 GWERTH AM ARIAN

15.1 Mae'r cadarnhad y bydd cylch arall o doriadau yng nghyllid yr heddlu hyd at 2021 yn parhau i danlinellu pwysigrwydd blaengynllunio effeithiol a datblygu mesurau effeithlonrwydd i ymateb i'r pwysau ar adnoddau i'r Heddlu.

15.2 Mae'r heddlu wedi bod yn unigryw o ran cydymffurfio â'r agenda effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn ers 1999. Mae hefyd yn bwysig nodi, yn sgil tanariannu hanesyddol ac anghydraddoldebau'r fformiwla, bod yn rhaid i Heddlu De Cymru ragori ar y targedau cenedlaethol i fantoli'r gyllideb, a gyflawnwyd mewn blynyddoedd diweddar drwy dorri'r gyllideb.

15.3 Nodir arbedion y Cynllun Gwerth am Arian yn **Atodiad 11** ac fe'u crynhoir isod. Bydd Heddlu De Cymru wedi sicrhau arbedion gwerth £45M ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a rhagwelir y bydd angen gwneud arbedion pellach gwerth £9M dros y pedair blynedd nesaf, gan roi targed cyfanswm arbedion o £56.6M hyd at 2021. Mae'r cynlluniau presennol yn nodi arbedion gwerth £49.1M hyd at 2021 gan adael bwlch o £7.3M yn weddill ar ôl ystyried y twf yn y praesept. At hynny, mae bwlch cyllid y rhaglen gyfalaf (**Atodiad 10**), sef £19.3M, yn golygu bod angen gwneud mwy o arbedion yn absenoldeb unrhyw adnoddau ariannol eraill.

GOSTYNGIADAU ARIAN PAROD GWERTH AM ARIAN		
	Toriadau	Cynllun

	Grant fel %	Gwerth am Arian £M
2010/11	1.9%	2.6
2011/12	5.1%	16.4
2012/13	6.7%	5.2
2013/14	1.6%	2.3
2014/15	4.8%	5.3
2015/16	5.1%	7.5
2016/17* Ynghyd â'r cynnydd mewn YG	0.6%	5.4
Is-gyfanswm		44.7
2017/18	1.4%	3.1
Arbedion a ragwelir 2018/19	8%	1.1
Arbedion a ragwelir 2019/20	2.2%	0.2
Arbedion a ragwelir 2020/21	2.4%	0
Cyfanswm Arbedion Refeniw'r Cynllun Gwerth am Arian		49.1
Refeniw Bwlch Gweddilliol		7.3
Cyfanswm yr Arbedion Refeniw Gwerth am Arian sydd eu hangen		56.4
Bwlch Ariannu Cyfalaf Ychwanegol		19.3

15.4 Mae'r rhaglen newid a roddwyd ar waith gan y Prif Gwnstabl wedi bod yn hanfodol o ran rhyddhau arbedion arian parod gwerth £45M hyd at 2017 tra'n gwella perfformiad gweithredol ar yr un pryd, gyda chyflawniadau nodedig fel a ganlyn:

- Mae boddhad dioddefwyr wedi gwella'n gyflym o fod yn heddlu â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru a Lloegr yn 2007 i fod ymhlith y pump gorau o ran perfformiad yng Nghymru a Lloegr.
- **Yr heddlu gorau yn y wlad am weladwyedd plismona (adroddiad gan y Swyddfa Gartref).**
- **Wedi buddsoddi** mewn technoleg symudol, gan drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio.
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Trais gydag Anaf.**
- **Y gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Bwrglera Domestig.**
- **Y chweched gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Troseddau Rhyw.**
- **Y trydydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Lladrata**

• **Y trydydd gorau yn y wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau a waethygir yn hiliol ac yn grefyddol**

- Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi lleihau dros 60,000 y flwyddyn
- Cyfraddau canfod ar eu lefel uchaf erioed, yn enwedig bwrghleriaeth a thrais corfforol
- Hyder y cyhoedd wedi gwella 50%
- Gwelliannau ardderchog i gau bwlch Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o ran boddhad dioddefwyr
- Fflyd fodern o gerbydau a gweithdy newydd sy'n addas at y diben
- Cyfleusterau dalfeydd sydd wedi'u moderneiddio ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth
- Model cyson, wedi'i ddiogelu o blismona cymdogaeth. (Mae ACEM yn pryderu bod llawer o heddluoedd wedi cwtdogi ar blismona cymdogaeth.)
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ddisglair a rennir â dau awdurdod tân a Desg Gwasanaeth Ambiwlans Cymru Glinigol.
- Asedau wedi'u Cynnal i gefnogi'r Gofyniad Plismona Strategol Cenedlaethol i'r DU gyfan.

15.5 Mae'r cyhoeddiadau diweddaraf gan y Canghellor, Gweinidogion y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol oll yn cadarnhau y bydd gwariant cyhoeddus yn parhau i ostwng y tu hwnt i 2021. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith na chaiff y diffyg cyllidebol strwythurol cenedlaethol ei unioni tan y tymor seneddol nesaf yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch goblygiadau economaidd Brexit.

15.6 O ystyried yr amgylchedd economaidd cenedlaethol nid oes modd osgoi ymgyrch effeithlonrwydd estynedig ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. O dan Strategaeth Ariannol Heddlu De Cymru llwyddwyd i fantoli'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn ond mae hon wedi bod yn broses heriol ac er bod yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd i sicrhau heddlu effeithiol sydd ag anodau sy'n lleihau, mae'r rhaglen cyni cyllidol barhaus bellach yn fygythiad gwirioneddol i'r heddlu dros y gorwel cynllunio.

15.7 Mae'r Strategaeth Ariannol yn nodi maint y dasg sy'n codi o'r gostyngiadau ariannol a osodwyd gan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010 a 2016. Mae'r cynllun manwl (**Atodiad 11**) yn parhau i adlewyrchu gostyngiadau yn y gyllideb sy'n ymwneud â chyflogau a'r cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. O ystyried bod dros 80% o'r gyllideb refeniw yn gysylltiedig â chyflogau mae'n anochel, o ystyried maint y toriadau ariannol, mai drwy ostyngiadau yn y gyllideb sy'n ymwneud â chyflogau y gwnaed y rhan fwyaf o'r arbedion a oedd eu hangen ac y bydd angen parhau i wneud hynny. **Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i leihau cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau tra'n sicrhau cymorth seilwaith digonol.**

15.8 Er gwaethaf pob ymdrech i gynnal y lefelau staffio y mae'r heddlu yn dibynnu arnynt, cafwyd lleihad o 1,132 o swyddi ymhlith swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, er mwyn sicrhau heddlu fforddiadwy. Ceir manylion cysoni'r newidiadau arfaethedig mewn niferoedd yn **Atodiad 12**.

15.9 Mae'r cynllun yn tybio cynnydd o 44 o swyddogion yr heddlu er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch agored i niwed, gan sicrhau 2,844 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n islaw lefel y 3,000, sef yr isafswm sydd ei angen yn ôl ein hasesiad manwl o'r gwaith ar gydnerthedd yr heddlu. Cyflogwyd 3,244 o swyddogion yr heddlu cyn y cyni cyllidol ac felly mae 400 o swyddi swyddogion yr heddlu wedi cael eu colli ers gorfodi'r cyni cyllidol. Mae Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi wedi cadarnhau bod Heddlu De Cymru yn un o'r heddluoedd prysuraf yn y wlad o ran digwyddiadau brys a digwyddiadau â blaenoriaeth ac mae ein dadansoddiad o'r risgiau sy'n dod i'r golwg yn cynyddu'r galw am adnoddau ychwanegol er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel yng Nghymru.

[page 62]

15.10 Mae'r Strategaeth Ariannol yn adlewyrchu 200 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a ariennir drwy gyllideb Heddlu De Cymru sy'n ategu'r 206 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n arwain at 406 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu 100 fesul Uned Reoli Sylfaenol. Cynhaliwyd asesiadau gweithredol manwl er mwyn sicrhau y caiff effaith gymunedol gadarnhaol y bartneriaeth hon ei gwireddu. Mae ein buddsoddiad mewn gweithgarwch olrhain a gorchwyl swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu eisoes wedi dangos cynnydd o 20% yng ngweladwyedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn y gymuned ac rydym yn unigryw yn y ffaith ein bod yn gallu dangos gweithgarwch swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ledled ardal yr heddlu.

15.11 Bydd lefel y toriadau sydd ei hangen ar ben mwy na degawd o dargedau effeithlonrwydd ac anghydraddoldebau ariannu, yn anochel, yn cael effaith ar y gwasanaethau rheng flaen rydym wedi ceisio eu diogelu. Yn anffodus, mae maint y toriadau a nodwyd yn awgrymu y bydd angen arbedion pellach o hyd ac mae'r Cynllun Gwerth am Arian presennol yn annigonol i fynd i'r afael â'r bwlch cyllidebol ychwanegol a osodwyd gan y llywodraeth. Er y gellir mantoli cyllideb 2017/18 drwy gyfuniad o doriadau a chynyddu'r praesept, nid yw cyllidebau 2018 i 2021 wedi'u mantoli eto o swm sylweddol o £10M ar y Cyfrif Refeniw ac £20M ar y rhaglen gyfalaf angenrheidiol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymdrin â hyn dros y 12 mis nesaf.

15.12 Felly, ceir risg weithredol os na chaiff y Strategaeth Ariannol ei gweithredu'n llawn (h.y. cyfuniad o arbedion effeithlonrwydd a chynnydd cymharol fach yn y praesept). Mae pob cynnydd o 1% ym mhraesept yr heddlu yn gynydd o £2 ar eiddo Band D ond mae iddo oblygiad blynyddol o £1m neu £4M yn gronnoel dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n cyfateb i gostau blynyddol 20 o swyddogion yr heddlu neu 40 o staff yr heddlu. Mae angen gweithredol clir i fynd i'r afael â ffactorau agored i niwed yn gofyn am dwf yn nifer swyddogion yr heddlu a

nifer y staff ac mae cyfradd y twf hwn yn gwbl ddibynnol ar lefel praesept yr heddlu. Mae'n amlwg hefyd y byddai unrhyw ostyngiadau eraill yn y cyllid ar ben y bwlch heb ei ariannu a ragwelir yn fygythiad sylweddol i gydnerthedd plismona yn Ne Cymru.

[page 63]

16.0 PRAESEPT YR HEDDLU A'R GOFYNIAD CYLLIDEB AR GYFER 2017/18

16.1 Nodir isod hanes a chyd-destun lefelau praesept yr heddlu (yn seiliedig ar eiddo Band D) ers 1995 ymhlith heddluoedd yng Nghymru. Cydnabuwyd gan Weinidogion y bydd heddluoedd sydd â lefelau is o ran praesept yr heddlu fel cyfran o gyfanswm eu cyllidebau yn wynebu mwy o her ariannol am fod y toriadau yng nghyllid y grant canolog yn unig. Dengys y siart isod fod Heddlu De Cymru wedi gweld y praesept isaf yng Nghymru ers dros ddegawd.

16.2 Yn genedlaethol, mae swm y cyllid lleol a godir drwy'r praesept o'i gymharu â chyfanswm y cyllid yn amrywio rhwng 14% yn Northumbria i 54% yn Surrey. Yn y cyd-destun hwn, mae cyllid lleol Heddlu De Cymru yn cyfrif am 38% o'i gyllid (canol bwynt ymhlith 43 o heddluoedd).

Mae'n bwysig nodi hefyd, lle mae canran y cyllid lleol yn isel, fod yr heddluoedd hynny hefyd yn cael budd o effaith dampio'r fformiwla ariannu ond yn Heddlu De Cymru rydym yn colli £9M drwy'r fformiwla ariannu oherwydd tampio.

16.3 Mae'n bwysig nodi bod y gwahaniaeth o £6M yng nghyllid praesept lleol yr heddlu ynghyd â'r anghydraddoldebau ariannu eraill yn rhoi Heddlu De Cymru o dan anfantais gwerth £24M y flwyddyn fel y dangosir isod:

Anghydraddoldebau Cyllido sy'n Effeithio ar Heddlu De Cymru	£M	Cyfeiriad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Y Gwahaniaeth ym Mhraesept yr Heddlu yng Nghymru	6.0	Fel y Siart uchod
Tampio'r Fformiwla Ariannu	8.8	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Addasiad Cost Ardal	4.0	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Gofynion Prifddinas	3.0	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Cyllid Seilwaith Cyfalaf	1.6	Gweler Atodiad 5 am fanylion.
Cyfanswm Effaith Anghydraddoldebau Cyllido	23.4	

[page 64]

16.4 Gydag £8.8M o ddyraniad y fformiwla yn cael ei ailddosbarthu oddi wrth Heddlu De Cymru fel rhan o'r warant cyllido gwaelodol, mae hyn yn cyfateb i golli bron £75M o arian dros y saith mlynedd diwethaf. Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw'r warant cyllido gwaelodol yn ystyried lefelau praesept lleol yr heddlu o gwbl a dangosir y gwahaniaethau amlwg uchod.

16.5 Lefel gyfartalog 2016/17 Praeseptau'r Heddlu yng Nghymru, heb gynnwys Heddlu De Cymru, yw £220.08. Mae Heddlu De Cymru yn codi praesept o £207.85 ar hyn o bryd, neu £12.23 islaw'r cyfartaledd sy'n cyfateb i fuddsoddiad ychwanegol blyneddol o £6M neu ddigon i recriwtio hyd at 150 o swyddogion yr heddlu.

16.6 Lefel y praesept yn 2016/17 ar gyfer pob heddlu yng Nghymru yw:

Heddlu	2016/17	Effaith Bosibl Cynnydd o 1%
	£	£
Gogledd Cymru	240.12	2.40
Dyfed-Powys	200.07	2.00
Gwent	220.06	2.20
De Cymru	207.85	2.08

16.7 Yn y bôn, po uchaf y sylfaen braesept bresennol y mwyaf o incwm lleol y gellir ei gynhyrchu am yr un cynnydd canrannol. Er enghraifft, byddai cynnydd o 1% i Heddlu Gogledd Cymru (£2.40 fesul eiddo Band D) yn gofyn am gynnydd o 1.2% yn Heddlu De Cymru er mwyn sicrhau'r un cynnydd arian parod. Felly, byddai cynnydd o 5% i Fand D yng Ngogledd Cymru yn arwain at gynnydd arian parod o £12.00 ond byddai'r un ganran yn arwain at gynnydd o £10.39 ar gyfer Band D yn Ne Cymru. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb â Heddlu Gogledd Cymru o ran incwm, yn y bôn byddai angen cynnydd o 5.8% ar gyfer eiddo Band D De Cymru (cyfanswm incwm ychwanegol o £0.8M y flwyddyn).

[page 65]

16.8 Mae'r Comisiynydd a Phanel yr Heddlu a Throseddau wedi ystyried y goblygiadau ariannol yn y tymor canolig mewn sesiynau briffio a seminarau yn ystod proses gynllunio bresennol 2017/18 a bydd aelodau'r Panel yn gyfarwydd â materion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol wael a wynebwr gan Heddlu De Cymru a'r posibilrwydd o ddifffygion mawr mewn cyllid dros y tymor canolig.

16.9 Tra'n cydnabod y pwysau i gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar gynyddu'r dreth gyngor prin yw'r opsiynau eraill ar gyfer cau'r bwlch cyllidebol:

- Cyflwyno hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd ychwanegol sy'n rhyddhau arian parod
- Cyflwyno gofynion datblygu fesul cam yn unol â sicrhau arbedion effeithlonrwydd
- Cynyddu faint o arian a fenthycir ar gyfer asedau oes hir
- Lleihau gwariant datblygu
- Torri gwasanaethau
- Codi incwm ychwanegol drwy braeseptau/grantiau'r heddlu.

16.10 Wrth baratoi'r gyllideb fanwl, ystyriwyd ac ymdriniwyd â'r holl ffactorau uchod. Mae sicrhau arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau £45M o arian parod dros y chwe blynedd ddiwethaf yn sefyllfa na welwyd ei thebyg erioed yn hanes Heddlu De Cymru. Mae'r cynlluniau hyn eisoes wedi arwain at rai gostyngiadau annymunol drwy leihau nifer swyddogion yr heddlu ac ailalinio rhengoedd, uno unedau rheoli sylfaenol, lleihau goramser a newidiadau i drefniadau rheoli traffig a'r Prosiect Diwygio. Mae ystyriaethau'r Cynllun Gwerth am Arian ym mharagraff 14 wedi manylu

ar sicrhau arbedion Gwerth am Arian a'r broses o'u dilysu'n annibynnol drwy graffu ACEM.

16.11 Mae pennu lefel praesept yr heddlu yn dibynnu ar gyfuniad o angen gweithredol, llunio barn ar fforddiadwyedd a phwerau Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar gynnydd os bydd Gweinidogion Cymru yn tybio ei fod yn ormodol. Er nad oes unrhyw ddisgwyliad y bydd modd pontio'r gwahaniaethau hanesyddol ym mhraeseptau'r heddlu dros y tymor canolig nac yn wir dros y tymor hwy, mae'r strategaeth o gynnydd cymharol fach yn y praesept ochr yn ochr â thoriadau effeithlonrwydd yn un gadarn.

16.12 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid ynglŷn â'i gynnig ar gyfer y praesept, ynghyd ag ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu diwygiedig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y praesept rhwng 23 Tachwedd a 16 Rhagfyr. Cysylltwyd â mwy na 600 o unigolion a sefydliadau yn uniongyrchol.

16.13 Anfonwyd yr ymgynghoriad at bob Cynghorydd Sir yn ardal Heddlu De Cymru (tua 420 o Gynghorwyr) yn ogystal â phob aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu. Fe'i hanfonwyd at 20 Aelod Cynulliad a 15 Aelod Seneddol, dros 40 o gysylltiadau busnes, gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach ac eraill, ac fe'i dosbarthwyd i'n cysylltiadau yn y gymuned academiaidd ac yn y Trydydd Sector. Dosbarthodd llawer o'r partneriaid hyn yr ymgynghoriad ymhellach drwy eu rhwydweithiau. Ym mhob achos gofynnwyd am i'r ymgynghoriad gael ei anfon at restrau enwau cyswllt y rhai a'i derbyniodd er mwyn ehangu cyrhaeddiad yr ymgynghoriad, er enghraifft fe'i dosbarthwyd gan Gyngor Caerdydd i'w enwau cyswllt drwy ei dîm partneriaethau ac felly anfonwyd yr ymgynghoriad at nifer fawr o'n sefydliadau partner. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan a thudalennau Facebook y Comisiynydd.

[page 66]

Er gwaethaf yr ymdrechion mawr, ni chafwyd nifer fawr o ymatebion penodol ac ychydig ohonynt a gyfeiriodd yn uniongyrchol at y praesept. Dyma rai ohonynt a wnaeth hynny, sy'n dangos amrywiaeth eang o safbwyntiau:

Credaf fod y cynnig ar gyfer praesept y dreth gyngor yn rhesymol iawn.

Byddai cynnydd o 3% yn fwy derbyniol i drethdalwyr ond mae'n rhaid ystyried lefelau gwasanaeth o'u cymharu â chostau a'r pris i'w dalu.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl o fewn cymunedau yn derbyn cynnydd bach yn y dreth gyngor er mwyn ariannu presenoldeb ychwanegol gan yr heddlu ar y strydoedd cyhyd ag y gallent weld canlyniadau corfforol y costau.

Ni ddylai fod unrhyw gynnydd yn y praesept, gan gydnabod nad oes gan bobl gyffredin unrhyw adnoddau ychwanegol i dalu am unrhyw gynnydd.

Mae angen cynnal plismona cymdogaeth ar y lefel uchaf bosibl.

Mae presenoldeb cadarn yn rhoi cysur i bobl sy'n byw yn eu cymunedau eu hunain.

16.14 O ystyried y nifer gymharol fach o ymatebion a'r amrywiaeth o safbwyntiau, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant ar sail yr ymgynghoriad. Mae lefel y praesept yn amlwg yn achos pryder i rai ymgynghoreion ond mae cynnal heddlu effeithiol yn Ne Cymru yn achos pryder hefyd. Rwyf wedi ystyried y gwahanol safbwyntiau hyn yn ofalus wrth lunio fy nghynnig ar gyfer y praesept.

16.15 Mae'n bwysig cydnabod bod y Strategaeth Ariannol ar hyn o bryd yn cyfateb pob cynnydd o £1 ym mhraesept yr heddlu i arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian parod gwerth bron £1.60 sydd felly'n dangos yn glir yr ymagwedd gytbwys a fabwysiadwyd er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol o fewn yr amgylchiadau dan sylw ac yn cydnabod goblygiadau'r dirwasgiad economaidd ehangach.

16.16 Mae arian grant Heddlu De Cymru wedi lleihau dros £45M mewn termau arian parod hyd yma a rhagwelir y bydd rhagor o doriadau. Er ein bod wedi parhau'n gadarnhaol ac wedi derbyn yr her o leihau'r sylfaen gost a gwella gwasanaethau fel y dangosir gan yr arbedion sydd wedi rhyddhau arian parod ac adolygiadau allanol annibynnol, mae ACEM wedi cadarnhau bod gennym record drawiadol o gyflawni cynlluniau gyda phroses rheoli ariannol gadarn sydd wedi cynnig amcanestyniadau ariannol hynod gywir ac wedi sicrhau Gwerth am Arian.

Mae'r dasg o ddod o hyd i hyd yn oed mwy o arbedion a mynd i'r afael â phwysau gweithredol newydd ar yr un pryd yn hynod anodd.

[page 67]

16.17 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried Cynigion Praesept yr Heddlu o 4%, 5% a 6% a'r goblygiadau canlyniadol, a grynhoir isod:

Cynnydd o 4% ym Mhraesept yr Heddlu

16.18 Mae'r un lefel o gynnydd yn y praesept â'r llynedd yn methu â dechrau hyd yn oed mynd i'r afael â'r bwlch agored i niwed. Yn ystod 2016/17 rydym wedi ceisio cyflymu'r broses o recriwtio adnoddau ychwanegol drwy gyllid anghylchol, yn enwedig 31 o swyddi staff yr heddlu ym maes Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Troseddau Rhywiol Difrifol, Troseddau a Hwylusir gan y Rhynggrwyd, Rheoli Troseddwyd Rhyw a Threisgar yn ogystal ag oedolion sy'n agored i niwed.

16.19 Byddai cynnydd o 4% ym y praesept yn golygu y byddai angen defnyddio adnoddau plismona lleol i lenwi'r bwlch agored i niwed a bod hynny'n rhywbeth yr hoffem ei osgoi. Heddlu De Cymru oedd â'r lefel uchaf o weladwydd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr y llynedd a dyna beth mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Mae angen i ni ddiogelu'r adnoddau hynny.

16.20 Mae cynnydd o 4% ym mhraesept yr heddlu hefyd yn methu â chyflawni'r amcan hirdymor bod cyllid lleol Heddlu De Cymru yn cyrraedd lefel ganolrifol heddluoedd yng Nghymru. Mae De Cymru wedi bod islaw'r canolrif ers dros ddegawd gan golli £178M o gyllid. Bu hyn yn achos allweddol buddsoddi gwael a chyflwr ystad yr heddlu a'r seilwaith ar gyfer technoleg a thrafnidiaeth.

16.21 Mae cynnydd o 4% ym mhraesept yr heddlu yn arwain at fwlbh cyllidebol o £5M a bwlbh ariannu ffactorau agored i niwed o £6M ac felly fe'i gwrthodwyd fel cynnig ariannu cadarn.

Cynnydd o 55 ym Mhraesept yr Heddlu

16.22 O ran lefel praesept yr heddlu mewn perthynas â 2017/18 argymhellir y dylid ei chynyddu 5%, a fydd yn codi £5M ond sy'n dal i olygu y bydd yn rhaid i Heddlu De Cymru ymdrin â bwlbh cyllidebol o £3.1M y flwyddyn nesaf a bron £9.3M hyd at 2021 yn seiliedig ar dybiaethau darbodus.

Fodd bynnag, mae'r lefel hon o ariannu yn unioni'r buddsoddiad anghylchol presennol yn y bwlbh agored i niwed ond mae'n golygu o hyd y bydd yn rhaid gohirio buddsoddiad angenrheidiol sylweddol o £5M tan flynyddoedd canlynol. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o hyn a bydd angen i'r Panel ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar y praesept yn y dyfodol.

16.23 Amlinellir goblygiad ariannol cynnydd o 5% ym mhraesept yr heddlu isod a manylir arno yn Atodiad 13.

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Praesept Band D	£207.85	£218.24	£229.15	£240.61	£252.64
Cynnydd Blynyddol yn y Praesept	£7.99	£10.39	£10.91	£11.46	£12.03
Cynnydd Wythnosol yn y Praesept	£0.15	£0.20	£0.21	£0.22	£0.23
Cynnydd yn y praesept	4%	5.0%	5%	5%	5%

16.24 Er bod cynnydd o 5% ym mhraesept yr heddlu yn galluogi'r Prif Gwnstabl i gynnal y nifer bresennol o swyddogion yr heddlu a dechrau cau'r Bwlbh Agored i Niwed, bydd angen rhagor o arbedion cyllidebol o hyd yn nifer staff yr heddlu a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff. Erys y pwysau i ddychwelyd nifer swyddogion yr heddlu yn nes at 3,000 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn o hyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gadarnhau beth yw'r isafswm adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â Bygythiadau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd yn gynharach yn y strategaeth.

[page 68]

Byddai cynnydd o 5% yn ychwanegu £10.39 i braesept blynyddol Band D sy'n hafal i gynnydd o 20c yr wythnos. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad o Eiddo Treth Gyngor yn dangos bod 65% o'r trigolion yn ardal Heddlu De Cymru islaw Band D ac y byddai'r rhan fwyaf yn talu rhwng 13c a 18c yr wythnos yn ychwanegol os nad ydynt yn cael unrhyw ddisgowntiau gan y Cyngor na budd-daliadau. Mae'n bwysig nodi y

bydd cost plismona Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru o ran eiddo Band D ond **mai cyfanswm ei gost plismona i drethdalwyr o ran cyllid lleol yw'r isaf fel canran o gyfanswm y cyllid.**

16.25 Dylai'r Panel nodi bod cynnydd o 5% ym mhraesept yr Heddlu yn arwain at dreth gyngor o £218.24 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £105,382,518 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 13. Ar y sail hon y Gofyniad Cyllideb Refeniw Net canlyniadol ar gyfer 2017/18 fyddai £262,789,079 ac mae'r swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

Cynnydd o 5% ym Mhraesept yr Heddlu

16.26 Fel arall, efallai y bydd y Panel yn dymuno ystyried cynyddu praesept yr Heddlu 1% arall (£2.08) er mwyn cyflymu'r buddsoddiad i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Byddai hyn yn arwain at dreth gyngor o £220.32 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £106,386,154 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 14. Y Gofyniad Cyllideb Refeniw Net fyddai £262,792,715 ac mae'r swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

17.0 YSTYRIAETH GAPIO

17.1 O dan drefniadau datganoli gweinyddir y pŵer i bennu lefelau capio'r dreth gyngor gan Llywodraeth Cymru. Nodir y trefniadau capio presennol isod.

17.2 Ceir dau fath o gapio – dynodi ac enwebu. Gall Llywodraeth Cymru ddynodi neu enwebu Awdurdod i gapio ei braesept os yw'r gofyniad cyllidebol yn ormodol ym marn Llywodraeth Cymru. Mae dynodi yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod leihau ei ofyniad cyllidebol ac ailfilio talwyr y Dreth Gyngor (drwy'r Awdurdodau Unedol). Mae enwebu i bob diben yn rhoi rhybudd i Awdurdod y bydd Llywodraeth Cymru yn pennu terfyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf (yr egwyddorion) ar gyfer capio i bob Awdurdod Lleol a Heddlu yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r egwyddorion gynnwys cymhariaeth rhwng y gofyniad cyllidebol a gyfrifwyd â'r gofyniad a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol. Mae gan Weinidogion bob rhyddid i gynnwys unrhyw faterion eraill yn yr egwyddorion sy'n berthnasol yn eu barn hwy. Mae prosesau cyfathrebu effeithiol wedi cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys effaith y toriadau na welodd yr heddlu eu tebyg o'r blaen sydd dipyn yn fwy na'r toriadau a wynebwyd gan lawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

[page 69]

18.0 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR

18.1 Mae'n rhaid i'r Dreth Gyngor sydd i'w thalu gael ei dyrannu i'r cynghorau bilio ar sail y sylfeini treth perthnasol a hysbyswyd ganddynt. Cyfrifir y sylfaen dreth drwy nifer yr eiddo ym mhob ardal sydd wedi'i ddyrannu i bob band eiddo ac sydd wedi'i ddisgowntio ar gyfer deiliadaeth unigol, rhai nad ydynt yn dalwyr, ac ati. Mynegir y sylfaen dreth fel "Band D" cyfatebol fel a ganlyn:–

	Eiddo Band D Cyfatebol			%
Cynghorau	2016/17	2017/18	Newid	
Cyngor Sir Caerdydd	141,288.00	143,032.00	1,744.00	1.2%
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	89,151.00	89,465.00	314.00	0.4%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	51,916.19	52,759.01	842.82	1.6%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	17,896.23	18,069.24	173.01	1.0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd	46,538.38	46,641.68	103.30	0.2%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	74,301.87	74,978.22	676.35	0.9%
Cyngor Bro Morgannwg	56,550.00	57,920.00	1,370.00	2.4%
Cyfanswm Sylfaen y Dreth Gyngor	477,641.67	482,865.15	5,223.48	1.1%

18.2 Mae lleoleiddio'r Budd-dal Treth Gyngor wedi tarfu ar sylfeini Treth Gyngor. Cytunwyd ar ddull gweithredu cenedlaethol yng Nghymru yn seiliedig ar uchafswm cymhwyster o 90% ym miliau'r Dreth Gyngor. Cynyddodd y newid oddi wrth gynllun wedi'i ariannu'n llawn y posibilrwydd na fyddai'r dreth gyngor yn cael ei thalu a gostyngodd llawer o gynghorau eu sylfeini Treth Gyngor yn unol â hynny. Yn gymharol hwyr yng nghylch cyllideb 2013/14 aeth Llywodraeth Cymru yn ôl i gynllun sydd ag uchafswm cymhwysedd o 100% ac mae hyn wedi datrys problem bellach ac yn sgil datblygiadau tai newydd a'r twf yn y boblogaeth mae'r sylfaen dreth gyngor wedi cynyddu 1% yn gyffredinol yn ardal Heddlu De Cymru.

18.3 Gan ddefnyddio'r sylfaen dreth uchod manylir ar effaith praesept yr heddlu ar fandiau eiddo ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn **Atodiad 13**. Caiff praesept yr Heddlu ei ychwanegu at y ffigurau ar gyfer yr Awdurdodau Unedol a bydd yn rhan o filiau'r Dreth Gyngor gyffredinol. O dan y rheoliadau, mae'n rhaid i'r awdurdod bilio bennu rhestr o randaliadau ar gyfer taliadau i awdurdodau praeseptio. Y cytundeb yw y bydd yr Awdurdodau Unedol yn talu'r Heddlu mewn 12 o randaliadau ar neu cyn diwrnod gwaith olaf pob mis.

[page 70]

19.0 SYLWADAU'R TRYSORYDD (PRIF SWYDDOG ARIANNOL Y COMISIYNYDD)

19.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003, Rhan 2 Adran 25, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorydd gynnwys datganiadau ychwanegol yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'n ofynnol i'r Trysorydd gyflwyno adroddiad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, sy'n sail i'r gofyniad cyllidebol, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig. Mae'n ofynnol i'r Panel ystyried yr adroddiad hwn wrth ystyried y gyllideb.

19.2 Mae'r gyllideb arfaethedig a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ffigurau cadarn, a baratowyd gan y Prif Swyddog Ariannol. Mae'r amcangyfrifon manwl wedi'u paratoi ar sail realistig. Mae amrywiaeth eang o Uwch Swyddogion

wedi bod yn rhan o broses y gyllideb. Gwnaed darpariaeth briodol ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau, lefelau incwm ac arbedion effeithlonrwydd cyflawnadwy.

19.3 Mae system monitro cyllidebol fisol fanwl ar waith sy'n cynnwys pob deiliad cyllideb a chyflwynir adroddiadau er mwyn hwyluso'r gwaith rheoli ariannol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi wedi gwneud sylwadau ar gadernid gwaith cynllunio ariannol Heddlu De Cymru.

19.4 Mae'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn wedi cyrraedd y lefel darged bellach. Mae digonolrwydd y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a chronfeydd penodol wrth gefn yn cael ei adolygu drwy'r amser.

19.5 Yn yr un modd, mae'r dull cadarn o reoli risg wedi gwneud datblygiadau seilwaith hanfodol yn bosibl ac wedi sicrhau heddlu cynaliadwy, ond mae cyflwr yr ystad yn parhau i fod yn achos pryder.

19.6 Mae'n amlwg y bydd yr amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn hynod heriol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld y bydd y prif grant allanol yn gostwng o £4M rhwng 2017/18 a 2020/21. Mae'r cynnydd yn y galw a chostau ychwanegol, megis y cynnydd yng nghostau hyfforddiant a seilwaith technoleg yr heddlu yn golygu mai dim ond yn rhannol y caiff ei wrthbwysio gan strategaeth Treth Gyngor sy'n tybio cynnydd o 5% drwy gydol y cyfnod hwn.

19.7 Y Cynllun Gwerth am Arian cynhwysfawr yw'r ffordd synhwyrol a chall o leihau gwariant mewn modd rheoledig a strwythuredig. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y Cynllun Gwerth am Arian yn dwyn risg uwch na'r gyllideb o ran cyflawni. Rhagwelir y bydd Cynllun Gwerth am Arian 2017/18 yn sicrhau digon o arbedion i fantoli cyllideb 2017/18. Fodd bynnag, y tu hwnt i 2017/18, mae'r cynllun presennol yn annigonol i fantoli'r gyllideb drwy gydol cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n dangos bwlch cyllidebol gweddilliol o £6M ar gyfer referniw ac £20M ar gyfer cyfalaf erbyn 2021. Bydd angen parhau i ganolbwyntio ar Werth am Arian dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cynnal a gwella effeithiolrwydd gweithredol.

[page 71]

20.0 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2003 – DATGANIAD “ADRAN 25”

20.1 Wrth bennu'r Gyllideb a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, mae'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fod yn fodlon bod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei rhoi i'r canlynol:

- a) Polisi'r Llywodraeth ar wariant, fel y bo'n gymwys i'r Heddlu
- b) Goblygiadau'r Gyllideb a'r Rhaglen Gyfalaf yn y tymor canolig
- c) Cod Darbodus CIPFA
- ch) Maint a digonolrwydd balansau cyffredinol a balansau penodol a glustnodwyd
- d) A yw'r cynigion yn rhoi cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn
- dd) Yr effaith ar y Dreth Gyngor
- e) Bygythiad neu risg capio
- f) Y pwysau presennol i ddatblygu gwasanaethau a'r risg gysylltiedig i berfformiad

20.2 Mae'r Strategaeth Ariannol hon a gynigir wedi cael ei hystyried yn llawn ac wedi dogfennu'r gofynion uchod. Rwy'n fodlon bod y cynigion ar gyfer 2017/18 yn rhoi cyllideb wedi'i mantoli a bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Serch hynny, bydd Heddlu De Cymru yn wynebu heriau anodd yn y flwyddyn sydd i ddod ac rwyf wedi nodi uchod, ym mharagraff 19.7, fod angen datblygu cynigion arbedion eraill i fynd i'r afael â'r bwlch cyllidebol gweddilliol o £25M ar gyfer y cyfnod cynllunio hyd at 2021.

Geoff Petty – Trysorydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru

21.0 CASGLIAD

21.1 Er bod yr hinsawdd economaidd genedlaethol sydd ohono yn cael dylanwad mawr ar dderbynioldeb lefel praesept yr heddlu i'w godi ar drethdalwyr lleol, cydnabyddir hefyd bod yr angen am heddlu effeithlon ac effeithiol yn cynyddu'n sylweddol ar adeg o ddirwasgiad economaidd.

21.2 Mae'r Strategaeth Ariannol hon wedi ceisio pwyso a mesur risg, galw, fforddiadwyedd a bygythiad capio. Mae'r angen i wneud rhagor o doriadau gwerth £3M yn ychwanegol at y toriadau o £45M a sicrhawyd rhwng 2011 a 2017 yn ofyniad na welwyd ei debyg o'r blaen.

21.3 Mae Rhaglen Newid yr Heddlu wedi gwneud cyfraniad sylweddol i berfformiad gweithredol a Gwerth am Arian a bydd yn gyfrwng allweddol i sicrhau gwelliannau parhaus hyd at 2021.

21.4 Mae'n bwysig nodi y bydd diffyg o £7M o hyd yn y Cynllun Gwerth am Arian (Cyfrif Refeniw) yn seiliedig ar yr amcanestyniadau cenedlaethol o lefelau cyllid yr heddlu yn y dyfodol a gofynion adnoddau lle mae'r risgiau wedi'u hasesu tra'n modelu cynnydd o 5% y flwyddyn yn y praesept hyd at 2021.

21.5 Cafwyd crebachu sylweddol yn y Cyllid Cyfalaf ac mae'r rhaglen yn wynebu pwysau heb eu hariannu o £20M.

21.6 Felly, y cynnig o gynnydd o 5% ym mhraesept yr heddlu yw'r isafswm sydd ei angen i gynnal heddlu effeithiol yn 2017/18 yn unig. Mae Heddlu De Cymru wedi mantoli'r gyllideb drwy arbedion effeithlonrwydd (dwy ran o dair) a phraesept yr heddlu (traean). Ni sydd â'r gost leol isaf ar gyfer plismona yng Nghymru o ran canran y cyllid lleol fel cyfran o gyfanswm y cyllid.

[page 72]

21.7 Mae'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Phanel yr Heddlu a Throseddu yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r Bwlch Agored i Niwed yn flaenoriaeth. Byddai cynnydd arall o 1% yn y praesept yn codi £1M o incwm ychwanegol ac ariannu 20 o swyddogion yr heddlu i helpu i lenwi'r bwlch adnoddau Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed. O ganlyniad, mae Atodiad 14 yn nodi goblygiadau hyn i eiddo Band D, sef £2 arall y flwyddyn neu 4c yr wythnos.

22.0 CYNNIG PRAESEPT

1. Bod Panel yr Heddlu a Throseddu yn ystyried yr adroddiad hwn ac yn cefnogi cynnig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynglŷn â'r praesept mewn perthynas â 2017/18 sy'n unol â'r briffiadau blaenorol i Banel yr Heddlu a Throseddu ac sydd hefyd yn gyson â'r amcanestyniadau ariannol tymor canolog.

2. Dylai'r Panel nodi bod y cynnydd o 5% ym mhraesept yr Heddlu a argymhellir yn arwain at dreth gyngor o £218.24 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £105,382,518 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 13.

3. Bod y Panel yn nodi, ar y sail hon, mai'r Gofyniad Cyllideb Refeniw Net canlyniadol ar gyfer 2017/18 fyddai £262,789,079 a bod y swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

4. Fel arall, efallai y bydd y Panel yn dymuno ystyried cynyddu praesept yr Heddlu 1% arall (£2.08) er mwyn cyflymu'r buddsoddiad i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Byddai hyn yn arwain at dreth gyngor o £220.32 ar eiddo Band D. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gofyniad praesept o £106,386,154 a fyddai'n cael ei braeseptio ar yr Awdurdod bilio perthnasol yn unol ag Atodiad 14. Y Gofyniad Cyllideb Refeniw Net fyddai £263,792,715 ac mae'r swm hwn yn adlewyrchu gofynion arbedion y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian gwerth £3,062,088.

YSTYRIAETHAU LLYWODRAETHU EHANGACH

A. CYFREITHIOL

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd bennu cyllideb wedi'i mantoli, pennu cyfradd y Dreth Gyngor a chyhoeddi praesept yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Deddf yr Heddlu 1996.

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 dim ond ar ôl ymgynghori â Phanel yr Heddlu a Throseddu y gall y Comisiynydd gyhoeddi praesept.

B. PERSONÉL, CYFLE CYFARTAL A MATERION AMRYWIAETH AC YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL

Mae gan Heddlu De Cymru broses gynhwysfawr o Asesu'r Effaith ar Gymunedau a Chydraddoldebau sydd wedi'i hymgorffori o fewn y rhaglen rheoli newid. Bydd pob ffrwd yn ystyried y goblygiadau ehangach i'r heddlu ac yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau a hawliau dynol yn ystod y cam cynllunio.

[page 73]

C. TREFNIADAU ADOLYGU

Caiff Cyllideb Refeniw 2017/18, y Rhaglen Gyfalaf a'r Cynllun Gwerth am Arian eu monitro'n rheolaidd gan y Comisiynydd a Phanel yr Heddlu a Throseddu.

CH. RISGIAU

1. Mae risg capio wedi cael ei lliniaru drwy drafodaethau â Llywodraeth Cymru ac ni ddisgwylir i gynnydd o 5% yn y praesept arwain at gapio.
2. Mae'r brif risg heb ei rheoli yn ymwneud â phroblemau hirdymor gyda'r ystad a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau na pheryglir cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol.
3. Mae'r Cynllun Gwerth am Arian yn broses hyblyg ei natur a bydd angen ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau'r lefel o arbedion a dargedir.

D. RHESTR O BAPURAU CEFNDIR

Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2017 i 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)
Adroddiad 2017 i 2018 ar Grant yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr (Drafft)

[tudalen 74]

Rhestr o Atodiadau

- | | |
|------------|---|
| Atodiad 1 | Trosolwg o'r Fframwaith Llywodraethu yn Heddlu De Cymru |
| Atodiad 2 | Asesiad ACEM o Effeithiolrwydd Effeithlonrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu |
| Atodiad 3 | Llythyr Rheoli Blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16 |
| Atodiad 4 | Crynodeb o'r cyhoeddiad ynglŷn â chyllid refeniw'r Heddlu ar gyfer 2017- 2021 |
| Atodiad 5 | Anghydraddoldebau Cyllido sy'n Effeithio ar Heddlu De Cymru |
| Atodiad 6 | Crynodeb o Gyllideb Heddlu De Cymru 2017/18 i 2020/21 |
| Atodiad 7 | Cysoni Newidiadau i'r Gyllideb Refeniw 2016/17 i 2017/18 |
| Atodiad 8 | Dadansoddiad Manwl o Newidiadau i'r Gyllideb Refeniw 2016/17 i 2017/18 |
| Atodiad 9 | Cyllideb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2017/18 |
| Atodiad 10 | Rhaglen Gyfalaf Gryno a Threfniadau Ariannu 2017/18 i 2020/21 |
| Atodiad 11 | Cynllun Gwerth am Arian 2017/18 i 2020/2021 |

Atodiad 12 Cysoni Newidiadau mewn Niferoedd

Atodiad 13 Goblygiadau Cynnydd o 5% ym Mhraesept yr Heddlu 2017/18

Atodiad 14 Goblygiadau Cynnydd o 6% ym Mhraesept yr Heddlu 2017/18

[tudalen 75]

ATODIAD 1

TROSOLWG O'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU YN HEDDLU DE CYMRU

1.0 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif ar ran y cyhoedd mewn perthynas â darparu gwasanaeth plismona.

Mae gan y Comisiynydd rôl strategol o ran arwain a datblygu gwaith partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill, megis y sector iechyd a'r sector gwirfoddol ac mae wedi dangos yr ymrwymiad hwn drwy gyfres o ymgynghoriadau â phartneriaid hyd yma.

Mae'r Comisiynydd yn cael cyllid mewn perthynas â phlismona a lleihau troseddu, gan gynnwys grant gan y llywodraeth a phraesept a ffynonellau eraill o incwm. Mae'r ffordd y caiff yr arian hwn ei ddyrannu yn fater i'r Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, neu'n unol ag unrhyw delerau'r grant. Bydd swyddogion statudol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rhoi cyngor proffesiynol ac argymhellion.

2.0 Y Prif Gwnstabl

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines, ac mae'n cyfarwyddo ac yn rheoli swyddogion a staff yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei swydd o dan y Goron, ond fe'i penodir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol i'r gyfraith am arfer pwerau'r heddlu, ac i'r Comisiynydd am ddarparu heddlu effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant gan yr heddlu. Ar bob adeg bydd y Prif Gwnstabl, ei swyddogion a'i staff yn weithredol annibynnol wrth wasanaethu'r cyhoedd. Mae Llw Swydd y Comisiynydd yn cynnwys ymrwymiad i ddiogelu annibyniaeth swyddogion yr heddlu.

3.0 Panel yr Heddlu a Throseddu

Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn cynnwys deg cynghorydd lleol sy'n cynrychioli'r saith awdurdod lleol yn Ne Cymru a dau aelod annibynnol cyfetholedig. Mae'r Panel yn cyfarfod bob chwarter gyda'r cylch gwaith i ddal y Comisiynydd i gyfrif am y canlynol:

- Gweithredu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Lleihau Troseddu;
- Perthnasedd a chynnwys y Cynllun.

Fel rhan o'i gylch gwaith mae'r Panel hefyd yn craffu ar gynnig praesept y Comisiynydd a'r broses o benodi Prif Gwnstabl. Mae gan y Panel bwerau i wrthod y cynnig ar gyfer praesept a gofyn i'r Comisiynydd gyflwyno cynnig arall. Gall y Panel wrthod penodiad Prif Gwnstabl a gofyn i'r Comisiynydd gynnig ymgeisydd wrth gefn. Cefnogodd y Panel benderfyniad y Comisiynydd i ailbenodi'r Prif Gwnstabl presennol, Peter Vaughan QPM, am gyfnod arall hyd at ddiwedd 2017.

[tudalen 76]

ATODIAD 1

4.0 Prif Swyddogion Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl benodi person i fod yn gyfrifol am weinyddu eu sefyllfa ariannol yn briodol. Mae gan bob Prif Swyddog Cyllid ddyletswydd ymddiriedol yn rhinwedd ei benodiad fel y person sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol briodol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae hyn yn cynnwys gofynion a phwerau ffurfiol i ddiogelu cyfreithlondeb a phriodoldeb mewn gwariant. Drwy'r ddogfen gyfan hon cyfeirir at 'Prif Swyddog Ariannol' y Comisiynydd fel y 'Trysorydd' er eglurder.

5.0 Prif Weithredwr (Pennaeth y Staff) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu benodi Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr wedi'i ddynodi'n Swyddog Monitro at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 sy'n gyfrifol am sicrhau cyfreithlondeb gweithredoedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i staff ac mae'n gweithredu fel y 'swyddog priodol' o ran cofnodi'r holl benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn Ne Cymru cyfeirir at y swyddog penodedig fel Pennaeth Staff y Comisiynydd.

6.0 Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r fframwaith llywodraethu corfforaethol y bydd y ddwy gorfforaeth undyn yn llywodraethu yn unol ag ef, ar y cyd ac yn unigol yn cynnwys:

- Cod llywodraethu corfforaethol – fframwaith statudol sy'n nodi sut y caiff yr egwyddorion craidd eu rhoi ar waith.
- Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol – mae'n diffinio'r paramedrau y bydd y corfforaethau undyn yn cynnal eu busnes yn unol â hwy. Mae hyn yn cynnwys dirprwyaethau/caniatadau gan y Comisiynydd, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau.
- Polisi a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer pob corfforaeth undyn, gyda phrotocolau lle maent yn gweithredu ar y cyd.

COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

**CYNLLUN LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
POLISIÂU A GWEITHDREFNAU'R COMISIYNYDD
GWNEUD PENDERFYNIADAU A FFRAMWAITH ATEBOLRWYDD
POLISIÂU A GWEITHDREFNAU'R PRIF GWNSTABL**

[tudalen 77]

ATODIAD 1

7.0 Bwrdd Strategol y Comisiynydd

Bwrdd Strategol y Comisiynydd yw'r prif gyfrwng i gydlynu gweithgareddau'r ddwy gorfforaeth undyn. Mae timau rheoli'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Diben y Bwrdd yw sicrhau bod dull strategol o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Heddlu a Lleihau Throseddu ac ymdrin â meysydd eraill o bwys strategol.

8.0 Grŵp Aur Y Prif Gwnstabl

Mae hwn yn dwyn Prif Swyddogion i gyfrif am gyflawni'r cynllun gweithredol Dangosir y fframwaith llywodraethu cyffredinol a'r cysylltiadau â byrddau cyflawni isod:

Bwrdd Strategol y Comisiynydd

**Grŵp Aur y Prif Gwnstabl
Tîm Arwain y Comisiynydd**

**Cyd-fwrdd Newid a Datblygu
Cyd-fwrdd Perfformiad a Chyflawni**

**Plismona a Chymunedau
Dioddefwyr, troseddwyr a'r System Cyfiawnder Troseddol
Datblygu Pobl i Gyflawni
Defnyddio Adnoddau i Gyflawni
Gofyniad Plismona Strategol**

**Prosiectau
Prosiectau
Prosiectau
Prosiectau
Prosiectau**

9.0 Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ill dau baratoi a llofnodi Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Mae pob datganiad yn ddogfen allweddol sy'n disgrifio'r trefniadau llywodraethu, yn adolygu eu heffeithiolrwydd ac yn tynnu sylw at faterion llywodraethu o bwys. Mae'r Datganiadau yn dilyn

Fframwaith CIPFA/SOLACE “*Delivering Good Governance in Local Government*” ac fe’u cyhoeddir fel rhan o’r Datganiad(au) o Gyfrifon.

[tudalen 78]

ATODIAD 1

10.0 Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a’r Prif Gwnstabl wedi sefydlu Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae’r Pwyllgor yn cynnwys pum aelod sy’n annibynnol ar y Comisiynydd a’r Heddlu. Mae’r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae’r Pwyllgor yn cynghori’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn unol ag egwyddorion llywodraethu da ac yn adolygu priodoldeb trefniadau rheoli risg yn unol ag arferion priodol a darpariaethau’r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol.

11.0 Archwilio Mewnol

Mae’n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a’r Prif Gwnstabl ill dau gynnal archwiliad mewnol effeithiol o’u materion. Yn ogystal â’r gofyniad statudol, mae angen i’r Archwiliad Mewnol wneud y canlynol:

- Bodloni’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl fod systemau rheolaeth fewnol effeithiol ar waith;
- Bodloni’r archwilydd allanol bod systemau ariannol a rheolaethau mewnol yn effeithiol a bod Cronfa’r Heddlu yn cael ei rheoli er mwyn sicrhau Gwerth am Arian.

Mae’r TIAA yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar y cyd i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl. Mae’r TIAA yn mynychu’r Cyd-bwyllgor Archwilio ac yn cyflwyno adroddiadau iddo.

12.0 Archwilio Allanol

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy’n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol. Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilwyr penodedig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a’r Prif Gwnstabl. Mae’n rhaid i’r archwilydd allanol fodlon ei hun:

- Bod y datganiadau cyfrifyddu blynyddol wedi cael eu paratoi yn unol â’r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru);
- Eu bod yn cydymffurfio â’r holl reoliadau perthnasol;
- Bod arferion priodol wedi cael eu dilyn pan gafodd y cyfrifon eu paratoi;
- Bod y corff archwiliatedig wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu’r Cyd-bwyllgor ac yn cyflwyno adroddiadau iddo. Hefyd, mae’n cynnal adolygiad statudol o’r trefniadau llywodraethu. Dangosir Llythyr Archwilio Blynyddol 2014/15 yn Atodiad 3.

13.0 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn asesu heddluoedd a phlisma yn annibynnol. Mae ACEM yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r heddlu. Penodir Arolygwyr Cwnstabliaeth EM gan y Goron. Mae Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EM yn cyflwyno adroddiadau i Senedd y DU ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae gan Arolygwyr EM bwerau i ofyn i heddluoedd am wybodaeth ac i gael mynediad i'w safleoedd. Mae ACEM yn penderfynu ar ddyfnder ac amllder arolygiadau a meysydd i'w harolygu yn seiliedig ar ei hasesiad o risg i'r cyhoedd. Mae rhaglen arolygu flynyddol ACEM yn cael ei chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cartref yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau roi ymateb i unrhyw adroddiad gan ACEM i'r Ysgrifennydd Cartref.

[tudalen 79]

ATODIAD 1

Mae ACEM wedi cynnal nifer o arolygiadau Gwerth am Arian dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae wedi gwneud sylwadau ffafriol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r ffordd yr ymdriniwyd â thoriadau cyni cyllidol.

Yn ystod 2013, cyfarfu Prif Arolygydd y Gwnstabliaeth â'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn dilyn cyflwyniad ar ddefnyddio technoleg. Cadarnhaodd mai Heddlu De Cymru, yn ei farn ef, oedd yr heddlu mwyaf blaengar o ran defnyddio technoleg yn yr amgylchedd gweithredol. Mae'r Strategaeth Ariannol yn adlewyrchu parhad buddsoddi yn y maes hwn o dan Brosiect Fusion.

[tudalen 80]

ATODIAD 2

ASESIAD EFFEITHLONRWYDD ACEM AR GYFER HEDDLU DE CYMRU 2016

Bydd ACEM yn cyhoeddi ei hasesiad ym mis Chwefror 2016

PEEL: EFFEITHLONRWYDD

Canfu ACEM fod Heddlu De Cymru wedi'i baratoi'n dda iawn i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Drwy drefniadau rheoli ariannol cadarn ac ymrwymiad i welliant parhaus, mae wedi llwyddo i leihau ei wariant yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant diwethaf, ac mae'n cynllunio ar gyfer heriau ariannol y dyfodol yn effeithiol. Yn ystod rhaglen arolygu gwerth am arian y llynedd, a ystyriodd sut roedd heddluoedd wedi ymateb i her cyfnod cyntaf yr adolygiad o wariant, barnwyd bod Heddlu De Cymru yn dda.

Mae ACEM yn barnu bod Heddlu De Cymru yn dda. Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth eang o'r galw presennol am ei wasanaethau a'r galw a ragwelir. Mae'r heddlu yn cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2,800 o

swyddogion yr heddlu yn achosi risgiau ariannol os na chaiff yr arbedion disgwyledig eu gwireddu, ond mae wedi ymgymryd â gwaith cynllunio senarios ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Mae trefniadau Heddlu De Cymru ar gyfer cyfateb adnoddau i'r galw yn drawiadol, ac mae'r heddlu wedi gwneud cryn fuddsoddiad i asesu'r gofynion sydd arno. Mae hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau costau tra'n gwella'r gwasanaeth y mae'n ei roi i'r cyhoedd, fel y dangoswyd gan ei ganlyniadau ardderchog ar gyfer boddhad dioddefwyr.

Mae model gweithredu presennol yr heddlu a roddwyd ar waith yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Mae buddsoddiadau mewn technoleg newydd wedi bod yn fodd iddo leihau nifer yr unedau rheoli sylfaenol o chwech i bedair, a thimau cymdogaeth o 30 i 19. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau nifer swyddogion yr heddlu o 3,100 i 2,800. Cyflawnwyd hyn yn erbyn arbedion o £33m, neu tua 11 y cant o gyllideb refeniw gros flynyddol 2010/11, yn y pedair blynedd hyd at 2014/15.

Mae gan yr heddlu record gadarn o ran rheoli ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r gofynion ariannol sydd arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r heddlu wedi pennu cyllidebau wedi'u mantoli ac wedi cyflawni ei darged ar gyfer arbedion ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2014/15. Mae wedi mantoli'r gyllideb ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar dybiaethau darbodus nad ydynt yn dibynnu ar leihau ei gronfeydd wrth gefn. Mae arbedion eisoes wedi cael eu gwireddu ac mae cynlluniau ar gyfer sicrhau gweddill yr arbedion hyn ar ffurf ddatblygedig.

Mae Heddlu De Cymru wrthi'n ystyried pob cyfle i gael cyllid ychwanegol ac mae wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth wneud hynny. Er enghraifft, ar gyfer y flwyddyn 2014/15 a 2015/16 mae'r heddlu wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus i Gronfa Arloesedd yr Heddlu, gwerth bron £5m i gyd.

Rhagor o Fanylion

1. Pa mor dda y mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i ateb y galw?

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth eang o faint a natur y galw a wynebir ganddo, ac mae'n ymgymryd â gwaith pellach â phartneriaid i nodi gofynion sydd newydd ddod i'r amlwg neu ofynion cudd yn well.

Mae gan yr heddlu drefniadau cadarn ar waith ar gyfer pennu tasgau a rheoli'r galw er mwyn cyfateb adnoddau i'r galw, ac mae'n cydnabod bod angen parhau i alinio adnoddau â galw sy'n newid.

[tudalen 81]

Mae gan yr heddlu gyfradd boddhad o 88.3 y cant ymhlith dioddefwyr, un o'r uchaf yn y wlad. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu De Cymru i roi'r dioddefwyr wrth wraidd popeth a wna'r heddlu.

Mae'r heddlu eisoes yn rheoli'r galw yn dda, ond mae hyn yn cael ei wella ymhellach wrth iddo barhau i gymhwyso'r gwersi y mae'n parhau i'w dysgu o ddadansoddi'r galw, gyda data yn cael ei rannu ymhlith asiantaethau partner.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth ardderchog o allbynnau, canlyniadau a chostau drwy gyfarfodydd cyllideb a pherfformiad misol, wedi'u hategu gan drefniadau llywodraethu ariannol cadarn.

Mae Heddlu De Cymru yn heddlu blaengar sy'n ymrwymedig, drwy'r prif gwnstabl, i wella ei ddulliau gwaith er mwyn cyflwyno gwasanaethau gwell i'r cyhoedd.

EITHRIADOL

2. Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?

Mae model gweithredu presennol yr heddlu a roddwyd ar waith yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Bu gostyngiad mewn lefelau troseddu, cynnydd mewn lefelau canfod, ac mae hyder a boddhad y cyhoedd wedi gwella.

Mae'r heddlu wedi buddsoddi mewn technoleg newydd sydd wedi'i alluogi i leihau nifer yr unedau rheoli sylfaenol a thimau cymdogaeth. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau nifer swyddogion yr heddlu o 3,148 i 2,864.

Mae Heddlu De Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i ateb y galw a ragwelir, a bodloni gofynion sefydliadol ac ariannol gyda'i fodel gweithredu presennol gwell.

Mae'r heddlu yn credu y bydd angen tua 2,864 o swyddogion yr heddlu i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir. Mae hefyd yn cydnabod bod angen alinio'r model gweithredu a ragwelir â'r cyllid sydd ar gael, sy'n dangos bwlch o £23.4M erbyn mis Mawrth 2019 ar hyn o bryd. Mae'r heddlu wedi dod i'r casgliad y gellir parhau â'r model gweithredu presennol drwy fuddsoddi ymhellach mewn technoleg newydd, lleihau'r galw, a gwella sgiliau ei swyddogion, ac mae o'r farn y gall hyn arwain at arbedion o 10 y cant yn y galw (neu tua £25m y flwyddyn).

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2,864 o swyddogion yr heddlu yn achosi risgiau ariannol os na chaiff yr arbedion disgwyledig eu gwireddu, ond mae wedi ymgymryd â gwaith cynllunio senarios ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

DA

3. Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu ar gyfer y byrdymor a'r hirdymor?

Mae gan Heddlu De Cymru record gadarn o ran monitro gwariant a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r heddlu wedi pennu cyllidebau wedi'u mantoli ac wedi cyflawni ei darged ar gyfer arbedion ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2014/15. Gwnaed cyfanswm o £33M o arbedion dros y cyfnod hwn, neu tua 11 y cant o'i wariant refeniw blyneddol gros yn 2010/11.

Mae cyllideb yr heddlu ar gyfer 2015/16 yn seiliedig ar dybiaethau darbodus. Mae'r heddlu mewn sefyllfa dda i gyflawni arbedion gwerth £7.4m drwy ei raglen newid a heb fod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae'r heddlu wrthi'n ystyried pob cyfle i gael cyllid ychwanegol ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn.

[tudalen 82]

Mae cynlluniau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi'u halinio'n agos. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad ariannol gydag adroddiadau'n cael eu paratoi bob chwarter.

Mae'r heddlu wedi nodi arbedion eraill gwerth £8.1m ar gyfer y tair blynedd hyd at 2018/19. Fodd bynnag, mae cynlluniau yn dal i gael eu datblygu i lenwi'r bwlch cyllidebol o £23.4m sy'n weddill ar gyfer 2018/19. Mae'r heddlu yn cydnabod maint sylweddol yr her ariannol ac mae'n hyderus y dylai ei raglen newid ei alluogi i ryddhau'r arbedion angenrheidiol. Mae wedi cwblhau gwaith cynllunio senarios i asesu risgiau ac opsiynau ac mae'n datblygu cynlluniau wrth gefn, gan gynnwys newidiadau i'r model gweithlu presennol. Mae ystyriaeth gynnar o'r risgiau hyn a'r camau lliniaru posibl yn dangos meddylfryd blaengar yr heddlu.

DA

[tudalen 83]

ATODIAD 3

Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2015-16 – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru

Blwyddyn yr archwiliad: 2015-16
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016
Cyfeirnod dogfen: 636A2016

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb yng nghyd-destun unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn ei swyddogaeth unigol, nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir eich sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn amlinellu'r camau y dylai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd wrth ymdrin ag ymholiadau, yn cynnwys ymgynghori gyda thrydydd partiön. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ann-Marie Harkin, Matthew Coe, Andy Bruce a Gareth Lucey.

Cynnwys

Crynodeb o'r Adroddiad

Cyflwyniad 4

Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2015-16 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu 4

Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 6

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd archwiliad o'r cyfrifon ar 30 Medi 2016 10

Atodiadau

Atodiad 1 – meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 11

Atodiad 2 – risgiau sylweddol wrth archwilio 12

Crynodeb o'r adroddiad

Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd parthed Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith a wnaethpwyd gennyf yn caniatáu imi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau unigol y ddwy gorfforaeth i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

3 Ceir mwy o fanylion ar agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau unigol a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm wedi trafod a chytuno'r adroddiadau hyn gyda swyddogion a'u cyflwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, y Prif Gwnstabl a'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2016 yn amlinellu'r risgiau wrth archwilio datganiadau ariannol ar gyfer 2016, ac mae Atodiad 2 yn dangos sut y gwnaethom ddelio â'r rhain fel rhan o'r archwiliad.

Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2015-16 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu

4 Mae'r datganiadau ariannol yn fodd allweddol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru (y Prif Gwnstabl) roi cyfrif o'u stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddynt a'u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Mae ganddynt gyfrifoldeb i:

- roi systemau rheoli mewnol yn eu lle i sicrhau cysondeb a chyfreithlondeb trafodion;

- cadw cofnodion cyfrifo priodol; a

- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

5 Mae gofyn imi archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n cynnwys barn os yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun 'gwir a theg' o sefyllfa ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r adroddiadau hefyd yn cyflwyno fy marn os yw'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n gywir, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 a rheoliadau perthnasol.

6 Ar 30 Medi 2016, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau archwilio diamedd ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

7 Arwyddwyd y datganiadau ariannol drafft gan Brif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar 30 Mehefin 2016, yn unol â'r terfyn amser statudol. Fe dderbyniom y datganiadau ariannol drafft hyn am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 6 Gorffennaf 2016, yn unol â'r amserlen archwilio gytûn.

8 Roedd safon y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio'n welliant pellach ar y flwyddyn flaenorol, oedd yn adlewyrchu gwaith pellach ar ran rheolwyr a staff fel rhan o'r broses o gau'r cyfrifon am y flwyddyn. Cafwyd bod y wybodaeth a'r papurau gwaith a ddarparwyd i ategu'r cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, ac yn rhwydd i'w deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifo'n briodol a bod datgeliadau datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg a chlr. Ni chafwyd unrhyw anawsterau o bwys yn ystod yr archwiliad. Fe dderbyniom wybodaeth mewn modd amserol a chynorthwyol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith mewn unrhyw fodd.

9 Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn mynnu y dylai archwilwyr adrodd ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r 'rheini sy'n gyfrifol am reoli'. Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac i'r Cydbwyllgor Archwilio, yn eu cyfarfod ar 16 Medi 2016. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl **Gofyniad adrodd** Addasiadau i adroddiad yr archwilydd.

Camddywediadau heb eu haddasu.
Barn am agweddau ansoddol arferion cyfrifo ac adrodd ariannol yr endid.
Materion y gohebwyd â'r rheolwyr yn eu

Canfyddiadau'r archwiliad

Nid oedd angen unrhyw addasiadau, cyflwynwyd barn ddiamod.
Dim camddywediadau heb eu cywiro.
Ni adroddwyd am unrhyw faterion.
Ni ohebwyd â rheolwyr ar unrhyw

cylch.
Materion sy'n berthnasol i oruchwyllo'r broses adrodd ariannol.
Gwendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol.
Materion sy'n ofynion penodol gan safonau archwilio eraill i'w cyfathrebu i'r rheini sy'n gyfrifol am reoli.

faterion.
Ni adroddwyd am unrhyw faterion.

Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol.

Ni adroddwyd am unrhyw faterion.

[tudalen 84]

ATODIAD 4

Crynodeb o'r Cyhoeddiad ynglŷn â Chyllid Refeniw'r Heddlu ar gyfer 2017-2021

	2014/15 £M	2015/16 £M	2016/17 £M	2017/18 £M	2018/19 £M	2019/20 £M	2020/21 £M
Cyfanswm y Fformiwla Ariannu:							
Setliad Craidd yr Heddlu	4,585	4312	4290	4233	4233	4233	4233
Prif Grant yr Heddlu y Swyddfa Gartref	4,407	4136	4112	4055	4055	4055	4055
Grant Cenedlaethol, Rhyngwladol a Phrifddinas (MPA/MoPC yn unig)	176	174	174	174	174	174	174
Grant Prifddinas Dinas Llundain	2	3	5	5	5	5	5
Grant Cyffredinol DCLG	2,926	2820	2802	2765	2765	2765	2765
symiau'r fformiwla ariannu	2,924	2818	2800	2763	2763	2763	2763
Arolwg Ordians	2	2	2	2	2	2	2
Grant Cyffredinol Llywodraeth Cymru	140	135	137	139	139	139	139
Canolfan Gydgyssylltu Genedlaethol yr Heddlu	2	0					
Adennill Costau TG Cenedlaethol	0			1	1	1	1
SETLIAD CRAIDD	7,653	7,267	7,229	7,138	7,138	7,138	7,138
Cyfanswm	819	919	1,130	1,362	1,492	1,647	1,647

Grantiau Penodol y Swyddfa Gartref:							
Yn cynnwys.....							
Swm Ychwanegol Cymru	13	13	9.9	5.9	5.9	5.9	5.9
Grant Penodol Gwrthderfysgaeth	564	564	640	670	670	670	670
Cronfa Arloesedd yr Heddlu	50	70	55	0	0	0	0
Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	18	30	32				
Coleg Plismona (ar gyfer cynlluniau mynediad uniongyrchol)	3	5	5				
ACEM ar gyfer arolygiadau arferol o heddluoedd	9	9	9				
Cyrff Hyd Braich - ACEM-IPCC-Coleg Plismona				54	54	54	54
Grant Arbennig yr Heddlu		15	25	50	50	50	50
Rhaglenni Mawr		40	22				
Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau a Mechnïaeth cyn Cyhuddo				17	17	17	17
Mae'r Gronfa Drawsnewid yn cynnwys £32M CTSFO			76	175	175	175	175
Grant Menter Cyllid Preifat	73	73	73	73	73	73	73
Grantiau Rhewi Treth Gyngor Etifeddol - Treth Gyngor Etifeddol - Lloegr	23	31	31	31	31	31	31
Grant Rhewi Treth Gyngor etifeddol (11/12)	59	59	59	59	59	59	59
Grant Rhewi Treth Gyngor etifeddol (13/14)	7	7	7	7	7	7	7
Grant Rhewi Treth		3	3	3	3	3	3

Gyngor etifeddol (14/15)							
Grant Rhewi Treth Gyngor etifeddol (15/16)			4	4	4	4	4
Lliniaru ESN			80	213	343	498	498
Cyfanswm Cyllid y Llywodraeth	8,479	8,186	8,359	8,500	8,630	8,785	8,785
% newid arian parod yng Nghyfanswm Cyllid y Llywodraeth	-3.3%	-3.5%	2.1%	1.7%	1.5%	1.8%	0.0%
Addasiadau							
Grantiau Treth Gyngor Etifeddol DCLG	404	404	404	404	404	404	404
Grantiau rhewi DCLG MOPAc a Heddlu Dinas Llundain		37	37	37	37	37	37
Airwave		204	204	204	204	204	204
Cyllid Llywodraeth Ganolog gan gynnwys CT	8,479	8,831	9,004	9,145	9,275	9,430	9,430
Addasiad sylfaenol NCA		14	14	28	28	28	28
CT		(564)	(640)	(670)	(670)	(670)	(670)
Cyfanswm Cyllid y Llywodraeth heb gynnwys CT		8,281	8,378	8,503	8,633	8,788	8,788
FFIGURAU O HANSARD (HEB GYNNWYS CT)		8,271	8,378	8,497	8,631	8,785	8,785

[tudalen 85]

ATODIAD 5

Anghydraddoldebau Cyllido sy’n Effeithio ar Heddlu De Cymru

1. Dyraniad Fformiwla, Dull Cyllid Gwaelodol

Er gwaethaf yr anghydraddoldebau o fewn y fformiwla ariannol gwrthodwyd rhoi dyraniad llawn y fformiwla i Heddlu De Cymru ers dros ddegawd. Mae swm arian y fformiwla nas rhoddwyd wedi cyrraedd cyfanswm o **£75M** bellach.

Mae’n achos pryder mawr i ni o hyd na fu unrhyw gynnydd o ran dull amgen o ymdrin â didyniadau cyllid gwaelodol. Mae Heddlu De Cymru yn cyfrannu tua £8.8M y flwyddyn ar hyn o bryd tuag at y dull Cyllid Gwaelodol, sef pumed cyfrannwr mwyaf

cyllid gwaelodol. Dengys y dadansoddiad fod anghysondebau amlwg lle mae arian grant yn cael ei ailddyrranu o bosibl o ardaloedd difreintiedig i ardaloedd llai difreintiedig o ganlyniad i gyllido gwaelodol.

Diogelwch 2011/12 –(5.1%)

Diogelwch 2012/13 –(6.7%)

Diogelwch 2013/14 –(1.6%)

Diogelwch 2014/15 –(4.8%)

Diogelwch 2015/16 –(5.1%)

Diogelwch 2016/17 –(0.6%)

Diogelwch 2017/18 –(0.6%)

Y rhai ar eu hennill

Northumbria

Cumbria

Gogledd Cymru

West Mercia

Swydd Gaer

Dinas Llundain

Heddlu Gogledd Swydd Efrog

Dyfed-Powys

Glannau'r Mersi

Swydd Gaerhirfryn

Surrey

Durham

Caint

Dyfnaint a Chernyw

Wiltshire

Swydd Gaerloyw

Sussex

Cleaveland

Gwent

Suffolk

Swydd Warwick

Essex

Norfolk

Y rhai ar eu colled

Swydd Lincoln

De Swydd Efrog

Dorset

Swydd Derby

Swydd Stafford

Northampton

Swydd Hertford

Swydd Bedford

Humberside

Dyffryn Tafwys

Swydd Gaergrawnt
Swydd Gaerlŷr
Gorllewin Swydd Efrog
Awdurdod Llundain Fwyaf
Heddlu Manceinion Fwyaf
De Cymru
Hampshire
Swydd Nottingham
Avon a Gwlad yr Haf
Gorllewin Canolbarth Lloegr

Gwrthodwyd rhoi £66M o arian fformiwla i Heddlu De Cymru hyd yma.

Byddai'r dyraniadau yn wahanol pe bai dull gweithredu mwy soffistigedig ar waith. Fodd bynnag, byddai'n llawer gwell pe bai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i ddiogelu'r heddluoedd hynny o dan lefel y cyllid gwaelodol nes bod y fformiwla ariannu wedi'i hadolygu'n briodol. Mae'r penderfyniad i wrthod rhoi £75M o arian hyd yma yn ffactor allweddol yn y bwch yn y cyllid seilwaith a welir. Mae'r penderfyniad i barhau i gymhwyso darpariaethau tampio yn y ffordd hon yn dirmygu unrhyw ddull ariannu.

2 Fformiwla Ariannu

Ariennir y 43 o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr drwy gyfuniad o Grantiau Llywodraeth Ganolog a Phraesept yr Heddlu (a benderfynir yn lleol). Y Llywodraeth sy'n pennu cyfanswm yr arian o Grantiau Canolog ac yna caiff ei ddosbarthu drwy gymhwyso fformiwla sy'n seiliedig ar angen.

[tudalen 86]

ATODIAD 5

Mae'r fformiwla bresennol a ddefnyddir i ddosbarthu Prif Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref yn rhannu cyllid rhwng y gweithgareddau gwahanol y mae'r heddlu yn ymgymryd â hwy. Gellir rhannu'r gweithgareddau hyn, neu lwythi gwaith, yn bum maes allweddol: Troseddu, Digwyddiadau (e.e. anhrefn gyhoeddus), Traffig (e.e. cynorthwyo pan fod damweiniau traffig ar y ffordd), Ofn Troseddau (e.e. tawelu meddwl y cyhoedd) a Digwyddiadau Arbennig (e.e. gemau pêl-droed). Caiff cyfran o gyfanswm y cyllid ei ddosbarthu hefyd yn ôl teneurwydd poblogaeth, er mwyn diwallu anghenion penodol heddluoedd gwledig.

Mae rhai materion penodol o fewn y fformiwla ariannu bresennol yn cael effaith andwyol ar Heddlu De Cymru oherwydd y canlynol:

- Addasiad Cost Ardal
- Cyllid Gwariant Cyfalaf
- Peidio â chydabod Caerdydd fel Prifddinas Cymru at ddibenion ariannu.

3 Addasiad Cost Ardal

Mae'r Addasiad Cost Ardal yn ceisio cydnabod cost darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn rhannau daearyddol gwahanol o'r wlad. Fodd bynnag, mae'r ffordd y'i cymhwysir at blismona yn codi pryderon am nifer o resymau:

- Pennir cyflogau swyddogion yr heddlu yn genedlaethol ac eithrio rhai materion penodol ynglŷn â Llundain mae'n gyson ledled y wlad.
- Yn yr un modd pennir cynnydd yng nghyflogau staff yr heddlu yn genedlaethol ac maent yn debyg yn fras ac eithrio mewn achosion grym y farchnad a gellid dadlau bod hyn yn ymwneud mwy â Llundain.
- Mae gweddill y gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau (20%) yn amodol ar amrywiaeth o lwybrau caffael, gan gynnwys fframweithiau cenedlaethol.
- Felly, dim ond dadl gyfyngedig y gellid ei chyflwyno dros amrywiad lleol. Ond eto caiff yr Addasiad Cost Ardal ei gymhwyso at y Fformiwla Ariannu gyfan fel yr addasiad ailddyrannu terfynol.

Mae natur hap yr ardaloedd glas sy'n cael budd o dan addasiad cost ardal yn amhosibl ei deall.

[tudalen 87]

ATODIAD 5

- Mae ymestyn yr Addasiad Cost Ardal ledled y wlad bellach yn aflunio dyraniad grant y fformiwla yn sylweddol ac mae wedi ymestyn dros ardal ehangach dros y degawd diwethaf fel y dangosir uchod ac mae'r rhannau wedi'u tywyllu yn adlewyrchu'r ymestyniad o Lundain i'r de-ddwyrain Llundain a thu hwnt.

Er y gellir deall pam y cymhwysir yr Addasiad Cost Ardal at ardal gyfyngedig yn rhanbarth De-ddwyrain Lloegr dylai hyn gael ei gyfyngu i'r elfennau hynny mewn costau plismona y mae amrywiadau daearyddol mewn prisiau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'n amlwg o'r uchod bod yr Addasiad Cost Ardal yn mynd yn llawer ehangach na De-ddwyrain Lloegr. At hynny, mae'r Addasiad Cost Ardal yn anwybyddu Cymru fel gwlad yn gyfan gwbl ac eto nid yw ardaloedd De a Gogledd Cymru yn annhebygol mewn termau economaidd i rai o'r ardaloedd lle y cymhwysir yr Addasiad Cost Ardal ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig, yng ngoleuni'r adolygiad arfaethedig o'r Fformiwla Ariannu gan y Swyddfa Gartref, bod pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio unioni'r problemau a nodir isod yn yr hirdymor.

4 Cyllid Cyfalaf

Mae'r lleihad o hyd mewn cyllid cyfalaf yn lleihau'r gallu i fynd i'r afael â materion etifeddol ystad ddarfodedig ac yn cynyddu'r risgiau o ran ystyriaethau iechyd a diogelwch. Mae'r cyllid sydd ei angen ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag arolygon o gyflwr eiddo yn fwy na'r arian sydd ar gael gan ffactor 10. Mae'r angen am ddull amgen o ymdrin â chyllid ystad cyfalaf yn hirsefydledig, yn enwedig gan na fu Cyllid

Menter Preifat erioed ar gael i Heddlu De Cymru; mae gan y tri heddlu arall yng Nghymru gynlluniau Menter Cyllid Preifat cymeradwy ac maent yn cael cyllid blynyddol i'w cefnogi. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau bod symiau canlyniadol Barnett ar gyfer ariannu Mentrau Cyllid Preifat wedi'u cyfrifo ac mae ein hasesiad yn dangos tanddyraniad hyn i blismona yng Nghymru o flwyddyn i flwyddyn.

Er na cheisir Mentr Cyllid Preifat fel ateb i'r bydd benthyca â chymorth yn ein galluogi i fynd i'r afael â rhai problemau difrifol o ran seilwaith hanfodol.

5 Prifddinas

Mae'n wir bod y fformiwla ariannu bresennol yn cynnwys ychydig o ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau mawr, dim ond swm cyffredinol nominal wedi'i luosi â ffactor poblogaeth ydyw. Yn y bôn, mae'r fformiwla yn rhoi'r un gydnabyddiaeth gymharol y pen o'r boblogaeth i Norfolk ag y mae'n ei rhoi i Heddlu De Cymru, er bod nifer y digwyddiadau mawr a'u hamrywiaeth dipyn yn wahanol.

[tudalen 88]

ATODIAD 5

Mae'n bwysig cydnabod bod effaith plismona Caerdydd yn ymestyn i ardal gyfan yr Heddlu o ystyried y llif o adnoddau i ymdrin â nifer y digwyddiadau a gynhelir yn y Brifddinas. Mewn blwyddyn arferol mae Heddlu De Cymru yn rheoli tua 500 o ddigwyddiadau mewn gwrthgyferbyniad llwyr â heddluoedd fel Norfolk neu Wiltshire.

Mae Caerdydd yn unigryw fel yr ardal drefol fwyaf yng Nghymru gyda seilwaith sy'n addas ar gyfer digwyddiadau ac sy'n atyniadol i'r rhai sy'n eu mynychu ac yn eu trefnu. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau dymunol hyn yn gofyn am strategaeth blismona fforddiadwy effeithiol gymesur ac er ein bod yn mynd i'r afael â hyn, mae ar draul y gofynion plismona ehangach yn Ne Cymru.

- Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o safleoedd trwyddedig fesul milltir sgwâr ymhlith dinasoedd y DU ac mae'n parhau i dyfu. Mae tua 50,000-70,000 o bobl yn ymweld ar benwythnosau ac mae'r economi liw nos hon, yn anochel, yn arwain at ofynion plismona trwm.

- Mae Caerdydd yn denu 12 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn ac mae bellach ymhlith y deg cyrchfan mwyaf poblogaidd i dwristiaid yn y DU. Mae gweithgarwch adfywio diweddar yn cynnwys datblygiad Bae Caerdydd gwerth £1.8 biliwn a datblygiad Canolfan Mileniwm Cymru gwerth £102M, sef atyniad mwyaf poblogaidd Cymru.

- Mewn blwyddyn arferol bydd yr heddlu yn cynllunio ar gyfer rhwng 400 a 500 o ddigwyddiadau o faint amrywiol yng Nghaerdydd yn unig. Mae'r rhain yn amrywio o ddigwyddiadau eiconig lleol a rhyngwladol mewn lleoliadau eiconig sy'n dwyn bygythiadau ychwanegol sy'n ymwneud â gwrthderfysgaeth.

- Mae Caerdydd fel canolfan Llywodraeth Cymru yn denu nifer gynyddol o wrthdystiadau yn erbyn polisi rhanbarthol a chenedlaethol.

- Ceir tystiolaeth bod Caerdydd yn cael ei defnyddio fel lleoliad i grwpiau troseddol cyfundrefnol anfrodorol sydd â chysylltiadau â grwpiau yn Llundain, Bryste a Manceinion. Cydnabyddir mai Caerdydd yw'r brif ganolfan ddosbarthu ar gyfer gangiau cyffuriau yn Ne-ddwyrain Cymru.

- Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyniant economaidd ymhlith rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a'r DU yn dibynnu ar brifddinas gadarn a chynaliadwy. Gosododd Mynegai Amddifadedd Lluosog 2005 Cymru nifer o ardaloedd yng Nghaerdydd ymhlith 10% uchaf yn y categori difreintiedig, yn benodol rhannu o Butetown a Glan-yr-afon.

Gellir dweud bod yr amgylchiadau hyn yn codi ledled y wlad ond byddem yn dadlau bod y cyfuniad yn unigryw a'i fod yn ymwneud â statws y ddinas, na all unrhyw fformiwla ariannu gyffredinol fynd i'r afael ag ef ac fel yn achos Caeredin a Llundain mae angen ateb penodol y tu allan i fformiwla.

Mae Heddlu De Cymru yn gyfrifol am 42% o boblogaeth Cymru ac yn ymdrin â 49% o'r holl droseddau yng Nghymru. Mae Caerdydd yn cyfrif am 30% o boblogaeth ardal yr heddlu ac yn ôl ein hamcangyfrif ceidwadol o'r gofynion plismona sy'n gysylltiedig â statws Prifddinas yn unig byddai hynny'n cyfateb i £2.6M.

Mae'n bwysig nodi bod y Gweinidog dros Blismona wedi cydnabod materion o'r fath mewn perthynas â Heddlu Dinas Llundain drwy roi arian ychwanegol wedi'i frigdorri ac felly erbyn hyn mae'n bryd cydnabod bod i Gaerdydd statws arbennig tebyg.

[tudalen 89]

ATODIAD 6

HEDDLU DE CYMRU CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2017/18 - 2020/21

	Cyllideb Wirioneddol 2016/17 £000	Cyllideb a Ragwelir 2017/18 £000	Cyllideb a Ragwelir 2018/19 £000	Cyllideb a Ragwelir 2019/20 £000	Cyllideb a Ragwelir 2020/21 £000
Cyflogeion					
Swyddogion yr Heddlu	131,700	129,448	132,042	133,933	135,272
Staff yr Heddlu	59,940	67,310	67,983	68,663	69,350
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	13,447	13,956	14,096	14,237	14,379
Pensiynau'r Heddlu (net)	30,052	29,028	30,238	30,671	30,977
Cyfanswm Costau Cyflogeion	235,139	239,742	244,359	247,503	249,978
Treuliau Rhedeg					

Treuliau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau i'w rhannu isod		Rhaniad Nominal			
Staff Anuniongyrchol	1,832	1,944	3,993	5,043	5,094
Costau Safleoedd	9,754	10,353	10,612	10,877	11,149
Costau Cludiant	4,919	5,221	5,351	5,485	5,622
Cyflenwadau a Gwasanaethau	18,792	19,945	20,444	20,955	21,479
Gwasanaethau Asiantaeth ac Wedi'u Contractio	9,485	10,067	10,319	10,577	10,841
Cyfanswm y Treuliau Rhedeg	44,782	47,531	50,719	52,937	54,185
Costau Ariannu Cyfalaf	5,822	10,608	10,608	10,608	10,608
Cyfanswm y Gwariant	285,743	297,881	305,686	311,048	314,771
Incwm					
Grantiau Penodol	(13,224)	(16,207)	(16,207)	(16,207)	(16,207)
Grantiau Penodol - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Llywodraeth Cymru	(6,910)	(7,180)	(7,180)	(7,180)	(7,180)
Incwm Arall	(6,691)	(8,642)	(8,642)	(8,642)	(8,642)
Cyfanswm yr Incwm	(26,825)	(32,029)	(32,029)	(32,029)	(32,029)
CYFANSWM GWARIANT REFENIW NET	258,918	265,852	273,657	279,019	282,742
Grantiau a Phraeseptau - Yn seiliedig ar					
Grant yr Heddlu	(97,592)	(96,229)	(96,229)	(93,396)	(89,995)
Ardreth Annomestig Genedlaethol/Grant Cynnal Refeniw	(72,176)	(73,341)	(73,341)	(73,341)	(73,341)
Rheol 1	10,129	12,163	12,163	12,163	12,163
Lleihad mewn Cyllid a Ragwelir (1.8% 18-19, 2.2% 19-20, 2.6% 20-21)			2,833	3,401	3,930
Cyfanswm y Cymorth Allanol	(159,639)	(157,407)	(154,574)	(151,173)	(147,243)
Praeseptau ar Awdurdodau Bilio	(99,279)	(105,383)	(111,205)	(117,349)	(123,832)
CYFANSWM YR ADNODDAU	(258,918)	(262,790)	(265,779)	(268,522)	(271,075)

Gwariant Cronnol Heb ei Ariannu	0	3,062	7,878	10,497	11,667
Arbedion y Cynllun Gwerth am Arian	0	(3,062)	(4,206)	(4,406)	(4,406)
Bwlch Cyllidebol Gweddilliol	0	0	3,672	6,091	7,261
SYLFAEN DRETH cynnydd amcangyfrifedig o 0.5% y.f. o 18/19 ymlaen	477,641.67	482,865.15	485,279.48	487,705.87	490,144.40
CYNNYDD O 5% YM MHRAESEPT BAND D	£207.85	£218.24	£229.16	£240.61	£252.64

[tudalen 90]

ATODIAD 7

CYLLIDEB REFENIW 2017/18 CYSONI NEWIDIADAU 2016/17 i 2017/18

Cynnydd yn y Gyllideb uwchlaw 2016/17

	Gwariant		Treth sy'n Cyfateb i Fand D Yn glir o Gyllid Allanol yn unol â'r setliad	
Costau na ellir eu hosgoi	£000	%	£	%
Chwyddiant Cyflogau a Drifft Cynyddrannol (gan gynnwys Winsor)	4,521	1.7%	9.36	4.5%
Chwyddiant Arall	817	0.3%	1.69	0.8%
Addasiadau Cyllideb Sylfaenol ac Ailddyraniadau	4,848	1.9%	10.04	4.8%
Dyraniadau Grant Penodol	(3,253)	-1.3%	(6.74)	(3.2) %
Grant Diwygiedig yr Heddlu/Grant Cynnal Refeniw/Ardreth Annomestig Genedlaethol	2,232	0.9%	4.62	2.2%
Newid yn y Gofyniad Cyllidebol	9,165	3.5%	18.98	9.1%
Camau Mantoli'r Gyllideb				
Arbedion Ychwanegol y Cynllun Gwerth am Arian	(3,062)	(1.2)%	(6.34)	(3.1)%
Cynnydd yn y Sylfaen Dreth	(1,086)	(0.4)%	(2.25)	(1.1)%
Balans y Cyllid o'r Cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu	(5,017)	(1.9)%	(10.39)	(5.0)%
Balans Gweddilliol	-			

[tudalen 91]

ATODIAD 8

HEDDLU DE CYMRU

DADANSODDIAD O NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB REFENIW - 2016/17 I 2017/18

	£'000	£'000
Chwyddiant Cyflogau a Phensiynau a Drifft Cynyddrannol		CYFANSWM
Swyddogion yr Heddlu		
Dyfarniad Cyflogau	1,574	
Niferoedd wedi'u hailsefydlu gan gynnwys drifft cynyddrannol/strwythur y rhengoedd	(1,266)	
Ymddeol oherwydd Salwch	(300)	
Bwlch Agored i Niwed / 44 o Swyddi Ychwanegol	1,331	
Lefi Prentisiaeth	600	
Cynnydd yn y Ffactor Swyddi Gwag	(5,148)	
Newidiadau net mewn swyddi a ariennir yn allanol	95	
Gorbenion a Lwfansau	(456)	
Tai, Rhent, CRTP a Lwfansau		
Goramser	212	
		(3,358)
Staff yr Heddlu		
Dyfarniad Cyflogau	725	
Drifft Cynyddrannol/Newidiadau Graddfa/Sifft Penwythnos	644	
Lefi Prentisiaeth	300	
Cynnydd yng nghyfradd Pensiwn Staff	2,046	
Cyflog Byw	15	
33 o Swyddi Bwlch Agored i Niwed	1,217	
Swyddi Mynegai Apollo (a ariennir yn allanol)	1,416	
Unioni gofynion cyllidebol cylchol e.e. Fusion	795	
Cynnydd Net yng Nghostau Staff y Comisiynydd	150	
Newidiadau i Swyddi eraill a Ariennir yn Allanol	571	
		7,879
Is-gyfanswm Chwyddiant Cyflogau a Phensiynau a Drifft Cynyddrannol		4,521
Chwyddiant Arall		
Chwyddiant, Contractau a Chyfleustodau	905	
Cynnydd Chwyddiannol ar Incwm	(88)	
Is-gyfanswm Chwyddiant Arall		817
Addasiadau Cyllideb Sylfaenol ac Ailddyraniadau		
Addasiadau Cyllideb Sylfaenol Net	89	
Cyllid Refeniw Uniongyrchol	4,787	
Y Comisiynydd - newidiadau cyllideb sylfaenol	265	
Newidiadau mewn Cyllid Allanol	(293)	
Is-gyfanswm Addasiadau Cyllideb Sylfaenol ac Ailddyraniadau		4,848
Grant Penodol a Chyffredinol		
Newidiadau Amrywiol mewn Cyllid Allanol Penodol	(3,253)	

Gostyngiad yng Ngrant yr Heddlu/Grant Cynnal Refeniw/ Ardreth Annomestig Genedlaethol - CSR 2010	2,232	
Is-gyfanswm Grant Penodol a Chyffredinol		(1,021)
Cynnydd yn y Sylfaen Dreth		(1,086)
Cyfanswm y Gofyniad Cyllidebol Digyfnwid		8,079
Cynnydd o 5% yn y Praesept		(5,017)
Cyfanswm Gwariant Heb ei Ariannu		3,062

[TUDALEN 92]

ATODIAD 9

NEWIDIADAU I GYLLIDEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

CYLLIDEB 2017/18	2016/17	2017/18	Amrywiant
	Cyllideb	Cyllideb	
Cyllideb y Comisiynydd	£'000	£'000	£'000
Costau Cyflogau Staff	845	1,229	
Cost Cyflogau Swyddogion	58	58	
Costau Anuniongyrchol Cyflogeion	23	30	
Costau Safleoedd	4	4	
Costau Cludiant	26	26	
Cyflenwadau a Gwasanaethau	98	228	
Is-gyfanswm	1,054	1,575	521
Cronfa Diogelwch Cymunedol			
Dyfodol - Ymyriadau Troseddwy	2,374	2,324	
Rhaglen Profion Cyffuriau	110	-	
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	625	625	
Timau Troseddwy Ifanc	332	332	
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Penderfyniadau yn ystod y Flwyddyn	35	35	
Is-gyfanswm	3,476	3,316	- 160
Cyfanswm	4,530	4,891	361

[TUDALEN 93]

ATODIAD 10

Cyllideb Rhaglen Gyfalaf 2017/18 a Rhagolwg hyd at 2020/21

	Proffil Cyllidebol					
Disgrifiad	2016/17 ALLDRO A RAGWELIR	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	Cyfanswm 4 Blynedd yn y Dyfodol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cynnal a Chadw Seilwaith						

Gwaith Ystadau Hanfodol a Deddfwriaethol	1,630	2,648	1,829	2,535	2,081	9,093
Fflyd	2,470	2,401	2,005	1,936	1,946	8,288
Gwasanaethau Gwybodaeth	1,435	2,262	3,697	2,262	2,872	11,093
Arall	1,120	10	10	10	10	40
Cyfanswm Cynnal a Chadw Seilwaith	6,655	7,321	7,541	6,743	6,909	28,514
Prosiectau Untro i'w Hariannu'n Fewnol						
Ystadau	2,176	8,000	12,000	9,500	13,500	43,000
Gwasanaethau Gwybodaeth	1,059	3,165	5,313	3,365	0	11,843
Cyfanswm y Prosiectau Untro i'w Hariannu'n Fewnol	3,235	11,165	17,313	12,865	13,500	54,843
Prosiectau a Gefnogir gan Gyllid Ariannol						
Ystadau - Prosiectau a Ariennir yn Allanol	9,414	0	0	0	0	0
Gwasanaethau Gwybodaeth - Prosiectau a Ariennir yn Allanol	3,082	4,813	1,700	1,570	2,161	10,244
Cyfanswm y Prosiectau a Ariennir gan Gyllid Allanol	12,496	4,813	1,700	1,570	2,161	10,244
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF	22,386	23,299	26,554	21,178	22,570	93,601
Crynodeb o'r Cyllid						
Cyllid Craidd						
Grantiau Cyfalaf	1,149	1,000	1,000	1,000	1,000	4,000

Sylfaenol						
Cyfraniad Refeniw	3,060	3,060	3,060	3,060	3,060	12,240
Cyfraniad Refeniw Ychwanegol		4,786	4,786	4,786	4,786	19,144
Cyfraniad Refeniw Ychwanegol a gynlluniwyd yn wreiddiol yn lle benthycu	1,671					0
Benthycu Heb Gymorth		1,671	1,671	1,671	1,671	6,684
Cyfanswm y Cyllid Craidd	5,880	10,517	10,517	10,517	10,517	42,068
Arian Grant	590	5,365	0	0	0	5,365
Cyfraniadau Eraill	5,607	6,023	7,749	8,000	0	21,772
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn Benodol	13,374	288	0	0	0	288
Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd	1,796	4,861	3,756	(4,533)	(7,193)	(7,193)
Cyfanswm y Cyllid sydd Ar Gael	27,247	27,054	22,022	13,984	3,324	3,324
Cronfeydd Gyfalaf Wrth Gefn a Gariwyd Ymlaen	4,861	3,756	(4,533)	(7,193)	(19,246)	(19,246)
Cyfanswm Diffyg Cyllid Cyfalaf		3,756	(4,533)	(7,193)	(19,246)	(19,246)

[tudalen 94]
ATODIAD 11

CYNLLUN GWERTH AM ARIAN 2017/18 I 2020/21

DIGWYDDIA DAU	Etholiad Cyffredin ol	Adolygiad Cynhwysfa wr o Wariant 2010				Etholiad Cyffredinol	Adolygiad Cynhwysfa wr o Wariant 2016				Etholiad Cyffredin ol		
		Etholiadau Lleol				Setliad Blwyddyn	Etholiadau Lleol					Etholiadau Lleol	
Enw Prosiect Effeithlonrwydd	Targed 2010/11	Targed 2011/12	Targed 2012/13	Targed 2013/14	Targed 2014/15	Targed 2015/16	Targed 2016/17	Cyfanswm Hyd Yma	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20	Targed 2020/21	Cyfanswm
									Cronnol				
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Targedau Gwerth am Arian	2,600	16,439	5,239	2,300	5,331	7,477	5,370	44,756	3,062	7,878	10,497	11,667	56,423
Nifer Swyddogion yr Heddlu		7,622	2,750	1,500	570		-	12,442	-				12,442
Nifer Staff yr Heddlu	2,600	6,084	1,000	-	1,443	1,108	3,539	15,774	1,000	1,000	1,000	1,000	16,774
Nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	-	679		-	1,000	2,000		3,679					3,679
Dadsifileiddio								-					-
Telerau ac Amodau a Thrawsnewid ac	-		-	700	959	420	489	2,568	-	-	-	-	2,568

argostau													
Cydweithred u	-		-	-	-	359		359	131	1,000	1,000	1,000	1,359
Nwyddau a Gwasanaethau	-	859	784	100	1,209	1,640	1,342	5,934	1,009	1,043	1,043	1,043	6,977
Cludiant	-	500	500	-	-	250		1,250	202	202	202	202	1,452
Ystad	-	695	105	-	-	200		1,000	159	400	600	600	1,600
Rhaglen Gyfalaf	-	-	-	-	-	1,000		1,000					1,000
Incwm	-	-	100	-	150	500		750	561	561	561	561	1,311
Sicrhau Gwerth am Arian	2,600	16,439	5,239	2,300	5,331	7,477	5,370	44,756	3,062	4,206	4,406	4,406	49,162
DIFFYG REFENIW	-	-	-	-	-	-	-		0	3,672	6,091	7,261	7,261
DIFFYG RHAGLEN GYFALAF										4,533	7,193	19,246	19,246
										8,205	13,284	26,508	26,508

[tudalen 95]

ATODIAD 12

HEDDLU DE CYMRU

CYLLIDEB 2017/18

SYMUDIADAU O RAN NIFEROEDD CALI

	Toriadau'r Cynllun Gwerth am Arian	Ariennir gan Heddlu De Cymru - Amcanestyniad	Ariennir yn Allanol	Cyfanswm a Ariennir
Nifer Swyddogion yr Heddlu	CALI	CALI	CALI	CALI
2008/09		3,244	90	3,334
2009/10	(185)	3,059	102	3,161
2010/11	(38)	3,021	123	3,144
Ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant				
2011/12	(114)	2,907	137	3,044
2012/13	(62)	2,845	102	2,947
2013/14	(30)	2,815	97	2,912
2014/15	(15)	2,800	109	2,909
2015/16	-	2,800	118	2,918
2016/17	-	2,800	137	2,937
2017/18	-	2,844	139	2,983
2018/19 - Rhagolwg		2,894	139	3,033
2019/20 - Rhagolwg		2,913	139	3,052
2020/21 - Rhagolwg		2,913	139	3,052
	(444)			
Cyfanswm Nifer Swyddogion yr Heddlu a Ariennir yn 2017/18		2,844	139	2,983
	Toriadau'r Cynllun Gwerth am Arian	Ariennir gan Heddlu De Cymru - Amcanestyniad		Cyfanswm a Ariennir
2008/09		325	0	325
2009/10		325	0	325
2010/11		325	0	325

Ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant				0	
2011/12	(25)	300	0	300	
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gyflwynwyd fesul cam gan Lywodraeth Cymru 2012/13	-	300	206	506	
2013/14	-	300	206	506	
2014/15	(100)	200	206	406	
2015/16	-	200	206	406	
2016/17	-	200	206	406	
2017/18	-	200	206	406	
2018/19 - Rhagolwg		200	206	406	
2019/20 - Rhagolwg		200	206	406	
2020/21 - Rhagolwg		200	206	406	
	(125)				
Cyfanswm Nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu 2017/18		200	206	406	
Nifer Staff yr Heddlu	Toriadau'r Cynllun Gwerth am Arian	WFT/ CDO/ Addasiad Arall	Ariennir gan Heddlu De Cymru - Amcanestyniad	Ariennir yn Allanol	Cyfanswm a Ariennir
2008/09			1,789		1,789
2009/10		270	2,059		2,059
2010/11	(131)	69	1,997		1,997
Ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant					
2011/12	(167)		1,830		1,830
2012/13	(125)	2	1,707		1,707
2013/14	(60)	13	1,660		1,660
2014/15*	41	(130)	1,571	154	1,725
2015/16	(100)	112	1,583	186	1,769
2016/17	(21)	4	1,566	180	1,746

2017/18	0	67	1,633	222	1,855
2018/19 - Rhagolwg		2	1,635	222	1,857
2019/20 - Rhagolwg			1,635	222	1,857
2020/21 - Rhagolwg			1,635	222	1,857
		(563)			
Nifer Staff yr Heddlu 2017/18			1,633	222	1,855
* Wedi'u hariannu'n allanol wedi'u dadgyfuno					
CYFANSWM TORIADAU'R CYNLLUN GWERTH AM ARIAN	(1,132)				
CYFANSWM Y NIFEROEDD A ARIENNIR 2017/18			4,677	567	5,244

[tudalen 96]

Ein Pobl

Ar ôl gwneud llawer o ddewisiadau anodd wrth ailstrwythuro'r heddlu i ymateb i heriau ariannol y blynyddoedd diwethaf, mae'r cydbwysedd yn newid tuag at fwy o ffocws ar ddatblygu ein galluoedd a'n cynhyrchiant. Bydd ymarferion ailstrwythuro er mwyn sicrhau effeithlonrwydd bob amser yn rhan o sefydliad sy'n ffynnu ond ar ôl ailstrwythuro 16 o brif swyddogaethau yn y ddwy flynedd diwethaf mae'n rhaid mai'r cyfle mwyaf o ran effeithlonrwydd yw gwella cynhyrchiant drwy wella gallu ac adnoddau.

Mae'r heddlu eisoes yn bwrw ati drwy nifer o ddatblygiadau o ran adnoddau:

- Cynllun uchelgeisiol ar gyfer recriwtio sy'n cynyddu cyfanswm y swyddogion, rhai Gwirfoddol a rhai Cyflogedig, gyda chyfanswm cyfunol o 240 o recriwtiaid yn 2016/17 a 260 yn 2017/18. Rhagori ar gyfradd y rhai sy'n gadael yn naturiol fel y bydd cyfanswm net nifer y swyddogion wedi tyfu dros y cyfnod hwn. Nid yw niferoedd recriwtio manwl y tu hwnt i 2018 wedi'u pennu'n derfynol eto ond byddant o leiaf yn parhau â'r twf a sicrhawyd. Bydd y mewnbynnau hyn yn bwydo i mewn i newidiadau gallu mewnlol mewn rolau arbenigol megis Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed.
- Cynnal y cyfanswm ychwanegol o 406 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a pharhau i recriwtio.
- Sicrhau cydnherthedd yn y Ganolfan Cyswllt Cyhoeddus gyda hyd at 60 o recriwtiaid newydd y flwyddyn.

- Ehangu'r rhaglen i Wirfoddolwyr a fydd yn cynnwys datblygu rhaglen Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu ymhellach.

- Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn datblygu ymhellach y ffordd y mae'n cynnal y Ganolfan Rheoli Data Genedlaethol gyda recriwtiaid newydd a ariennir yn allanol hyd at 2018.

Mae'r galw o ganlyniad i recriwtio a dysgu cychwynnol ill dau wedi rhoi pwysau sylweddol ar yr heddlu ac er bod yr holl gynlluniau ar waith bydd angen cryn dipyn o waith rheoli manwl o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau y gall y cynlluniau gael eu cyflawni'n llwyddiannus. Er bod gan yr heddlu amrywiaeth eang o opsiynau datblygu a hyfforddiant eisoes bydd hefyd yn ceisio sicrhau y gall fod ar flaen y gad, yn enwedig o ran cymhwysedd a gallu arweinyddiaeth i gyflawni'r amcanion corfforaethol. Drwy ein ffocws parhaus ar ddatblygu rydym yn ceisio cefnogi dros 18,000 o ddiwrnodau hyfforddiant y flwyddyn. Gyda mewnbynnau datblygu ar raddfa mor fawr mae'n rhaid i'r heddlu sicrhau bod ganddo dargedau priodol er mwyn cael gwerth am arian a diwallu anghenion y cyhoedd. Drwy ddefnyddio system FIRMS a'r asesiad o alluoedd arbenigol plismona cenedlaethol rydym yn mireinio'r lefelau cymhwysedd sydd eu hangen arnom yn yr heddlu er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r meysydd lle ceir yr angen mwyaf.

Bydd datblygiad sefydliadol yn nodwedd amlwg iawn yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Ar lefel genedlaethol a lleol byddwn yn gweld mentrau a fydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant cyffredinol yr heddlu. Caiff y potensial i wella cynhyrchiant drwy fuddsoddiad Heddlu De Cymru yn systemau a thechnoleg yr heddlu ei wireddu drwy fentrau datblygu sefydliadol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion a staff wrth eu gwaith bob dydd.

[tudalen 97]

Rydym yn anelu at amcan cyffredinol o wella iechyd a lles staff a swyddogion drwy fwy o ymgysylltu a fydd yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol ac mae cynlluniau i gyflawni hyn wrthi'n cael eu datblygu.

Ar lefel blismona genedlaethol ledled Cymru a Lloegr ceir amrywiaeth eang o fentrau sy'n deillio o'r Coleg Plismona. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu cofnodion Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer pob aelod o staff,
- Cyflog ar sail cymhwysedd,
- Cymhwyseddau newydd,
- Datblygiadau yn strwythurau rhengoedd swyddogion yr heddlu,
- Llwybrau newydd i ymuno â'r heddlu a'i adael er mwyn cynnig hyblygrwydd o ran adnoddau yn ogystal â modelau gwobrwy mwy hyblyg,
- Achredu pob rhaglen ddysgu i safon ddysgu benodol ac isafswm lefelau addysg ym mhob un o rengoedd yr heddlu.
- Yn Lloegr, y cynllun prentisiaethau uwch yw'r ffrwd ariannu gymeradwy ar gyfer y newid hwn o ran cymwysterau swyddogion.

Wrth i'r rhain ddatblygu bydd yn bwysig ystyried i ba raddau y maent yn briodol i'w defnyddio yn Ne Cymru a rheoli'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, efallai y byddant yn cynnig y potensial i wneud ein model adnoddau yn fwy hyblyg a denu amrywiaeth wahanol o ymgeiswyr na'r ymgeiswyr a ddenwyd yn draddodiadol. Bydd y datblygiadau hyn hefyd yn gofyn am gryn fuddsoddiad ac amser rheoli er mwyn iddynt gael eu hymgorffori'n llwyddiannus yn yr heddlu. Mae Heddlu De Cymru wedi ymgysylltu'n dda â'r rhaglenni cenedlaethol hyn ac mae mewn sefyllfa well na llawer i allu eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni ellir tanamcangyfrif nifer a chymhlethdod y rhain a bydd yn rhaid i ni ganolbwyntio ymdrech a sylw arweinyddiaeth er mwyn sicrhau y cânt eu cyflawni.

Mae angen i'r cyd-destun recriwtio, cadw, datblygu a datblygu sefydliadol uchod gael ei ystyried yn erbyn cefndir o gyflawni rhaglen newid yn hynod lwyddiannus sydd wedi arwain at tua 1,000 yn llai o swyddogion a staff ers 2010. O ran materion pobl, y nod yn y dyfodol fydd gwella gallu, cymhwysedd ac ymgysylltu a lles staff i'r eithaf er mwyn gwella cynhyrchiant.

[tudalen 98]

ATODIAD 13

HEDDLU DE CYMRU CYLLIDEB REFENIW 2017/18 CYNNYDD O 5% YN Y PRAESEPT

A	GOFYNIAD CYLLIDEB A'R DRETH GYNGOR		£
			5%
	CYFANSWM Y GYLLIDEB		286,175,707
	LLAI: Grantiau Penodol		23,386,628
	GOFYNIAD CYLLIDEBOL		262,789,079
	LLAI: Grant Cynnal Refeniw		51,050,456
	Ardreth Annomestig Genedlaethol		22,290,378
	Grant Heddlu Penodol		84,065,727
	PRAESEPT AWDURDOD HEDDLU DE CYMRU		105,382,518
B	ELFEN AHDC O'R DRETH GYNGOR YN ÔL EIDDO	Cyfran Band D	Treth Gyngor £
	Band A	6/9	145.50
	Band B	7/9	169.75
	Band C	8/9	193.99
	Band D	9/9	218.24
	Band E	11/9	266.74
	Band F	13/9	315.24
	Band G	15/9	363.74
	Band H	18/9	436.49
	Band I	21/9	509.24
C	PRAESEPТАU AR AWDURDODAU UNEDOL	Nifer yr Eiddo sy'n Cyfateb i Fand D	Praesept AHDC £
	Cyngor Sir Caerdydd	143,032.00	31,215,904
	Dinas a Sir Abertawe	89,465.00	19,525,217

	Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	52,759.01		11,514,348
	Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	18,069.24		3,943,507
	Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	46,641.68		10,179,276
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	74,978.22		16,363,562
	Cyngor Bro Morgannwg	57,920.00		12,640,704
		482,865.15		105,382,518

[tudalen 99]

ATODIAD 14

HEDDLU DE CYMRU **CYLLIDEB REFENIW 2017/18** **CYNNYDD O 6% YN Y PRAESEPT**

A	GOFYNIAD CYLLIDEB A'R DRETH GYNGOR		£
			6%
	CYFANSWM Y GYLLIDEB		287,179,343
	LLAI: Grantiau Penodol		23,386,628
	GOFYNIAD CYLLIDEBOL		263,792,715
	LLAI: Grant Cynnal Refeniw		51,050,456
	Ardreth Annomestig Genedlaethol		22,290,378
	Grant Heddlu Penodol		84,065,727
	PRAESEPT AWDURDOD HEDDLU DE CYMRU		106,386,154
B	ELFEN AHDC O'R DRETH GYNGOR YN ÔL EIDDO	Cyfran Band D	Treth Gyngor £
	Band A	6/9	146.88
	Band B	7/9	171.36
	Band C	8/9	195.84
	Band D	9/9	220.32
	Band E	11/9	269.28
	Band F	13/9	318.24
	Band G	15/9	367.20
	Band H	18/9	440.65
	Band I	21/9	514.09
C	PRAESEPTAU AR AWDURDODAU UNEDOL	Nifer yr Eiddo sy'n Cyfateb i Fand D	Praesept AHDC £
	Cyngor Sir Caerdydd	143,032.00	31,513,196
	Dinas a Sir Abertawe	89,465.00	19,711,170
	Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	52,759.01	11,624,008
	Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	18,069.24	3,981,064
	Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	46,641.68	10,276,221
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	74,978.22	16,519,404
	Cyngor Bro Morgannwg	57,920.00	12,761,091
		482,865.15	106,386,154

[tudalen 100]

RHAN B

TESTUN	STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2017/18
ADRODDIAD GAN	GEOFF PETTY, TRYSORYDD UMAR HUSSAIN, PRIF SWYDDOG ARIANNOL FFÔN: (01656 869204)
SWYDDOG CYSWLLT	GWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CYLLID CYNORTHWYOL - FFÔN: (01656 869299)
CRYNODEB A DIBEN YR ADRODDIAD Nodi'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2017/18 a argymhellir yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiynydd fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyffredinol hon.	
	1. Mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 2. Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi a'r meini prawf ynglŷn â chyd bartion a geir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 3. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17 i 2020/21 4. Cymeradwyo'r Datganiad Isafswm Refeniw.

[tudalen 101]

CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddariad statudol ar y strategaeth fuddsoddi flynyddol. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut mae Heddlu De Cymru yn ymdrin â rheoli trysorlys, o ran ei lifau arian parod, ei drafodion bancio, buddsoddi a benthyca, rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny yn effeithiol ac anelu at y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny.

1.2 Mae'r Cod Darbodus, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff lleol, gan gynnwys **Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl**, bennu nifer o Ddangosyddion Darbodus bob blwyddyn. Pennir y rhain drwy ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ac effaith benthyciadau cyfalaf a ystyrir fel rhan o'r rhaglen gyfalaf, y gyllideb refeniw a phraesept yr heddlu. Mae'r adroddiad yn ymgorffori'r dangosyddion a bennir ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol nesaf. Mae Atodiad A yn rhoi gwybodaeth gefndir am y Cod Darbodus.

1.3 Ar ran **Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl**, mae Adran Cyllid Corfforaethol Heddlu De Cymru yn ymgymryd

â'r swyddogaeth rheoli trysorlys, gan barhau â'r trefniant ar ran yr hen Awdurdod Heddlu. Nodir cyfrifoldebau yn y Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol, gan gyfeirio at Brif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl.

1.4 Cynhwysir perfformiad buddsoddi y flwyddyn bresennol hyd at fis Hydref 2016 yn Atodiad B.

1.5 Darperir gwasanaethau bancio i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru gan Fanc Lloyds ar hyn o bryd ar ôl newid o fis Medi 2014.

2 YMGYNGHORIAETH RHEOLI TRYSORLYS A BROCERIAID BUDDSODDI

2.1 Cytunir ar contract â Capita Asset Services (Treasury Solutions), sef Sector Treasury Services Limited gynt, i roi cyngor a gwasanaethau gwybodaeth ar sail ffi flynyddol. Ystyrir y byddai'n ddoeth cadw'r gwasanaethau hyn. Er bod y cynghorwyr yn cynorthwyo'r swyddogaeth trysorlys fewnol, o dan reolau presennol y farchnad a Chod Ymarfer CIPFA **Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar faterion trysorlys.

2.2 Ar 8 Rhagfyr 2016 cyhoeddodd Capita plc ei fwriad i 'werthu' Capita Asset Services, o bosibl i drydydd parti anhysbys. Byddwn yn monitro'r broses wrth iddi fynd rhagddi, ond, yn y cyfamser, rhoddwyd sicrwydd i ni mewn e-bost dyddiedig 16 Rhagfyr 2016 bod busnes yn parhau fel arfer ac na fydd yn amharu ar ein lefelau gwasanaeth.

2.3 Ymgwymerir â gweithgarwch benthyca ac adneuo drwy froceriaid, sy'n gyfryngwyr â'r marchnadoedd ariannol cyfanwerthu sy'n hwyluso gweithgareddau masnachu eu cleientiaid, yn enwedig banciau masnachol a buddsoddi. Cânt eu had-dalu ar sail comisiwn. Hefyd, gwneir buddsoddiadau ac adneuron yn uniongyrchol â chyd bartïon ar sail fwy masnachol/bancio busnes.

2.4 Y Broceriaid Presennol:

Garban Intercapital Europe Limited
Tullet Prebon (Europe) Limited

King & Shaxson - (gan gynnwys gwasanaeth delio a gwarchod ar gyfer Tystysgrifau Adneuo, biliau'r trysorlys, giltiau, Bondiau Corfforaethol, Nodiadau Cyfradd Arnawf, bondiau cydwladol a sicrydau eraill. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Nid yw'r gwasanaeth/broceraeth wedi cael ei (d)defnyddio hyd yma. Codir ffi flynyddol gan y broceriaid os defnyddir eu gwasanaeth.

3 Y RHAGOLWG ECONOMAIDD CYFREDOL

[tudalen 102]

3.1 Ar ran **Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a'r Prif Gwnstabl**, mae Adran Cyllid Corfforaethol Heddlu De Cymru yn cael cyngor a gwybodaeth reolaidd am y rhagolwg economaidd gan ei hymgyngorwyr Rheoli Trysorlys a ffynonellau eraill.

3.2 Daw'r canlynol o sylwadau gan Capita Asset Services ym mis Tachwedd 2016, sy'n ymgorffori cynnydd cyntaf yng nghyfradd y banc yn **2019**:

Adroddiad chwyddiant chwarterol Tachwedd 2016 ac adolygiad ar ôl etholiad Arlywydd yr UD

· Rydym wedi diweddarau ein rhagolygon dyddiedig 9 Awst i ystyried Adroddiad Chwyddiant chwarterol Banc Lloegr ar gyfer mis Tachwedd 2016, penderfyniad cyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ar 3 Tachwedd, ac etholiad Arlywydd yr UD ar 8 Tachwedd.

Ni newidiwyd **Cyfradd y Banc**, sef 0.25%, yn sgil cyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ar 3 Tachwedd, na mesurau polisi ariannol eraill. Roedd hyn yn unol â disgwyliadau'r farchnad, ond yn newid mawr ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Polisi Ariannol ar yr Adroddiad Chwyddiant chwarterol ar 4 Awst, a oedd wedi rhoi awgrym cryf yn ei flaenganllawiau ei fod yn debygol o dorri Cyfradd y Banc unwaith eto, erbyn diwedd y flwyddyn fwy na thebyg, os oedd y data economaidd yn unol â rhagolygon y Banc.

· Roedd penderfyniad diweddaraf y Pwyllgor Polisi Ariannol yn cynnwys rhagolwg y gallai **Cyfradd y Banc** fynd i fyny neu i lawr, yn dibynnu ar sut roedd y data economaidd yn datblygu yn y misoedd i ddod. Ein barn ganolog o hyd yw y bydd Cyfradd y Banc o 0.25% yn ddigyfnewid tan y cynnydd cyntaf i 0.50% ym **mis Mehefin 2019** (yn ddigyfnewid ers ein rhagolwg blaenorol). Fodd bynnag, ni fyddem, eto, yn anwybyddu'r risg o doriad yng Nghyfradd y Banc pe bai twf economaidd yn lleihau'n sylweddol, ond, yn ein barn ni, mae hyn yn annhebygol. Hoffem hefyd nodi bod llunio rhagolygon mor bell i'r dyfodol â chanol 2019 yn anodd tu hwnt gan fod llawer o ffactorau economaidd posibl a allai droi economi'r DU y naill ffordd neu'r llall yn ogystal â datblygiadau gwleidyddol yn y DU, (yn enwedig o ran telerau Brexit), yr UE, y DU a thu hwnt, a allai gael effaith fawr ar ein rhagolygon.

Mae arenillion giltiau, ac o ganlyniad **gyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**, wedi codi'n sylweddol ar ôl disgyn i bwynt isel yng nghanol mis Awst. Hefyd, bu cryn anwadalrwydd drwy gydol 2016. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd arenillion giltiau 10 mlynedd yn 1.88%, wedyn bu gostyngiad i bwynt isel o 0.53% ar 12 Awst cyn iddynt gyrraedd lefel uchel o 1.46% unwaith eto ar 14 Tachwedd.

3.3 Ceir rhagor o sylwadau a rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog yn Atodiad Ch.

4 TROSOLWG RHEOLI TRYSORLYS

4.1 Diffinnir Rheoli Trysorlys fel: rheoli buddsoddiadau a llifau arian parod y sefydliad, ei drefniadau bancio, a thrafodion y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny yn effeithiol; ac anelu at y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny. Bwriedir i'r diffiniad hwn fod yn gymwys i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus o ran y ffordd y maent yn defnyddio cyllid cyfalaf a phrosiect, benthyciadau a buddsoddiadau.

4.2 Mae'r Cod yn gymwys i bob sefydliad sydd wedi'i fabwysiadu fel rhan o'i reolau sefydlog, ei reoliadau ariannol neu ei ddogfennau polisi ffurfiol eraill sy'n briodol i'w amgylchiadau.

[tudalen 103]

4.3 Roedd y portffolio o adneuon buddsoddi ar 31 Mawrth 2016 yn werth cyfanswm o **£19.959M**, a oedd yn cynnwys **£11.877M** o adneuon banc hylifol ac adneuon cyfwerth ag arian parod. Caiff adneuon buddsoddi eu dal oherwydd y sefyllfa arian parod bositif dros dro ac maent o natur fyrdymor ac yn cynnwys cronfeydd cyfalaf a refeniw positif ar hyn o bryd.

Roedd y portffolio o fenthyciadau cyfradd sefydlog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, at ddibenion cyfalaf, ar 31 Mawrth 2016 yn werth cyfanswm o **£19.033M** gyda chfradd llog cyfalaf gyfartalog o **3.70% (£0.710M)**.

4.4 Datganiad Polisi

4.4.1 Mae **Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl** o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd y gweithgareddau rheoli trysorlys. Yn unol â hynny, bydd y dadansoddiad o weithgareddau rheoli trysorlys a'r adroddiadau arnynt yn canolbwyntio ar eu goblygiadau o ran risg i'r sefydliad.

4.4.2 Mae'r sefydliad yn cydnabod y bydd trefniadau rheoli trysorlys effeithiol yn ei helpu i gyflawni ei amcanion busnes a'i amcanion gwasanaeth. Felly, mae'n ymrwymedig i egwyddorion sicrhau gwerth am arian ym maes rheoli trysorlys a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr addas, yng nghyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

4.4.3 Mae gweithgareddau cymeradwy'r gweithrediad Rheoli Trysorlys fel a ganlyn:

(a) Llif Arian Parod (rhagolygon byrdymor a thymor hwy)

(b) Buddsoddi cronfeydd dros ben mewn Buddsoddiadau Cymeradwy (gan gynnwys buddsoddiadau byrdymor a hirdymor)

(c) Benthycia i ariannu diffygion arian parod, os yw'n gymwys

(ch) Ariannu taliadau cyfalaf drwy grantiau, cyfraniadau, derbyniadau cyfalaf, a benthycia

(d) Rheoli dyled (gan gynnwys aildrefnu a/neu fonitro er mwyn sicrhau proffil aeddfedu gwastad)

(dd) Rheoli amlygiad i gyfraddau llog

(e) Gweithdrefnau delio â broceriaid, banciau, cyngorwyr trysorlys, Adrannau ac Asiantaethau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Swyddfa Rheoli Dyled a'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

(f) Defnyddio rheolwyr allanol ar gyfer buddsoddi cronfeydd dros dro.

[tudalen 104]

5 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

5.1 Amcanion ar gyfer Benthycia a Buddsoddiadau

Y prif amcanion i'w dilyn yn 2017/18 yw:

5.1.1 Benthycia

- Lleihau costau refeniw dyled i'r eithaf
- Rheoli proffil aeddfedrwydd dyled h.y. peidio â gadael unrhyw flwyddyn benodol yn y dyfodol gyda lefel uchel o ad-daliadau a allai achosi problemau o ran ad-dalu neu ail-fenthycia.
- Trefnu i fenthycia mewn unrhyw flwyddyn benodol am y gost rataf sy'n gymesur â'r risg yn y dyfodol.
- Rhagweld cyfraddau llog cyfartalog yn y dyfodol a benthycia yn unol â hynny.
- Monitro ac adolygu lefel benthyciadau llog cyfradd sefydlog ac amrywiadwy er mwyn manteisio ar symudiadau yn y gyfradd llog.
- Aildrefnu dyled er mwyn manteisio ar arbedion posibl wrth i gyfraddau llog newid.

5.1.2 Buddsoddi

- Cynnal sicrwydd cyfalaf, yna hylifedd yna arenillion
- Sicrhau hyblygrwydd polisi.
- Sicrhau lefel arenillion sy'n fwy na'r hyn a fyddai'n cael ei sicrhau drwy fuddsoddi mewnol diofyn

5.2 Strategaeth Rheoli Trysorlys

5.2.1 Cyllid Cyfalaf

Cyflawni'r strwythur ariannu gorau posibl ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, gan wneud y defnydd gorau posibl o grantiau cyfalaf, defnyddio derbyniadau cyfalaf yn ddoeth a defnyddio opsiynau benthycia ac opsiynau ariannu eraill.

5.2.2 Benthycia

Gweithredu'n hyblyg, ar sail cyngor.

5.2.3 Buddsoddiadau Dros Dro

Rheoli'r defnydd o fuddsoddiadau dros dro yn effeithiol er mwyn parhau'n hyblyg, a lle y trefnir benthyciad cyn bod angen.

5.2.4 Ad-drefnu Dyled

Adolygu'r posibilrwydd o ad-drefnu dyled pan fo'r cyfle yn codi, ond peidio â gweithredu oni bai bod y cyfrifiadau llif arian wedi'i ddisgowntio priodol yn ffafriol.

5.3 Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

5.3.1 Mae'r sefydliad hwn wedi ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth leol a Chanllawiau CIPFA, Treasury Management in Public Services: Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes ("CIPFA TM Code").

5.3.2 Gofynion allweddol y Cod a'r canllawiau buddsoddi yw nodi a chymeradwyo'r canlynol:

- Canllawiau'r strategaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi
- Egwyddorion i'w dilyn wrth bennu'r cyfnodau hwyaf y gellir neilltuo cronfeydd ar eu cyfer
- Buddsoddiadau penodedig y bydd y sefydliad yn eu defnyddio, sef buddsoddiadau sicr a hylifol iawn mewn sterling sy'n aeddfedu cyn pen blwyddyn. Byddai'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau na fyddent yn cael eu diffinio'n wariant cyfalaf gyda'r canlynol:
 - Llywodraeth y DU (megis cyfleuster adneuo'r Cyfrif Rheoli Dyled, Biliau Trysorlys y DU neu Gilt sy'n aeddfedu cyn pen blwyddyn).

[tudalen 105]

- Bondiau cydwladol o barhad llai na blwyddyn.
- Bondiau Corfforaethol
- Sicrydau eraill
- Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned.
- Cyfryngau buddsoddi cyfun (megis cronfeydd y farchnad arian) y mae asiantaeth statws credyd wedi rhoi statws uchel iddynt.
- Buddsoddiadau amhenodedig, gan gael eglurhad ynglŷn â goblygiadau risgiau uwch, nodi'r mathau cyffredinol o fuddsoddiadau y gellir eu defnyddio a therfyn ar swm cyffredinol categorïau amrywiol y gellir eu dal ar unrhyw adeg benodol.

5.3.3 Blaenoriaethau buddsoddi yw:

- (a) sicrwydd cyfalaf
- (b) hylifedd ei fuddsoddiadau
- (c) arenillion y cronfeydd.

5.3.4 Prif amcanion y strategaeth fuddsoddi yw, yn gyntaf, sicrhau y gellir ad-dalu prifswm a llog ei fuddsoddiadau ar amser, yn ail, sicrhau digon o hylifedd, gydag arenillion y buddsoddiad yn drydydd amcan.

5.3.5 Yn sgil y cefndir economaidd uchod, mae i'r hinsawdd fuddsoddi bresennol un ystyriaeth risg sy'n drech na phob ystyriaeth arall, sef risg sicrwydd cydbartïon. Y

nod yw sicrhau'r arenillion gorau posibl o fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

5.3.6 Yr amcan polisi cyffredinol yw buddsoddi ei falansau trysorlys yn ddoeth. Mae balansau yn cynnwys arian a fenthycir i'w wario yn y dyfodol eithaf agos (h.y. a fenthycir 12-18 mis cyn bod ei angen).

5.3.7 Mae Llywodraeth Cymru yn maentumio bod benthyca arian i fuddsoddi neu fenthycia ymlaen i wneud elw yn unig yn anghyfreithlon ac ni fydd y sefydliad hwn yn ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

5.3.8 Mae'r cod diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried meincnodi a monitro Sicrwydd, Hylifedd ac Arenillion yn y Gwasanaeth Buddsoddi. Caiff arenillion eu meincnodi ar hyn o bryd a dylid ystyried datblygu'r broses feincnodi mewn perthynas â sicrwydd a hylifedd.

5.3.9 Caiff arenillion eu meincnodi ar hyn o bryd i asesu perfformiad buddsoddiad yn erbyn y mesurau canlynol:

- Buddsoddiadau – Enillion mewnol uwchlaw'r gyfradd LIBID saith diwrnod
- Buddsoddiadau – Rheolwyr cronfeydd allanol - enillion 10% yn uwch na LIBID 7 diwrnod wedi'i adlogio.

5.3.10 Mae meincnodau sicrwydd a hylifedd yn rhan annatod o'r strategaeth trysorlys gymeradwy drwy'r meini prawf ar gyfer dewis cydbartïon a rhai o'r dangosyddion darbodus. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael eu nodi ar wahân ac yn benodol o'r blaen. Mewn categorïau eraill o fuddsoddiadau gellir defnyddio meincnodau priodol lle y bônt ar gael. Er bod modd datblygu dadansoddiad rhifiadol, mae'r broses o ddehongli'r canlyniadau yn un oddrychol iawn ac efallai y bydd angen adolygiad pellach. Canllawiau yw meincnodau ac felly gallant gael eu torri o bryd i'w gilydd.

[tudalen 106]

5.4 Strategaeth Fuddsoddi Cydbartïon - Meini prawf a diwygiadau arfaethedig

5.4.1 Y brif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf buddsoddi'r sefydliad yw sicrwydd ei fuddsoddiadau, er bod yr arenillion neu'r elw o'r buddsoddiad hefyd yn ystyriaeth allweddol. Ar ôl hyn bydd prif egwyddor y sefydliad yn sicrhau:

- Mae'n cynnal polisi sy'n cwmpasu'r categorïau o fathau o fuddsoddiad y bydd yn buddsoddi ynddynt, meini prawf ar gyfer dewis cydbartïon sydd â sicrwydd digonol, a monitro eu sicrwydd. Nodir hyn yn yr adrannau isod ar Fuddsoddiadau Penodedig a Buddsoddiadau Amhenodedig.
- Mae hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. At y diben hwn bydd yn nodi gweithdrefnau ar gyfer pennu'r cyfnodau hwyaf y gellir neilltuo cronfeydd yn ddarbodus. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn gymwys i ddangosyddion darbodus sy'n cwmpasu'r prifsymiau uchaf y gellir eu buddsoddi.

5.4.2 Bydd y sefydliad yn cynnal rhestr o gydbartïon mewn cydymffurfiaeth â'r meini prawf canlynol a bydd yn diwygio'r meini prawf ac yn eu cyflwyno i'w cymeradwyo yn ôl yr angen. Mae'r maen prawf hwn ar wahân i'r hyn a ddefnyddir i ddewis buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig gan ei fod yn rhoi cronfa gyffredinol o gydbartïon a ystyrir yn rhai 'safon uchel' a all gael eu defnyddio yn hytrach na diffinio beth yw ei fuddsoddiadau.

5.4.3 Mae'r meini prawf pennu statws yn defnyddio dull yr enwadur cyffredin lleiaf o ddewis cydbartïon a chymhwyso terfynau. Mae hyn yn golygu y caiff y meini prawf gofynnol eu cymhwyso at y statws isaf sydd ar gael i unrhyw sefydliad. Er enghraifft, os caiff statws sefydliad ei bennu gan ddwy asiantaeth, mae'r naill yn bodloni'r meini prawf ond nid y llall, ni fydd y sefydliad yn dod o dan y meini prawf benthyca. Mae hyn mewn cydymffurfiaeth ag argymhelliad gan Banel Rheoli Trysorlys CIPFA ym mis Mawrth 2009 a Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA.

5.4.4 Darperir gwybodaeth am statws credyd gan ein hymgynghorwyr trysorlys am bob cydbarti gweithredol sy'n cydymffurfio â'r meini prawf isod. Câi unrhyw gydbarti nad yw'n bodloni'r meini prawf ei dynnu oddi ar y rhestr o gydbartïon (delio). Caiff swyddogion wybod am unrhyw newidiadau mewn statws, rhybuddion ynglŷn â statws (hysbysiad o newid tebygol), rhagolygon statws (hysbysiad o newid posibl yn y tymor hwy) bron ar unwaith ar ôl iddynt ddigwydd ac ystyrir y wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, bydd rhybudd am statws negyddol sy'n gymwys i gydbarti yn unol â'r meini prawf gofynnol yn arwain at atal y defnydd ohono, gyda phob un arall yn cael ei adolygu yng ngoleuni amodau'r farchnad. Yn yr un modd, os caiff cydbarti ei uwchraddio ar ôl ymgynghoriad addas, fel y bydd yn bodloni'r meini prawf, caiff ei gynnwys yn y Rhestr o Gydbartïon.

5.4.5 Mae'r sefydliad hwn yn dibynnu ar statws credyd a gyhoeddir gan Fitch Ratings, Moody's Investors Service neu Standard & Poor's er mwyn cadarnhau ansawdd credyd cydbartïon (dyroddwyr a dyroddiadau) a chynlluniau buddsoddi. Mae'r sefydliad hefyd wedi pennu'r hirdymor a'r byrdymor lleiaf a statws credyd arall y mae'n tybio ei fod yn "uchel" ar gyfer pob categori o fuddsoddiad.

5.4.6 Mae gofynion ychwanegol o dan y Cod Ymarfer bellach yn gofyn i'r sefydliad ategu gwybodaeth am statws credyd. Er bod y meini prawf uchod yn dibynnu'n bennaf ar gymhwyso statws credyd er mwyn creu cronfa o gydbartïon priodol i swyddogion eu defnyddio, caiff gwybodaeth weithredol ychwanegol am y farchnad ei defnyddio cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar fuddsoddiad penodedig o blith y gronfa gytûn o gydbartïon. Caiff y wybodaeth ychwanegol hon am y farchnad (er enghraifft Cyfnewidiadau Diffyg Credyd), rhybuddion/rhagolygon am statws negyddol) ei defnyddio er mwyn cymharu sicrwydd cymharol y gwahanol gydbartïon buddsoddi. Ar hyn o bryd, ystyrir bod Cyfnewidiadau Diffyg Credyd yn fwy ymatebol i ffactorau'r farchnad na newidiadau mewn statws, a pho isaf y mesur y lleiaf yw'r risg ganfyddedig.

[tudalen 107]

5.4.8 Caiff y meini prawf ar gyfer creu cronfa o gydbartïon buddsoddi ansawdd Credyd Uchel (ar gyfer buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig) eu hystyried

ymhellach. Mae'r tabl hwn yn nodi'r derbynwyr adneuoan awdurdodedig ac yn manylu ar y terfyn sefydliadol arfaethedig ar gyfer pob categori:

	Adneuoan a buddsoddiadau eraill	Dangosydd Penodedig neu Amhenodedig	Terfyn Presennol £m	Terfyn Arfaethedig £m
A	Banciau clirio'r DU a'u his-gwmnïau sydd o dan eu perchenogaeth lwyd	Penodedig Amhenodedig os yw'n is-gwmni heb statws neu lai na blwyddyn	10	10
B	Banciau eraill, h.y. banciau mawr nad ydynt yn fanciau clirio	Penodedig	10	10
B	Banciau eraill h.y. banciau llai o faint	Penodedig	10	10
C	Banciau marsiandwyr		3	3
C h	Banciau tramor (noder - cyfyngir arnynt ar hyn o bryd oherwydd amodau presennol y farchnad)		3	3
D	Cymdeithasau Adeiladu - sydd ymhlith y 30 Gorau o ran Statws Maint Asedau • Y 10 Cymdeithas Adeiladu Orau o ran Statws • Y 10 Gorau Heb Statws - (tymor o 6 mis - cyfyngir arnynt ar hyn o bryd) • 11-25 Heb Statws (tymor o 6 mis) • 26-30 Heb Statws (tymor o 3 mis)	Penodedig Amhenodedig Amhenodedig Amhenodedig	10 5 0 0	10 5 0 0
E	Awdurdodau Lleol	Penodedig Amhenodedig os yw'n llai na blwyddyn	10 10	10 10
F	Diwydiannau wedi'u gwladoli a chorfforaethau cyhoeddus		3	3
F F	Swyddfa Rheoli Dyled y DU – (Asiantaeth Weithredol Trysorlys EM (gan gynnwys adneuo, biliau'r Trysorlys, giltiau a sicrydau eraill)	Penodedig Amhenodedig os yw'n llai na blwyddyn	Dim Terfyn	Dim Terfyn
G	Cyfrifon Galw gyda bancwyr y grŵp (yn ychwanegol at gyfrif cyfredol ac adneuoan cyfnod penodol) - Terfyn uchaf wedi'i bennu'n uwch er mwyn darparu ar gyfer symiau uwch sy'n gyfyngedig	Amhenodedig	10	10

	ar hyn o bryd			
N G	Cyfrifon Galw (banciau eraill) (Yn ychwanegol at y terfynau adneuo cyfnod penodol uchod) - Terfyn uchaf wedi'i bennu'n uwch er mwyn darparu ar gyfer symiau uwch sy'n gyfyngedig ar hyn o bryd	Amhenodedig	10	10
G	Rheolwyr Cronfeydd Allanol/Cronfeydd y Farchnad Arian (Arian Parod a'r Llywodraeth)	Penodedig	25	25

5.4.9 Wrth ystyried y terfynau uchod ymhellach ynghyd â'r cyngor parhaus gan yr Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys, fel gofyniad sylfaenol, bydd y sefydliad yn defnyddio banciau sydd â'r statws canlynol gan Fitch, Moody's a Standard and Poor's (lle y pennir statws):

[tudalen 108]

	Meini prawf credyd craidd	Presennol	Arfaethedig
	Byrdymor	F1	F1
	Hirdymor	A	A

5.4.10 Derbynnir cyngor yn gyffredinol, er bod y polisi hwn yn cyfyngu ar yr uchod ymhellach, drwy gyfyngu'r cyrff a gymeradwyir i'r rhai sydd ag 'ansawdd credyd uchel'. Diffinnir uchel fel:

- Ansawdd byrdymor, ar gyfer buddsoddiadau o hyd at 6 mis dyweder o Fitch **F1** (ansawdd credyd uchaf) neu statws cyfatebol gan yr asiantaethau statws credyd eraill, gan gynnwys Moody's a Standard and Poor's h.y. **P-1/ A-1**, ar gyfer Banciau a Chymdeithasau Adeiladu. Caniatáu defnyddio bancwr y sefydliad ei hun os bydd yn methu â bodloni'r meini prawf uchod.
- Ansawdd tymor hwy, a fyddai'n gymwys yn y 'tymor canolig', 6-12 mis dyweder o **A** (ansawdd credyd uchel). Bydd y sefydliad ond yn defnyddio banciau/cymdeithasau adeiladu sy'n fanciau:

yn y DU; a/neu

y tu allan i'r DU ac sydd mewn gwlad sydd â statws hirdymor Sofran o AA+ o leiaf.

- Ansawdd tymor hwy, sy'n gymwys y tu hwnt i 364 diwrnod o **AA-** (Ansawdd credyd uchel iawn).
- Gall adneuo'n gynnwys cyfrif cyfredol a chyfleoedd delio uniongyrchol cyfnod rhybudd.
- Adneuo'n gyda Chymdeithasau Adeiladu.
- Buddsoddiadau Awdurdodau Lleol, sydd wedi'u cefnogi gan arian gan lywodraeth y DU.

- Adneuon gyda Swyddfa Rheoli Dyled y DU, sef un o asiantaethau'r DU/Banc Lloegr a giltiau Llywodraeth y DU.
- Adneuon gyda Banciau Wedi'u Gwladoli neu Fanciau/Cymdeithasau Adeiladu a gwmpesir gan warantau Llywodraeth y DU
- Statws **AAA** (ansawdd credyd uchaf) ar gyfer Cronfeydd y Farchnad Arian
- Gellir mynd y tu hwnt i derfynau cydbartïon o 10% fel opsiwn ar ôl cymeradwyaeth y Prif Swyddog Ariannol
- Y tu allan i'r DU ac sydd mewn gwlad sydd â statws hirdymor Sofran o **AA+** o leiaf.
- Cymerir pob gofal i ystyried amlygiad buddsoddiadau o ran gwlad, grŵp a sector. Yn rhannol, bydd y wlad yn cael ei dewis yn ôl statws credyd y wladwriaeth Sofran. Hefyd:
- ni chaiff mwy nag 20%, dyweder, ei roi mewn unrhyw wlad y tu hwnt i'r DU ar unrhyw adeg benodol;
- bydd terfynau ar waith uchod yn gymwys i gwmnïau Grŵp;
- caiff terfynau eu monitro'n rheolaidd o ran priodoldeb.

5.4.11 Diffinnir buddsoddiadau o fewn y meini prawf statws uchod fel "buddsoddiadau penodedig". Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys y rhai mewn sterling, neu sy'n aeddfedu cyn pen blwyddyn neu a allai fod am gyfnod hwy ond lle mae gan y sefydliad yr hawl i'w had-dalu o fewn 12 mis os dymuna. Ystyrir y rhain yn asedau risg isel.

5.4.12 **Banciau a Chymdeithasau Adeiladu**

Mae adneuon gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu **heb statws** wedi'u dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodedig ac fe'u caniateir. Nid yw'n ofynnol i bob Cymdeithas Adeiladu fod â statws neu nid ydynt wedi dewis cael statws. Ym mhob ffordd arall byddai diogelwch y gymdeithas yn cyfateb i gymdeithasau o faint tebyg sydd â statws. Mae'r polisi yn culhau cwmipas benthyciadau i gynnwys y **10 Cymdeithas Adeiladu orau sydd â statws neu heb statws yn unig (cyfyngir ar yr olaf ar hyn o bryd)**, gyda therfynau arfaethedig priodol ac uchafswm cyfnodau buddsoddi.

5.4.13 Gall Buddsoddiadau Eraill gynnwys y canlynol, sy'n rhan o'r diffiniadau a ddefnyddir gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU. Gan dybio cyswllt pellach â broceriaid buddsoddi cynigir y dylid ystyried y mathau canlynol o fuddsoddiad:

[tudalen 109]

Sicrydau

- Biliau Trysorlys EM
- Tystysgrifau Adneuo a roddir gan Fanciau yn y DU
- Tystysgrifau Adneuo a roddir gan Gymdeithasau Adeiladu yn y DU
- Sicrydau Llywodraeth y DU
- Sicrydau eraill

Benthyciadau

- Cyfryngwyr ariannol eraill
- Corfforaethau Cyhoeddus

- Llywodraeth Leol
- Arall

5.4.14 O roi ystyriaeth briodol i lefel balansau'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf, yr angen am hylifedd, ei ymrwymadau gwario a darparu ar gyfer hapddigwyddiadau, penderfynir ar hyn o bryd na ellir neilltuo mwy na **£10m** o falansau cronfeydd cyffredinol yn ddoeth ar gyfer buddsoddiadau tymor hwy (h.y. y rhai sy'n aeddfedu ar ôl blwyddyn). Ar hyn o bryd, y swm hwn yw **dim** ac o ystyried cwmphas cyllido dros y tymor canolig, mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau.

5.4.15 Mae pob buddsoddiad arall sydd â statws credyd is neu sydd heb statws credyd neu sy'n hwy na 364 diwrnod wedi'i ddiffinio'n Fuddsoddiad Amhenodedig a gellir ymrwymo iddo ar ôl cael cyngor gan yr Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Cyfeirir yn gynharach at y terfyn uchaf ar gyfer buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod, sef cyfanswm o **£10m**. O ran buddsoddiadau amhenodedig ar gyfer statws credyd is neu dim statws credyd, a fyddai'n cynnwys cymdeithasau adeiladu heb statws, a ystyrir uchod, cynigir terfyn o **£50m**. (Mae hyn yn cyfateb i'r terfyn presennol.) Felly, y terfyn cyfan ar gyfer buddsoddiadau amhenodedig fyddai **£60m**.

5.4.16 Yn seiliedig ar ei lif arian presennol, mae'r sefydliad yn rhagweld y bydd balansau ei gronfeydd yn 2017/18 yn amrywio rhwng **£10m** ac **£80m**. Mae'r olaf yn ystyried blaendaliad grant sylweddol, fel arfer bob mis Gorffennaf. Isafswm ei falans cyffredinol mewn buddsoddiadau byrdymor yw **dim**.

5.5 Dulliau a Ffynonellau Cymeradwy o Godi Cyllid Cyfalaf

5.5.1 Mae'r rhestr ganlynol yn nodi pa offerynnau benthycia y gellir eu mabwysiadu a pha ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael:

<i>Offerynnau Benthycia</i>	Benthycia Sefydlog	Benthycia Amrywiadwy
Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	✓	✓
Y Farchnad Hirdymor	✓	✓
Y Farchnad Dros Dro	✓	✓
Banc Buddsoddi Ewrop	✓	✓
Bondiau Lleol	✓	
Gorddrafft	✓	
Bondiau Trafodadwy	✓	✓
Dyraniadau stoc	✓	✓
Papur Masnachol	✓	
Nodiadau Tymor Canolig	✓	
Biliau	✓	
Asiantaeth Bondiau Trefol (ffynhonnell newydd) - (noder bod angen rheoliad diwygiedig ar gyfer ALLau a chyrrff yr heddlu yng Nghymru)	✓	

Ffynonellau Eraill o Gyllid
 Cyfraniadau cyllideb refeniw
 Derbyniadau Cyfalaf
 Prydlesau – Prydlesau Gweithredol a Phrydlesau Cyllid
 Pryniannau Gohiriedig
 Grantiau
 Arian y Loteri
 Trefniadau ar y Cyd
 Menter Cyllid Preifat

5.5.2 Nid yw'n bolisi gan **Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** i gyfyngu ar y math o offerynnau benthyca sydd eu hangen ac mae pob un o'r uchod ar gael i'r Prif Swyddog Cyllid os ystyrir eu bod yn addas. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd benthyca, yn ymarferol, wedi'i gyfyngu i'r canlynol-

- (a) Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus
- (b) Y Farchnad Dros Dro
- (c) Y Farchnad Hirdymor
- (ch) Gorddrafft
- (d) Prydlesau

5.5.3. Caiff egwyddorion y Cod Darbodus eu cymhwyso at bob benthyciad.

BENTHYCA	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif
	£M	£M	£M	£M	£M
Benthyca newydd - swm blyneddol - Cyfraniad refeniw ychwanegol o £1.671M yn lle benthyciadau arfaethedig 2016/17	0.000	1.671	1.671	1.671	1.671
Benthyca cyfnewid (opsiwn i'w adolygu o hyd)	-	-	-	-	-
CYFANSWM	0.000	1.671	1.671	1.671	1.671

5.6 Y Sensitifrwydd i Symudiadau mewn Cyfraddau Llog

5.6.1 Bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol ddatgelu effaith risgiau ar y gweithgarwch rheoli trysorlys. Er yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r risgiau a wynebwr gan y gwasanaeth rheoli trysorlys mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn (risg credyd, risg hylifedd, risg marchnad, risg proffil aeddfedu), trafodir effaith y risg sy'n gysylltiedig â chyfraddau llog ond nid yw wedi'i mesur. Mae'r tabl isod yn nodi effaith amcangyfrifedig o gynnydd/gostyngiad o 1% ym mhob cyfradd llog ar gostau rheoli / incwm ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ni fydd newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar yr elfen honno o'r portffolios dyled a buddsoddi, sydd o natur cyfradd llog sefydlog, tymor hwy.

Cyllidebau refeniw:	2017/18 Amcangyfrifedig	2017/18 Amcangyfrifed ig 1%	2017/18 Amcangyfrifed ig - 1%
Llog ar Fenthyca	£0.8M	Sefydlog hirdymor	Sefydlog hirdymor
Incwm buddsoddiadau	£0.2M	+£0.2M	-£0.2M

6. DANGOSYDDION DARBODUS

6.1 Mae'n ofynnol i'r Dangosyddion Darbodus canlynol gael eu pennu a'u cymeradwyo gan **Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl** yn unol â'r Cod Darbodus. Cynhwysir y Dangosyddion Blaenorol yn Atodiad Dd er gwybodaeth.

[tudalen 111]

6.2 Mae'r rhain yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf awgrymedig ym mis **Ionawr 2017**, sy'n amlinellu amcangyfrifon o wariant cyfalaf y bwriedir mynd iddo.

Rhi f	DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER DARBODRWYDD	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	Amcangyfrifedig		Amcangy frifedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyf rifedig
	£M		£M	£M	£M	£M
1	Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf	22.386	23.299	26.554	21.178	22.570
2	Gofyniad Cyllid Cyfalaf (ar 31 Mawrth) - heb gynnwys 'ffactor A', sef addasiad technegol sy'n lleihau'r amcangyfrifon £4m yn seiliedig ar gyngor allanol gan Capita. Roedd amcangyfrifon blaenorol wedi cynnwys yr addasiad hwn.	19.574	20.161	20.766	21.389	22.031
3	Benthyca Allanol – gan dybio benthyca blynyddol newydd o £1.671m y flwyddyn	18.745	18.401	17.953	17.468	17.041

6.3 Gofyniad Cyllid Cyfalaf

6.3.1 Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn mesur yr angen sylfaenol dros fenthycha at ddibenion cyfalaf ac mae'n gysylltiedig â Gwerthoedd Asedau a gwariant cyfalaf arfaethedig. Yn unol ag arfer gorau, nid oes unrhyw gysylltiad rhwng benthychiadau unigol a mathau penodol o wariant. Mae Benthycha Allanol yn codi o ganlyniad i wariant a chyllid cyfalaf ac, yn anuniongyrchol, wariant a chyllid refeniw. Felly, gall y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a benthycha allanol gwirioneddol fod yn wahanol iawn.

6.3.2 Mae'r gofyniad cyllideb refeniw a gynigir ar gyfer 2017/18 yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer ad-daliadau ychwanegol o ran yr holl fenthychiadau amcangyfrifedig.

6.3.3 Mae un o'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Darbodusrwydd, sef y Gofyniad Benthycha Allanol a Chyllid Cyfalaf yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

Er mwyn sicrhau, dros y tymor canolig, mai dim ond at ddiben cyfalaf y bydd yn benthycha, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw benthycha allanol gros, ac eithrio yn y byrdymor, yn mynd y tu hwnt i gyfanswm y gofyniad cyllid cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Dengys y tabl ym mharagraff 6.2 y rhagwelir y caiff y dangosydd hwn ei fodloni.

6.4 Darpariaeth Isafswm Refeniw

6.4.1 Mae'n ofynnol i'r sefydliad ad-dalu elfen o'i Ofyniad Cyllid Cyfalaf bob blwyddyn drwy dâl refeniw neu Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Pennir yr elfen honno drwy reoliad ac ar hyn o bryd mae'n 4% o Ofyniad Cyllid Cyfalaf wedi'i addasu. Caniateir i'r sefydliad godi am daliadau Refeniw gwirfoddol ychwanegol (Darpariaeth Refeniw Wirfoddol) hefyd. Er mwyn i ad-daliadau gael eu hariannu gan Grant a Phraesept yr Heddlu, mae angen i daliadau'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol fod yn hafal i werthoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig ar gyfer ad-daliadau dyled.

6.4.2 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i **Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** gymeradwyo **Datganiad Isafswm Refeniw** ymlaen llaw bob blwyddyn. Daeth rheoliadau diwygiedig i rym ar 31 Mawrth 2008, gan ddisodli'r sail gyfreithiol flaenorol. Er i'r rheoliadau ddirymu'r gofynion blaenorol ynglŷn â Darpariaeth Isafswm Refeniw, caniateir i awdurdodau barhau ag arfer cyfrifyddu hanesyddol. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i sefydliadau ddisodli'r Rheoliadau presennol, cyhyd ag y bo darpariaeth ddarbodus.

[tudalen 112]

6.4.3 Argymhellir y dylid cymeradwyo'r Datganiad Isafswm Refeniw, sy'n ddigyfnewid.

6.4.4 Ar gyfer gwariant cyfalaf yr aethpwyd iddo cyn 1 Ebrill 2008, neu a gaiff ei ariannu yn y dyfodol drwy Fenthycha á Chymorth, bydd y polisi ynglŷn â Darpariaeth Isafswm Refeniw fel a ganlyn:

Arfer cyfredol - Bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn dilyn yr arfer cyfredol a amlinellir yn yr hen Reoliadau, gan gynnwys gostyngiad o tua 4% yn yr angen benthyca bob blwyddyn.

Ar gyfer pob benthyca darbodus ar ôl Ebrill 2008, bydd y polisi ynglŷn â Darpariaeth Isafswm Refeniw fel a ganlyn:

Dull Oes Ased – Bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar oes amcangyfrifedig yr asedau, yn unol â'r rheoliadau (mae'n rhaid i'r opsiwn hwn gael ei gymhwyso ar gyfer unrhyw wariant sy'n cael ei gyfalafu o dan Gyfarwydddeb Cyfalafu).

6.4.5 Mae'r cynnig i hawlio rhagor o fenthyca darbodus er mwyn ariannu gwariant cyfalaf yn gofyn am ystyried swm ychwanegol y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol. Cynigir y bydd cyllid o'r fath yn cael ei glustnodi yn unol ag oes ased amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig ag eiddo neu gynlluniau eraill fel y bo'n briodol. O ystyried bod y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol yn hafal i gyfanswm ad-daliadau dyled ac felly wedi'u hariannu gan grantiau a phraesept yn gyfan gwbl, nid oes goblygiad heb ei ariannu.

6.5 Dangosyddion Darbodus ar gyfer Fforddiadwyedd

Rh if	DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER FFORDDIADWYEDD	2016/17	2017/18	2018/19	2019/2020	2020/2021
		Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig
4	Cymhareb rhwng Costau Cyllido a Ffrwd Refeniw Net	4.17%	4.17%	4.19%	4.19%	4.15%

Effaith Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Dreth Gyngor

5	Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor yn unol â'r Rhaglen Gyfalaf (gan gynnwys benthyca darbodus)	£4.52	£4.52	£4.52	£4.52	£4.52
6	Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor – Cynlluniau Dymunol	-	-	-	-	-

6.5.1 Mae'r amcangyfrifon o Gostau Cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol fel y'u hamlinellir yn y rhaglen gyfalaf gyfredol. Mae Costau Cyllido yn cynnwys llog allanol, y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r Darpariaeth Refeniw Wirfoddol o ad-daliadau dyled a godir i'r Cyfrif Refeniw Cyfun. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ariannu cyfanswm yr ad-daliadau refeniw o grant a phraesept yr heddlu. Y Ffrwd Refeniw Net yw Gofyniad Cyllidebol y sefydliad.

6.5.2 Yr amcangyfrif o effaith gynyddrannol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y Dreth Gyngor (Rhif 5) yw effaith y Rhaglen Gyfalaf awgrymedig yn y dyfodol ar lefelau'r Dreth Gyngor (tâl Band D). Mae hyn yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer ad-daliadau benthyca, costau ariannu llog a'r cyfraniad refeniw wedi'i gyllidebu.

6.6 Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Trysorlys

Rhif	DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER RHEOLI TRYSORLYS	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
		Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig	Amcangyfri fedig
		£M	£M	£M	£M	£M
7	Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol -					

[tudalen 13]

	Benthyca	21.7	21.4	21.0	20.5	20.0
	Rhwymedigaethau hirdymor eraill	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	21.7	21.4	21.0	20.5	20.0
8	Ffin weithredol -					
	Benthyca	19.7	19.4	19.0	18.5	18.0
	Rhwymedigaethau hirdymor eraill	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	19.7	19.4	19.0	18.5	18.0
9	Terfyn uchaf ar gyfer amlygiad i gyfraddau llog sefydlog					
	Prifswm net par benthyca cyfradd sefydlog / buddsoddiadau	100%	100%	100%	100%	100%
10	Terfyn uchaf ar gyfer amlygiad i gyfraddau llog amrywiadwy					
	Prifswm net par benthyca cyfradd amrywiadwy / buddsoddiadau	25%	25%	25%	25%	25%
11	Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am fwy na 364 diwrnod (fesul dyddiad aeddfedu)	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0

6.6.1 Mae'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol a Ffin Weithredol ar wahân yn nodi benthyca drwy Rwymedigaethau Hirdymor eraill megis prydlesau cyllid. Mae'r terfynau yn gyson ag ymrwymïadau presennol, cynlluniau presennol, cyllidebau refeniw a chyfalaf cymeradwy'r sefydliad, a'r Polisi Rheoli Trysorlys

cymeradwy. Maent hefyd yn ystyried strategaethau rheoli risg, amcangyfrifon o wariant cyfalaf, gofynion cyllid cyfalaf ac amcangyfrifon o lif arian parod.

6.6.2 Mae'r Ffin Weithredol yn seiliedig ar yr amcangyfrif o'r senario darbodus, ond nid gwaethaf, mwyaf tebygol ac mae'n adnodd rheoli allweddol ar gyfer gwaith monitro yn ystod y flwyddyn. Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol i ganiatáu ar gyfer symudiadau arian parod anarferol.

6.6.3 Gofynnir i **Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** gymeradwyo'r terfynau hyn a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Ariannol i symud symiau rhwng y terfynau blyneddol ar wahân y cytunwyd arnynt ar gyfer benthycu a rhwymedigaethau hirdymor eraill yn unol â'r arfarniad o opsiynau a gwerth am arian.

- Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer pob blwyddyn fydd y terfyn statudol a bennir o dan Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- Mae terfynau uchaf ar gyfer amlygiadau i gyfraddau llog sefydlog wedi'u pennu ar gyfer pob blwyddyn fel 100% o'r prifsymiau sy'n weddill.

- Mae terfynau uchaf ar gyfer amlygiadau i gyfraddau llog amrywiadwy wedi'u pennu ar gyfer pob blwyddyn fel 25% o'r prifsymiau sy'n weddill.

- Mae'n golygu y bydd y Prif Swyddog Ariannol yn rheoli amlygiadau i gyfraddau llog sefydlog rhwng 100% a 75% ac amlygiadau i gyfraddau amrywiadwy rhwng 25% a 0% ar gyfer pob blwyddyn.

- Y swm o fenthycu a ragwelir ar gyfradd sefydlog, sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm benthyciadau ar gyfradd sefydlog a ragwelir yw:

[tudalen 114]

12	Strwythur aeddfedrwydd benthycu newydd ar gyfradd sefydlog	terfyn uchaf	terfyn isaf
	o dan 12 mis	20%	0%
	12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	40%	0%
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	50%	0%
	10 mlynedd a mwy	40%	0%

7 PWERAU DIRPRWYEDIG

Daw'r canlynol o'r Llawlyfr Canllawiau, y cyfeirir ato fel 'Rheoli Trysorlys':

1.1.4 **Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r fframwaith polisi a'r gyllideb, monitro canlyniadau ariannol a chymeradwyo cynlluniau ariannol tymor canolig mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'n gyfrifol am gymeradwyo'r fframwaith atebolrwydd a rheoli cyffredinol, a monitro cydymffurfiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; a'r
- Strategaeth Rheoli Trysorlys, gan gynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

DIRPRWYAETHAU I'R PRIF SWYDDOG CYLLID (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau)

5.3 Bod yn gyfrifol am fuddsoddi arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a benthyca arian yn ôl yr angen yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

DIRPRWYAETHAU I'R PRIF SWYDDOG CYLLID (Prif Gwnstabl)

8.1 Sicrhau trefniadau rheoli ariannol yr Heddlu o ddydd i ddydd o fewn fframwaith unrhyw ddyraniad cyllidebol y cytunwyd arno, lefelau awdurdodi ac unrhyw amcanion/amodau a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau mewn perthynas â hwy.

8.2 Cymryd pob cam priodol i sicrhau y caiff y rhaglen gyfalaf ei rhoi ar waith (yn unol ag unrhyw amodau a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau).

Yn ymarferol, aelodau o'r Adran Cyllid Corfforaethol sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith o ddydd i ddydd. Ceir crynodeb o rolau'r staff dan sylw yn Atodiad D.

[tudalen 115]

8 ARGYMHELLION

Mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18.

Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi a'r meini prawf ynglŷn â chyd bartïon a geir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18.

Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17 i 2020/21.

Cymeradwyo'r Datganiad Isafswm Refeniw.

9 YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL A HAWLIAU DYNOL

Mae'r adroddiad yn rhan o'r gwaith o fonitro a rheoli Cronfa'r Heddlu fel y corff plismona lleol sy'n gyfrifol o dan Adran 14 (Deddf yr Heddlu 1996), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

10. MATERION PERSONÉL, CYFLE CYFARTAL AC AMRYWIAETH

Nid oes unrhyw faterion personél, cyfle cyfartal nac amrywiaeth yn codi o'r adroddiad hwn.

11 RHESTR O BAPURAU CEFNDIR

Adroddiad ar y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys Chwefror 2016.

[tudalen 116]

ATODIAD A

Y COD DARBODUS

1. Cefndir

1.1 Cafodd y system gymhleth o reolaethau cyfalaf, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ei disodli ym mis Ebrill 2004 gan system o hunanreoleiddio. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol drwy reoliad ystyried y Cod Darbodus wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Egwyddor sylfaenol y Cod yw y bydd gan awdurdodau lleol ryddid i fuddsoddi cyhyd â bod eu cynlluniau gwariant cyfalaf yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Y fframwaith cydymffurfio yw *The Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* a ddatblygwyd gan CIPFA. Mae argraffiad wedi'i ddiwygio'n llawn (**y Cod Darbodus**) wedi cael ei ddiweddarau ar ôl ymgynghoriad ar y ffordd y cafodd ei weithredu'n wreiddiol ac yn sgil yr hyn a ddigwyddodd ar ôl argyfwng Banciau Gwlad yr Iâ.

2. Y Cod Darbodus

2.1 Amcanion y Cod yw:

- sicrhau bod rhaglenni cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy
- cadw benthyca a chredyd awdurdodau lleol o fewn lefelau darbodus a chynaliadwy
- gwneud penderfyniadau rheoli trysorlys yn unol ag ymarfer da proffesiynol.

2.2 Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r tri amcan allweddol hyn mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn atebol drwy roi fframwaith clir a thryloyw. Mae'n rhaid i'r fframwaith hwnnw fod yn gyson â'r canlynol a'u cefnogi:

- cynllunio strategol lleol
- cynllunio rheoli asedau lleol
- arfarniad priodol o'r opsiynau

2.3 Mae'r Cod yn anelu at wneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiadau sy'n nodi cyfres o "ddangosyddion darbodus" i'w cyflwyno i'w corff sy'n pennu'r gyllideb, mewn cyfarfodydd pennu cyllideb.

Prif Ofynion y Codau

Y Cod Cyntaf (2002)

- fforddiadwyedd - er enghraifft, goblygiadau i'r dreth gyngor
- darbodusrwydd a chynaliadwyedd - er enghraifft, goblygiadau i fenthyca
- costau cyllid

- gwerth am arian
- yr angen i ddarparu ar gyfer cost gofalu am ei asedau
- ei amcanion
- ymarferoldeb

Yr Ail God Diwygiedig (2009)

- mwy o bwyslais ar gynllunio cyfalaf/strategol...
- amcanion gwasanaeth e.e. cynllunio strategol
- gwarchod asedau e.e. cynllunio rheoli asedau
- gwerth am arian e.e. arfarniad o opsiynau
- darbodusrwydd a chynaliadwyedd e.e. goblygiadau i fenthycha allanol a chostau oes gyfan
- fforddiadwyedd e.e. goblygiadau i'r dreth gyngor
- ymarferoldeb e.e. a yw'r blaengynllun yn gyflawnadwy

Y Trydydd Cod Diwygiedig (2013)

Newidiodd y dangosydd darbodus ar gyfer darbodusrwydd ei ddiffiniad o ddefnyddio dyled net i ddefnyddio dyled gros.

yn amodol ar ddiwygiadau blynyddol canlyniadau / atodiadau o natur dechnegol

[tudalen 117]

ATODIAD B

6. Adolygiad o Berfformiad Rheoli Trysorlys – Hydref 2016

6.1 Yn unol â'r Polisi Rheoli Trysorlys cymeradwy, buddsoddwyd arian dros ben gyda derbynwyr adneuon awdurdodedig yn ystod y cyfnod o chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2016 a arweiniodd at gyfanswm o incwm llog gwerth £60k. Fodd bynnag, mae cyfanswm llog buddsoddi gwerth £106k yn dderbyniadwy, lle derbynnir llog o fuddsoddiadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ac mae llog a dderbynnir o gyfrifon galw wedi'i gynnwys.

6.2 O ran y buddsoddiadau presennol a pharhaus mae cyfraddau sylfaenol banc Llywodraeth y DU/Banc Lloegr yn parhau i gael eu pennu ar 0.25% ynghyd ag esmwytho meintiol a mesurau eraill, a fydd yn parhau i gyfyngu ar enillion buddsoddi yn y dyfodol nes bod newidiadau yn yr hinsawdd economaidd. Yn sgil refferendwm y DU ym mis Mehefin 2016, a arweiniodd at bleidlais o blaid gadael yr UE, mae marchnadoedd buddsoddi ac economi'r DU wedi wynebu cyfnod o gryn ansicrwydd ers hynny. Gostyngwyd cyfraddau llog o 0.5% i 0.25% ar 4 Awst ac erbyn hyn rhagwelir y byddant yn parhau'n isel am gyfnod eto. Mae'r holl fuddsoddiadau yn parhau i gael eu gosod gydag endidau'r DU, sy'n aros yn ddigyfnewid, er bod statws sofran y DU wedi cael ei israddio ryw ychydig. Mae hyn yn cymharu â risg barhaus buddsoddiadau yn yr UE.

6.3 Er eglurder, dangosir dadansoddiad o'r buddsoddiadau a wnaed hyd at fis Hydref 2016 yn y tabl canlynol, sy'n rhoi amcan bras o lefel a dosbarthiad y

gweithgarwch buddsoddi hyd yma. Gwnaed cyfanswm o 15 o fuddsoddiadau (£56M) gydag wyth sefydliad (buddsoddiad cyfartalog o £3.7M).

Dadansoddiad o Adneuon Rheoli Trysorlys 2016/17 (Cyfnod Penodol)

Adneuon a wnaed o 1 Ebrill 2016 hyd at a chan gynnwys :31/10/2016

(heb gynnwys adneuon a wnaed yn 2015/16 sy'n aeddfedu yn 2016/17 a Chyfrifon Galw)

BENTHYC IWR	Cyfanswm a Fuddsoddwyd £m	Nifer y Buddsoddiadau	Buddsoddiad Cyfartalog £m	Diwrnodau Cyfartalog a Fuddsoddwyd	Cyfradd Llog Gyfartalog	Cyfanswm Llog £
Banc yr Alban	21.0	5	4.2	72	0.47	16,042
Cymdeithas Adeiladu Cofentri	5.8	3	1.9	32	0.39	2,185
Cymdeithas Adeiladu Nationwider	1.5	1	1.5	117	0.44	2,116
Cymdeithas Adeiladu Newcastle	5.0	1	5.0	87	0.50	5,959
Cymdeithas Adeiladu Nottingham	8.5	2	4.3	85	0.41	8,062
Cymdeithas Adeiladu'r Principality	5.0	1	5.0	207	0.47	13,327
Cymdeithas Adeiladu Skipton	4.0	1	4.0	117	0.46	5,898
Cymdeithas Adeiladu West Bromwich	5.0	1	5.0	87	0.53	6,316
Cyfanswm	55.8	15	3.7	83	0.45	59,906

Crynhair yr arian a adnewyd mewn cyfrifon galw banc, y gellir ei godi ar rybudd byr iawn yn y tabl canlynol:

Dadansoddiad o Adneuon Rheoli Trysorlys 2016/17 (Cyfrifon Galw)

BENTHYCI WR	Nifer y Buddsoddiad au	Buddsoddi ad Cyfartalog £m	Diwrnodau Cyfartalog a Fuddsoddw yd	Cyfradd Llog Gyfartal og / Bresenn ol	Cyfansw m Llog £
LLOYDS	12	7.7	214	0.50%	22,685
BARCLAYS	15	7.6	214	0.40%	14,815
RBS	22	5.5	214	0.25%	8,103
Cyfanswm	49				45,603

[tudalen 118]

6.4 Mae'r llog a enillwyd hyd at fis Hydref 2016 yn cyfateb i enillion cyfartalog o 0.45% (heb gynnwys buddsoddiadau mewn cyfrifon galw) ac mae'n uwch na chyfradd sylfaenol bresennol y banc, sef 0.25%. Mae hyn yn well na'r cyfraddau a gynigir drwy Swyddfa Rheoli Dyled y Llywodraeth. Er bod y Polisi Rheoli Trysorlys presennol yn cyfyngu'r cyfleoedd buddsoddi i nifer fach o gydbartion ystyrir bod hyn yn gydbwysedd derbyniol rhwng risg ac elw.

6.5 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2016, mae'r defnydd canlynol o froceriaid buddsoddi wedi'i wneud:

	Nifer y Trafodion
Garban Intercapital Europe Limited	2
Tullet Prebon (Europe) Limited	8
Yn uniongyrchol gyda Buddsoddwr	5
Yn uniongyrchol gyda Swyddfa Rheoli Dyled y DU	0
Cyfanswm	15
Yn uniongyrchol gyda Chyfrifon Galw	49

7. Y diweddaraaf ar Wlad yr Iâ

7.1 Y lleihad mewn gwerth olaf sy'n weddill a gydnabyddir ar hyn o bryd yw'r un mewn perthynas â Heritable Bank, sef £82K. Derbyniwyd y dididend ad-dalu olaf o £159k (3.98cy yn y £) ym mis Medi 2015, sy'n gadael balans gostyngol o £81,600 fel prifswm (2.04c). Mae'r wybodaeth ddiweddaraaf yn awgrymu y bydd rhagor o ddifidendau a/neu y bydd setliad terfynol yn bosibl. Disgwylir rhagor o wybodaeth o ran y posibilrwydd hwn a'r terfynau amser dan sylw.

8 Benthycia

8.1 Mae'r Cod Darbodus yn cyfyngu gofynion benthycia i feintiau fforddiadwy a chynaliadwy. Ni fydd angen benthycia yn 2016/17 ond bydd angen benthyciadau o bosibl (1.671M ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2017/18 a 2020/21 yn gynnwysedig) i ariannu Gwariant Cyfalaf yn rhannol ar delerau ad-dalu hirdymor, yn unol â'r Rhaglen Gyfalaf. Adlewyrchir yr ad-daliadau dyled cysylltiedig a'r costau llog yn y Gyllideb Refeniw gymeradwy.

ATODIAD C

BROCER – KING A SHAXSON

Mae'r brocer hwn yn sefydliad ariannol cofrestredig a reoleiddir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac mae'n cynnig y gwasanaethau canlynol: gan gynnwys cyfleusterau delio a gwarchod, sydd eu hangen ar gyfer buddsoddiadau penodol heblaw adneuon cyfnod penodol

Adneuon arian parod cyfnod penodol

Adneuon banc arferol

Tystysgrifau Adneuo

Mae'r rhain yn debyg i adneuon, sy'n cael llog cyfradd sefydlog am gyfnod penodol, yn gyfnewid am dystysgrif. Mae'r tystysgrifau hyn yn fasnachadwy fel buddsoddiadau a gellir eu gwerthu cyn iddynt aeddfedu er mwyn cael gafael ar yr arian. Un gwahaniaeth pwysig yw bod y brocer yn cynnig cyngori o ran monitro sicrydau yn ddyddiol er mwyn nodi cyfleoedd posibl i newid er mwyn sicrhau'r arenillion mwyaf posibl.

Biliau'r Trysorlys

Sicrydau byrdymor yw'r rhain, a ddyroddir gan Drysorlys EM ar sail disgownt. Maent yn hylifol iawn, yn sicr iawn a gellir eu defnyddio yn lle cydbartïon banc a giltiau.

Giltiau'r Llywodraeth

Giltiau yw'r ffurf symlaf ar fond y Llywodraeth, sy'n gwarantu ad-dalu llif sefydlog o log bob chwe mis ac ad-daliad cyfalaf sefydlog pan fydd y gilt yn aeddfedu.

Bondiau Corfforaethol

O fis Ebrill 2012, bydd awdurdodau lleol yn gallu prynu bondiau corfforaethol heb iddynt gael eu hystyried yn wariant cyfalaf, o dan bwerau a roddwyd o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Efallai y bydd rhai o asiantaethau llywodraeth y DU a/neu asiantaethau llywodraethau tramor, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt statws AA neu AAA, yn cynnig rhywfaint o fantais, ac felly mae'n werth eu hystyried o ddifrif. Ar hyn o bryd, cynigir bondiau sy'n aeddfedu ymhen 1 i 3 blynedd.

Nodiadau Cyfradd Arnawf

Offerynnau'r farchnad arian yw'r rhain, a ddyroddir fel arfer ar ffurf Eurobond ond gyda chyfradd llog arnawf/amrywiadwy. Fel arfer maent yn aeddfedu ymhen rhwng 1 a 5 mlynedd, a dyroddir rhai am 10 mlynedd. Bernir gwerth Nodyn Cyfradd Arbrawf yn ôl ei 'lwfans disgownt' sef y dosbarthiad dros LIBOR.

Sefydliadau cydwladol

Mae'r rhain yn sefydliadau y mae'r gwledydd datblygedig blaenllaw yn berchen ar gyfalaf eu cyfranddaliadau ac yn ei warantu, sy'n cynnig mwy o warant na gwlad unigol e.e. Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd, Banc Buddsoddi Ewrop, Banc y Byd. Maent yn dyroddi bondiau cyfradd sefydlog sy'n debyg i giltiau, a gynigir fel arfer am breimiwm bach o gymharu â giltiau, ond sy'n llai hylifol.

[tudalen 120]

ATODIAD CH

Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog

RHAGOLWG CAPITA ASSET SERVICES – 15.11.2016

Mae llunio rhagolygon economaidd yn dasg anodd o hyd gyda chymaint o ddylanwadau allanol yn pwyso ar y DU. Bydd ein rhagolygon o Gyfradd y Banc (a hefyd benderfyniadau'r Pwyllgor Polisi Ariannol) yn debygol o newid eto, yn dibynnu ar ddata economaidd a datblygiadau mewn marchnadoedd ariannol dros y flwyddyn nesaf. Bydd rhagolygon ar gyfer enillion cyfartalog y tu hwnt i dair blynedd yn dibynnu'n fawr ar ddatblygiadau economaidd a gwleidyddol. Mae'n debygol y bydd arenillion bondiau yn anwadal iawn wrth i ofnau a hyder buddsoddwyr godi a gostwng rhwng ffafrio asedau sy'n dwyn mwy o risg h.y. ecwitiai, neu ddiogelwch bondiau.

Y duedd gyffredinol yn y tymor hwy yw y bydd arenillion giltiau a chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn codi, er o ychydig. Hefyd, os bydd adferiad economaidd byd-eang yn y pen draw efallai y bydd buddsoddwyr yn newid o ddiogelwch bondiau i ecwitiai.

Rydym wedi nodi'n gyson bod Cyfradd y Banc Ffederal yn debygol o godi'n gyflymach ac yn gadarnach na Chyfradd y Banc yn y DU ac nid yw digwyddiadau diweddar wedi newid y farn honno, dim ond ei bod yn ddigon posibl i amseriad cynnydd o'r fath gael ei ohirio ryw ychydig yn ystod 2016. Er bod cryn berthynas rhwng y ddwy set o arenillion fel arfer, byddem yn disgwyl gweld gwahaniaethau cynyddol rhyngddynt h.y. byddem yn disgwyl i arenillion yr UD godi'n gyflymach nag arenillion y DU. Bydd angen i ni fonitro'r maes hwn yn agos ynghyd â'r effaith ganlyniadol ar gyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. O ystyried yr holl risgiau i adferiad economaidd yn y DU maent yn dal ar yr ochr waethaf, yn enwedig yn wyneb yr ansicrwydd presennol ynghylch telerau terfynol Brexit.

Byddem, fel bob amser, yn atgoffa cleientiaid o'r farn a fynegwyd gennym yn ein negeseuon blaenorol ynglŷn â newidiadau i gyfraddau llog pa mor anwadal yw cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac arenillion bondiau ar hyn o bryd. Rydym yn gweld lefelau eithriadol o anwadalrwydd y mae perthynas agos iawn rhyngddo a datblygiadau geo-wleidyddol ac argyfwng dyled sofran. Mae ein rhagolygon diwygiedig yn seiliedig ar y Gyfradd Sicrwydd (minws 20 bps) sydd wedi bod ar gael i'r rhan fwyaf o awdurdodau ers 1 Tachwedd 2012.

Y risgiau ochr waethaf i'r rhagolygon presennol ar gyfer arenillion giltiau'r DU a chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar hyn o bryd yw:

- Risgiau geo-wleidyddol yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia a allai arwain at lifoedd cynyddol i hafanau diogel.
- Mae twf economaidd y DU a chodiadau mewn chwyddiant yn wannach na'r hyn a ragwelwn ar hyn o bryd.
- Twf gwan neu ddirwasgiad ymhlith prif bartneriaid masnachu'r DU - yr UE a'r UD.
- Argyfwng dyled sofran Ardal yr Ewro yn codi eto
- Cyfalafu gwan rhai banciau Ewropeaidd.
- Camau gweithredu polisi ariannol yn methu ag ysgogi twf cynaliadwy a gwrthsefyll bygythiad dadchwyddiant yn economïau'r gorllewin, yn enwedig yn Ardal yr Ewro a Japan.

Mae'r risgiau ochr orau i'r rhagolygon presennol ar gyfer arenillion giltiau'r DU a chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau, yn enwedig cyfraddau'r Bwrdd yn y tymor hwy yn cynnwys:

- Cyflymder ac amseriad codiadau yng nghyfradd cronfeydd y Band Ffederal a fydd yn peri i fuddsoddwyr ailasesu risgiau cymharol dal bondiau yn hytrach nag ecwitiau ac yn arwain at symudiad mawr o fondiau i ecwitiau.
- Chwyddiant y DU yn dychwelyd i lefelau sylweddol uwch na'r lefelau yn yr UE ehangach a'r UD, gan achosi cynnydd yn y premiwm chwyddiant sy'n rhan annatod o arenillion giltiau.

[tudalen 121]

ATODIAD D

ROLAU STAFF ADRAN CYLLID CORFFORAETHOL SY'N YMWNEUD Â RHEOLI TRYSORLYS

PRIF SWYDDOG(ION) CYLLID (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu) a'r (Prif Gwnstabl)

1. Sicrhau y caiff dogfennau polisi eu dilyn, a'u hadolygu'n rheolaidd.
2. Sicrhau y caiff adolygiad o'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys a'i pherfformiad ei gynnal unwaith y flwyddyn.
3. Yn atebol i **Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** am berfformiad a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn unol â'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys.
4. Sicrhau bod datganiad ysgrifenedig clir o'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd i bob swydd a'r trefniadau cyflenwi.

CYFARWYDDWR CYLLID CYNORTHWYOL

1. Dirprwyo dros y Prif Swyddog Cyllid o ran cyflawni gwaith Rheoli Trysorlys yn ôl yr angen.
2. Adolygu'r Datganiad Polisi Trysorlys, sicrhau y cydymffurfir ag ef, a bod y datganiad hwn yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Prif Gyfrifydd Ariannol

1. Adolygu'r Datganiad Polisi Trysorlys a sicrhau y cydymffurfir ag ef.
2. Sicrhau bod Arferion Rheoli Trysorlys yn bodoli ac y cydymffurfir â hwy.
3. Adolygu perfformiad y swyddogaeth Rheoli Trysorlys o leiaf unwaith y flwyddyn a pharatoi adroddiadau monitro ac adroddiadau blynyddol yn ôl yr angen.
4. Sicrhau bod pawb sy'n ymgymryd â gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cael hyfforddiant priodol.
5. Sicrhau bod trefniadau'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys yn ddigonol i fodloni'r gofynion presennol.
6. Sicrhau bod gwiriadau mewnol digonol a bod dyletswyddau yn cael eu rhannu.

Cyfrifydd Ariannol

1. Rheoli'r swyddogaeth Trysorlys gyffredinol.
2. Paratoi'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys.
3. Paratoi a gweithredu'r Arferion Rheoli Trysorlys.
4. Sicrhau y cydymffurfir â'r systemau a'r gweithdrefnau a osodwyd yn yr Arferion Rheoli Trysorlys, ac nad eir y tu hwnt i'r terfynau a ragnodwyd.
5. Sicrhau y caiff dyletswyddau eu rhannu'n briodol yn yr adran hon.
6. Sicrhau credyd cydbartion buddsoddi.
7. Asesu a phenodi broceriaid, a monitro perfformiad y broceriaid a gyflogir.
8. Adolygu pob trafodyn benthyciad, llif arian parod gwirioneddol ac amcanestyniad a lefel dyled/buddsoddiad yn rheolaidd.
9. Helpu i baratoi'r Datganiad Polisi Trysorlys.

Technegydd Cyfrifyddu

1. Gweithredu'r Datganiad Polisi Trysorlys
2. Paratoi amcanestyniadau o Llif Arian Parod
3. Gwneud penderfyniadau dyddiol ar gyllid, benthycia, derbynioldeb offerynnau trysorlys, ac ystyried cyfreithlondeb y weithred arfaethedig.
4. Delio a chofnod cychwynnol o gytundebau
5. Gweithdrefnau Trosglwyddo
6. Cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y canlynol: trafodion a wneir, llif arian parod gwirioneddol ac amcanestyniadau a lefel dyled/buddsoddiad.